


# Ymarfer Byd-eang – Mynd i'r Afael â Sbwriel Môr

PROSIECT YMCHWIL I SBWRIEL MÔR CRONFA'R MÔR A PHYSGODFEYDD EWROP



Mae cais gan bartneriaeth gan Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac Eunomia Consulting i Lywodraeth Cymru i wneud ymchwil i sbwriel môr yng Nghymru wedi bod yn llwyddiannus. Diolch i gyllid o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, bydd yr ymchwil hon yn darparu gwybodaeth hollbwysig i gefnogi'r broses o roi Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr Cymru a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Strategol Morol ar waith.

Grŵp o nifer o randdeiliaid yw Partneriaeth Moroedd Glân Cymru, sy'n cynrychioli Llywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol, awdurdodau porthladdoedd a harbyrau, y diwydiant pysgota a phartneriaid yn y sector preifat a'r trydydd sector sydd wedi dod ynghyd i weithredu ar Gynllun Gweithredu Sbwriel Môr Cymru.

© Gwybodaeth Hawlfraint: Mae pob delwedd a ddefnyddir yn un ffynhonnell agored oni nodir fel arall.

Delwedd ar y Clawr Blaen: *Delwedd tudalen lawn o 'Cragen' drwy garedigrwydd y Theatr Byd Bychan*

Ar frig y dudalen: Chwith: *Logo buddsoddi'r UE Cornel Dde Uchaf: Logo Llywodraeth Cymru: De: Logo Moroedd Glân Cymru*

Gwaelod y dudalen: O'r dde i'r chwith: *Logo Cadwch Gymru'n Daclus, Logo Eunomia, Logo'r Gymdeithas Cadwraeth Forol*



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

# Cynnwys


Rhestr Termau ..... 5

Cyflwyniad ..... 6

Cyd-destun Polisi ..... 7

Gweithgarwch yng Nghymru ..... 9

Sefydliadau a Rhaglenni ..... 10

Cadwch Gymru'n Daclus ..... 10

Ymddiriedolaethau Natur Cymru ..... 13

Dŵr Cymru ..... 14

Gweithgarwch cymunedol ..... 15

Grŵp Afonydd Caerdydd – Afonydd y Ddinas ..... 15

Casglwyr Sbwriel Llangatwg – Ffyrdd Gwledig ..... 15

Neptune's Army of Rubbish Cleaners (NARC) - Plymwyr Môr Dwfn ..... 16

Prosiectau a Ariennir ..... 17

Prosiect Sbwriel Cricieth ..... 17

Litter Free Coast & Sea Somerset ..... 18

Cragen - Theatr Byd Bychan ..... 18

Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy ..... 19

Gweithgarwch yn y DU ..... 22

Sefydliadau a Rhaglenni ..... 22

Y Gymdeithas Cadwraeth Forol ..... 22

*Have You Got the Bottle?* Ymgyrch i System Dychwelyd Ernes i'r DU ..... 24

Y Rhwydwaith Gweithredu ar Sbwriel Môr ..... 24

Surfers Against Sewage (SAS) ..... 26

FIDRA ..... 27

Keep Britain Tidy ..... 27

City to Sea ..... 28

Rhwydwaith Beach Clean ..... 29

SCRAPbook ..... 29

Pysgota am Sbwriel (y DU) ..... 32

Gweithgarwch cymunedol ..... 33

Partneriaeth Turning Tides ..... 33

Litter Free Coast and Sea Dorset ..... 34

Cynghrair Llygredd Plastig Cernyw ..... 35

Ymddiriedolaeth Grŵp Ymchwil Morloi Cernyw (CSGRT) ..... 36

East Haven Together ..... 36

Partneriaeth Moryd Solway ..... 36




© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Partneriaeth Arfordirol Dwyrain y Mynydd Bannog - Turning the Plastic Tide ........ 37
Gweithgarwch Ewropeaidd ........ 40
Gwaharddiad Munich ar Eitemau Untro mewn Digwyddiadau Cyhoeddus – “Münchner Einwegverbot” ........ 40
RECUP ........ 41
reCIRCLE ........ 42
Ffynhonnau Yfed Copenhagen ........ 43
Gwaharddiadau ar Smygu ar Draethau yn Ewrop ........ 44
Break Free from Plastic ........ 44
Cefnforoedd Nordig Glân ........ 46
Prosiect Mewnbwn Afonol Surfrider ........ 48
Pysgota am Sbwriel ........ 49
Ailgylchu Offer Pysgota ........ 49
YES! Young E Citizens for a Sustainable European Coastline ........ 51
Mentrau Glanhau Rhyngwladol ........ 52
International Coastal Clean Up (ICCU) ........ 52
Rhaglen Gweddillion Morol y Weinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA) ........ 53
Menter Offer Pysgota Gadawedig Fyd-eang (GGGI) ........ 53
Diwrnod Glanhau'r Byd (Sefydliad Dewch i'w Gwneud Hi) ........ 54
Project AWARE ........ 55
Addysg ac Allgymorth ........ 56
Partneriaeth Cadwraeth yr Acwaria (ACP) ........ 56
Don’t Mess with Texas ........ 56
Arloesi ........ 58
Yr Economi Blastigion Newydd ........ 58
Next Wave ........ 58
Cydweithio Byd-eang ........ 60
G7 ........ 60
Y Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr (GPML) ........ 60
Moroedd Glân ........ 61
Strategaeth Honolulu ........ 61
Atodiadau ........ 64
Atodiad 1: Partneriaeth Moroedd Glân Cymru (Aelodau Craidd) 2018 ........ 64
Atodiad 2: Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru 2018 ........ 64
Atodiad 3: Cymunedau Diblastig SAS – 5 Nod ........ 64
Atodiad 4: Ysgolion Diblastig SAS – 5 Nod ........ 65
Atodiad 5: Grwpiau Cymunedol Beach Clean – y DU ........ 65
Atodiad 6: Litter Free Coast & Somerset – Enillwyr Gwobrau Busnesau Sbwriel ........ 68


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Atodiad 7: Aelodau Cynghrair Llygredd Plastig Cernyw ..... 68

Atodiad 8: Aelodau Partneriaeth Cadwraeth yr Acwaria (2018) ..... 69

Atodiad 9: Enillwyr yr Her Dylunio Cylchol ..... 69

Atodiad 10: Fframwaith Byd-eang ar gyfer Atal a Rheoli Gweddillion Morol ..... 71

Atodiad 11: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Adroddiad ar y prosiect Llai o Sbwriel – Ysgol Gyfun Cynffig ..... 72

Atodiad 12: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Adroddiad ar y prosiect Llai o Sbwriel - Ysgol Gynradd Waunfawr ..... 77

Atodiad 13: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Gweithdy Addysg Sbwriel Môr – Ysgol Bae Baglan ..... 83

Atodiad 14: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Gweithdy Addysg Sbwriel Môr ..... 86

Cyfeiriadau ..... 96



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Rhestr Termau

**BBC: Y Gorfforaeth Ddarlledu Brydeinig**
*Darlledwr cyhoeddus ym Mhrydain.*

**EMFF: Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop**
*Mae hon yn gronfa ar gyfer polisïau môr a physgodfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer 2014-2020.*

**EPR**
*Cyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr - polisi amgylcheddol lle mae cyfrifoldeb cynhyrchydd am gynnyrch yn cael ei estyn i'r cam yng nghylch oes cynnyrch ar ôl iddo gael ei ddefnyddio.*

**SAU: Sefydliad Addysg Uwch**
*Prifysgolion, colegau a sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig ac yn cyflwyno addysg uwch.*

**CA2 a CA3: Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3**
*Mae Cyfnod Allweddol 2 yn cyfeirio at bedair blynedd o addysg (blynyddoedd 3-6), ac mae Cyfnod Allweddol 3 yn cyfeirio at dair blynedd o addysg (blynyddoedd 7-9).*

**Cadwch Gymru'n Daclus**
*Yr elusen sy'n gweithio ledled Cymru i ddiogelu ein hamgylchedd yn awr ac yn y dyfodol.*

**Y Gymdeithas Cadwraeth Forol**
*Elusen yn y DU sy'n gweithio i sicrhau bod ein moroedd yn iach, heb lygredd ac yn cael eu diogelu.*

**Cynllun Gweithredu ar Sbwriel Môr**
*Cynllun gweithredu sydd â'r nod o helpu i fynd i'r afael â sbwriel môr a chynnal neu ennill Statws Amgylcheddol Da yn ein dyfroedd morol erbyn 2020 o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE.*

**Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol**
*Nod y ddeddfwriaeth hon yw diogelu'r amgylchedd morol ledled Ewrop yn fwy effeithiol.*

**Sefydliad anllywodraethol**
*Sefydliad nid er elw sy'n gweithio'n annibynnol ar unrhyw lywodraeth.*

**Ymchwil a Datblygu**
*Gweithgarwch sydd wedi'i anelu at ddod o hyd i atebion i broblemau neu greu gwybodaeth newydd.*

**Y DU: Y Deyrnas Unedig**
*Gwlad sy'n cynnwys Prydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban) a Gogledd Iwerddon.*

**CU: Y Cenhedloedd Unedig**
*Sefydliad rhyngwladol sy'n ceisio datrys problemau'r byd mewn ffordd heddychlon.*

**Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig**
*Y llais dros yr amgylchedd yn y Cenhedloedd Unedig.*

**CLlLC: Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru**
*Sefydliad sy'n cynrychioli buddiannau awdurdodau lleol ac yn hyrwyddo democratiaeth leol yng Nghymru.*



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Cyflwyniad

Mae Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac Eunomia Consulting wedi gwneud yr ymchwil hon mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru er mwyn ystyried y gweithgarwch presennol yn y DU a thu hwnt i nodi cyfleoedd i efelychu arferion gorau yng Nghymru a'u defnyddio ar raddfa fwy.

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio sbwriel môr fel '*any persistent, manufactured or processed solid material discarded, disposed of or abandoned in the marine and coastal environment*'.[1]

Mae sbwriel môr yn mynd yn fygythiad cynyddol i'r amgylchedd dyfrol ac arfordirol. Mae hyd at 12.7m tunnell o blastig yn mynd i mewn i gefnforoedd y byd bob blwyddyn, sy'n cyfateb i waredu un lori sbwriel o blastig y funud i mewn i gefnforoedd y byd.[2] Mae hyn yn achosi cryn broblemau i fywyd gwyllt ac ecosystemau dyfrol, ond mae hefyd yn cael effaith andwyol ar ein hiechyd wrth i filiynau o fân ronynnau plastig fynd i mewn i'r pysgod, a hyd yn oed yr halen, a fwytawn. Mae yna hefyd gostau uniongyrchol cynyddol i awdurdodau lleol a'n diwydiant llongau. Yn anuniongyrchol, credir bod sbwriel yn lleihau twristiaeth rhwng 1-5%.[3] Amcangyfrifwyd bod tua 80% o weddillion morol yn dod o ffynonellau ar y tir ac mae'r 20% arall yn dod o ffynonellau morol.[4] Nid oes unrhyw gefnforoedd lle nad yw'r gronynnau hyn wedi cael eu darganfod a cheir tystiolaeth gynyddol[5] bod y broblem yn ymestyn i afonydd a dŵr croyw hefyd, gan wneud hyn yn argyfwng gwirioneddol fyd-eang ac iddo oblygiadau pellgyrhaeddol.

Yn ôl ei natur, mae sbwriel yn broblem fythol newidiol a symudol sy'n golygu ei bod yn her ei fesur a'i gofnodi'n gywir. Mae hyn yn arbennig o gymhleth yn yr amgylchedd morol lle mae gweddillion yn dibynnu ar lanwau, llifau, y tywydd a nifer yr ymwelwyr. Mae lleoliad Cymru yn golygu bod llygredd a gweddillion yn cael eu cludo dros bellteroedd mawr i'n glannau gan Ddrifft Gogledd yr Iwerydd, gan ei gwneud bron yn amhosibl nodi'r ffynhonnell.

Mae'r ymwybyddiaeth o sbwriel môr o ganlyniad i '*Blue Planet II effect*', yn golygu bod y cyhoedd dipyn yn fwy ymwybodol o'r broblem yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gweithgarwch gan wirfoddolwyr yn y maes hwn ar raddfa nas gwelwyd o'r blaen wedi cael ei nodi'n gyfle gwirioneddol i Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol groesawu a chefnogi gweithgarwch o'r fath yn yr hirdymor.

Mewn dadansoddiad blaenorol o awdurdodau lleol ledled Cymru, mae'n amlwg bod pob rhan o'r wlad yn dibynnu ar y gwirfoddolwyr hyn i ymgymryd â gweithgareddau glanhau yn ein mannau gwyrdd a glas. Mae eu hymdrechion a'u brwdfrydedd cyson yn cyfrannu cymaint i lesiant ein hamgylchedd, ein cymunedau a'n bywyd gwyllt fel ei bod yn amhosibl cofnodi gwir effaith eu gwaith. Mae Banc Lloegr wedi ceisio asesu effaith gwaith gwirfoddoli yn y DU, gan roi gwerth economaidd o fwy na £50 biliwn ar wirfoddolwyr, a fyddai'n cyfateb yn fras i'r sector ynni cyfan.[6] Er nad yw'r ffigur hwn yn nodi gwaith gwirfoddoli amgylcheddol ar wahân, nid yw ychwaith yn nodi'r buddiannau cymdeithasol ac amgylcheddol y mae gwaith gwirfoddolwyr yn eu cael ar eu cymunedau ehangach nac, yn wir, y buddiannau o ran llesiant sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith gwirfoddol. Mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi amcangyfrif bod yr olaf ar ei ben ei hun yn werth £70 biliwn.[7]

Er na ellir anwybyddu'r ffaith bod adnoddau yn brinnach yn y sector cyhoeddus, mae'r un mor bwysig nodi nad gweithlu 'am ddim' yw gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, gwelir tuedd gynyddol bod gweithgarwch gwirfoddoli yn ymgymryd â mwy o rôl o ran darparu mwy o'r gwasanaethau cyhoeddus 'traddodiadol' (gan gynnwys casglu sbwriel a glanhau) ac mae cyfle i gysoni gwasanaethau a gweithredu cymdeithasol mewn ffordd nad yw'n disodli'r swyddogaethau hyn yn gyfan gwbl ond sy'n ychwanegu gwerth ac yn creu dimensiynau newydd. Cydnabyddir hyn i ryw raddau ym mholisi gwirfoddoli Llywodraeth Cymru ei hun sy'n cynnwys y nod canlynol: *'Pennu cyfleoedd i gynnwys mwy o wirfoddolwyr i'w helpu i gyflawni ei pholisïau trawsbynciol yn ogystal â phennu lle y gellir cynnwys mwy o wirfoddolwyr mewn meysydd gwasanaeth cyhoeddus pwysig.'*

Mae angen cymorth ar grwpiau cymunedol a gwirfoddolwyr unigol i gydlynu adnoddau a'u denu. Mae hyfforddiant yn hollbwysig o ran cynaliadwyedd ac mae angen dod o hyd i gyfarpar a'i gadw a'i gynnal. Gellir


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

dadlau bod gwirfoddoli amgylcheddol yn gofyn am fwy o waith hwyluso na rolau eraill am fod mwy o angen ymgysylltu â llu o randdeiliaid, megis perchenogion tir gwahanol, awdurdodau lleol, busnesau a sefydliadau yn y trydydd sector. Mae cynaliadwyedd y grwpiau hyn yn dibynnu, i raddau helaeth yn aml, ar gydberthnasau ag un neu ragor o'r sectorau hyn a gall newid mewn staff neu adnoddau gael effaith andwyol ar hynny. Er bod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cydnabod gwerth gwirfoddolwyr amgylcheddol (mae llawer wedi cynnwys ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn eu blaenoriaethau cyffredinol yn eu Cynlluniau Llesiant Lleol), mae nifer o rwystrau a all effeithio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr. *'Mae gan wirfoddolwyr eisoes rôl bwysig i'w chwarae i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus, a gyda'r cynllunio a'r gefnogaeth iawn, mae'n bosibl cyflawni mwy a sicrhau canlyniadau gwell fyth.'*[8]

Mae'r momentwm presennol a diddordeb y cyhoedd a gwleidyddion yn y mater yn golygu ei bod yn adeg ddelfrydol i newid ac i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill weithredu. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion yn adroddiad 'Gwasanaethau Cyhoeddus a Gwirfoddoli' (2018) Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru yn nodi sut y gallai cyrff cyhoeddus greu amgylcheddau mwy cefnogol a galluogol fel y gall gwirfoddolwyr ffynnu, a gall eu gwaith barhau i gyfrannu at Gymru iachach a mwy gwydn.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi ystyried gweithgarwch grwpiau cymunedol sy'n casglu sbwriel mewn lleoliadau arfordirol, afonol a mewndirol ledled y DU ac wedi edrych ar hen brosiectau a phrosiectau presennol sydd â'r nod o fynd i'r afael â sbwriel a gweddillion o ffynonellau ar y tir ac yn y môr. Oherwydd y raddfa bresennol a nifer y gweithgareddau ledled y byd, nid oes modd cofnodi pob gweithgarwch sy'n cael ei gynnal. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi ciplun ar y gweithgareddau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol ac yn ystyried hyd a lled ymdrechion a gwaith ymgysylltu gyda ffocws penodol ar weithgarwch yng Nghymru a'u cyfraniad at nodau:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Deddf yr Amgylchedd ac egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy
- Strategaeth OSPAR
- Uchelgeisiau'r UE ac uchelgeisiau rhyngwladol i sicrhau moroedd glanach

Mae enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch yn cynnwys: Ymgyrchoedd a sefydliadau allweddol, Addysg ac ymgysylltu ag ysgolion, Gweithgarwch grwpiau cymunedol, Mentrau offer pysgota a Phrosiectau a ariennir. Nid yw'r adolygiad wedi'i estyn i ystyried y gweithgarwch ymgysylltu sylweddol â'r gymuned fusnes yn y maes hwn ond dylid cydnabod bod ymdrechion busnesau i arwain newidiadau drwy fentrau lleihau plastigion, cymhellion i ddefnyddwyr a rhoi pwysau ar lywodraethau yn hollbwysig o ran parhau â'r momentwm cyhoeddus presennol.

Mae grwpiau cymunedau a ystyriwyd yma ond yn gyfran fach iawn o'r gweithgarwch presennol, ond cafodd enghreifftiau eu dewis o blith llawer ar sail hirhoedledd, effaith, graddfa, cynaliadwyedd ariannol a phrosesau casglu a chofnodi data fel y gallwn ddangos eu heffaith a'r cyfraniad y gall hyd yn oed grŵp bach ei wneud i fynd i'r afael ag argyfwng byd-eang.

Mae elfennau eraill o'r prosiect hwn yn cynnwys dadansoddiad o'r ymyriadau a'r data i fynd i'r afael â sbwriel ledled Cymru, adolygiad o weithgarwch presennol SAUau a gwaith ar yr opsiynau ar gyfer negeseuon cydlynus y gellir eu defnyddio yng Nghymru i hyrwyddo newid ymddygiad cadarnhaol.

## Cyd-destun Polisi

Un o brif ysgogwyr y darn hwn o waith yw Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r Gyfarwyddeb yn ei gwneud yn ofynnol i Aelod-wladwriaethau baratoi strategaethau cenedlaethol i reoli eu moroedd a chyrraedd Statws Amgylcheddol Da. Mae'n cynnwys yr offeryn cyfreithiol, cyfrwymol penodedig i asesu, monitro, pennu targedau a chyrraedd statws amgylcheddol da o ran sbwriel môr yn yr UE (Disgrifydd 10, D10). Disgrifir statws amgylcheddol da o ran sbwriel môr fel y cyflwr lle nad yw priodoleddau na meintiau sbwriel môr yn achosi niwed i'r amgylchedd arfordirol na morol. Mae'r Gyfarwyddeb wedi cael ei throsi i gyfraith y DU drwy Reoliadau Strategaeth Forol 2010. Nodweddion statws amgylcheddol da y DU ar gyfer



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

D10 yw: "*The amount of litter, and its degradation products, on coastlines and in the marine environment is reducing over time and levels do not pose a significant risk to the coastal and marine environment, either as a result of direct mortality such as through entanglement, or by way of indirect impacts such as reduced fecundity or bioaccumulation of contaminants within food chains*". [9]

Mae ysgogwyr eraill yng nghyd-destun polisi Cymru yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 sy'n pennu nodau llesiant ac egwyddorion y mae dyletswydd ar y sector cyhoeddus i weithio tuag atynt. Mae'r nodau wedi'u cydblethu â'i gilydd ond mae camau gweithredu rhag sbwriel môr ac i leihau plastigion yn cyfrannu'n sylweddol at nodau cyflawni Cymru fwy cydnerth, llewyrchus ac sy'n gyfrifol yn fyd-eang. Gall ymdrechion sefydliadau a grwpiau cymunedol i fynd i'r afael â hyn gyfrannu'n sylweddol at nifer o ddangosyddion cenedlaethol a ddiffiniwyd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru.

Yn yr un modd, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ac egwyddorion cysylltiedig 'Polisi Adnoddau Naturiol' yn cynnwys uchelgeisiau i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff ac ymgais i wneud y gwaith caib a rhaw sydd ei angen er mwyn newid i economi gylchol i Gymru. Bwriedir datblygu 'Roadmap towards a more resource efficient Wales' o 2019.

Mae polisïau rhyngwladol cysylltiedig yn cynnwys Strategaeth OSPAR, a ddeilliodd o Gonfensiwn OSPAR yn 1992 (a elwid hefyd yn Gonfensiwn er Diogelu Amgylchedd Morol Gogledd-ddwyrain Iwerydd). Un o ofynion y Confensiwn yw asesu ansawdd yr amgylchedd morol a phob un o'i gompartmentau (h.y. dŵr, gwaddodion a biota), yn ogystal â mewnbynnau anthropogenig a all effeithio ar ansawdd yr amgylchedd morol. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn ar gyfer sbwriel môr, mae OSPAR wedi datblygu tri dangosydd sy'n ymwneud â sbwriel traeth, sbwriel gwely'r môr a gronynnau plastig yn stumog adar môr (adar drycin y graig). Cafodd y dangosyddion hyn eu mabwysiadu o dan Raglen Mesurau'r DU i roi Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ar waith.

Yn dilyn pryderon ynglŷn â lefelau cynyddol o sbwriel môr yng Ngogledd-ddwyrain yr Iwerydd, datblygodd OSPAR Gynllun Gweithredu Rhanbarthol ar Sbwriel Môr (RAP). Mae'r RAP yn rhestru camau gweithredu i bartïon sy'n contractio ystyried eu cymryd, gan gwmpasu camau gweithredu i frwydro yn erbyn sbwriel yn y môr, ffynonellau sbwriel môr ar y tir, mesurau gwaredu, addysg ac allgymorth.



Mae'n cefnogi mesurau sy'n bodoli eisoes (e.e. y fenter Pysgota am Sbwriel), yn hyrwyddo mesurau newydd ac yn sicrhau integreiddio ag fferynnau sy'n bodoli eisoes, megis y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff.

Mae'r gwaith tuag at nodau OSPAR, megis glanhau traethau a gwaith monitro, yn cael ei arwain gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban a Keep Northern Ireland Beautiful yng Ngogledd Iwerddon.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Mae confensiynau eraill sydd wedi'u cadarnhau yn y DU yn cynnwys y Confensiwn er Atal Llygredd Morol o Waredu Gwastraff (1972) sy'n cwmpasu rheoli prosesau gwaredu gwastraff (o ffynonellau ar y tir) yn y môr. Mae confensiwn MARPOL (neu'r Confensiwn Rhyngwladol er Atal Llygredd gan Longau) yn rheoli llygredd gan y sector llongau ac yn gwahardd gwaredu plastigion i raddau helaeth. Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (2000/60/EC) yn canolbwyntio ar Ansawdd Dŵr yn bennaf. Er nad yw wedi'i nodi'n benodol, byddai sbwriel môr yn cael ei gynnwys yn y camau gofynnol gan aelod-wladwriaethau ped ystyrid ei fod yn cael effaith ar Ansawdd Dŵr.

Y Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (2008/98/EC) yw'r sail dros ddeddfwriaeth rheoli gwastraff yr UE, sy'n nodi diffiniadau allweddol, egwyddorion a gofynion ar gyfer rheoli gwastraff mewn ffordd amgylcheddol gyfrifol. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i wastraff gael ei reoli "…without endangering human health and harming the environment, and in particular without risk to water, air, soil, plants or animals….". Mae'n ofynnol i Aelod-wladwriaethau fabwysiadu cynlluniau rheoli gwastraff a datblygu rhaglenni atal gwastraff, gydag amcanion a mesurau sydd wedi'u hanelu at dorri'r cysylltiad rhwng twf economaidd a'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynhyrchu gwastraff. [10] Mae'r strategaeth gysylltiedig, Strategaeth Cymru Tuag at Ddyfodol Diwastraff 2009 yn ymhelaethu ar y gyfarwyddeb hon a bwriedir ei hadolygu yn 2019.

O safbwynt mwy byd-eang, mae Nodau Datblygu Cynaliadwy yn cynnwys Nod 12: Defnyddio a Chynhyrchu Cyfrifol a Nod 15: Bywyd o dan y Dŵr – un o'i dargedau yw atal llygredd morol o bob math a'i leihau'n sylweddol, yn enwedig llygredd sy'n deillio o weithgareddau ar y tir, gan gynnwys gweddillion morol a llygredd maetholynnol erbyn 2025.

Lansiodd yr UNEP yr ymgyrch byd-eang Moroedd Glân yn 2017 gyda'r nod o ennyn diddordeb llywodraethau, y cyhoedd a'r sector preifat yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig yn y môr. Mae'r ymgyrch yn cyfrannu at nodau'r Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr, sef partneriaeth benagored, wirfoddol i asiantaethau rhyngwladol, llywodraethau, busnesau, y byd academaidd, awdurdodau lleol a sefydliadau anllywodraethol a gynhelir gan Amgylchedd y CU.

## Gweithgarwch yng Nghymru

Mae gan Gymru draddodiad cadarn o weithredu cymunedol, ynghyd â gweithgarwch gwirfoddoli aruthrol i genedl fach. Amcangyfrifir bod 33,000 o sefydliadau yn y trydydd sector yn gweithio yng Nghymru, o elusennau mawr y DU i grwpiau codi arian lleol a chymdeithasau preswylwyr. Mae 8671 ohonynt yn elusennau cofrestredig ac mae tua 1000 o'r rhain wedi'u cofrestru yng Nghymru.[11] Mae gweithgarwch amgylcheddol yn cyfrif am tua 5.5% o gyfanswm gweithgarwch gwirfoddolwyr yng Nghymru (gan gynnwys grwpiau sy'n ymwneud â'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, grwpiau cadwraeth, grwpiau trafnidiaeth gymunedol a grwpiau ailgylchu)[12] ond gall hyn fod dipyn yn uwch o gynnwys ymarferion glanhau achlysurol, digwyddiadau, ymgyrchoedd a gweithgarwch gan ysgolion a phreswylwyr yn y maes hwn.

Gellir amcangyfrif gwerth y trydydd sector mewn sawl ffordd wahanol. Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi cyfrifo y gellir ychwanegu gwerth amser gwirfoddolwyr a roddir drwy sefydliadau at incwm cyffredinol y sefydliadau. Mae hyn yn rhoi amcangyfrif sy'n gymaradwy yn fras â Chynnyrch Domestig Gros. Canfu fod y 145 miliwn o oriau o ymdrech wirfoddol a roddir y flwyddyn yn cyfateb i £1.7 biliwn mewn gwerth ariannol, sy'n cyfateb i 3.1% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru.[13] O ychwanegu'r swm hwn at incwm amcangyfrifedig y trydydd sector, sef £2.0 biliwn, mae hyn yn rhoi cyfanswm o £3.7 biliwn, sy'n cyfateb i 6.8% o Gynnyrch Domestig Gros Cymru.[14]

Mae Partneriaeth Moroedd Glân Cymru wedi cynnig llwyfan gwerthfawr i'r cyhoedd, y sector preifat a sefydliadau yn y trydydd sector ddod ynghyd yng Nghymru ar fater sbwriel môr. Y bartneriaeth yw'r prif lwyfan ar gyfer ymgysylltu, addysg a hyrwyddo ymgyrchoedd a mentrau ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â sbwriel môr, ac, yn y pen draw, gymryd y camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Sbwriel Môr .

Ymhlith y sefydliadau yn y trydydd sector yn y bartneriaeth mae: Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Surfers Against Sewage, Ymddiriedolaethau Natur Cymru a'r RSPB ynghyd â chynrychiolwyr grwpiau cymunedol megis 'Neptune's Army' Sir Benfro. Mae'r holl sefydliadau hyn yn chwarae rôl hollbwysig yn y gwaith o ddiogelu a gwella amgylchedd Cymru. Mae rhestr o aelodau craidd y bartneriaeth ar gael yn Atodiad 1.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Er bod nodau ac uchelgeisiau cyffredin mewn rhai meysydd ac enghreifftiau da o gydweithredu ar bolisïau'n llwyddiannus, anaml y cynhelir prosiectau ac ymgyrchoedd ar y cyd yn y trydydd sector oherwydd y gystadleuaeth anochel am gyllid a'r adnoddau prinnach.

Yn anffurfiol, mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol yn y trydydd sector ac aelodau unigol o staff. Ychwanegwyd at hyn i ryw raddau drwy'r gwaith paratoi i adael yr Undeb Ewropeaidd wrth i ailfeddwl am dir a'r amgylchedd ddod yn 'brosiect ar y cyd' newydd a hwyluswyd yn bennaf gan y corff mantell 'Cyswllt Amgylchedd Cymru' sy'n llwyfan i gydweithredu a datblygu polisïau yn y sector, yn ogystal â chynnig cyfle gwerthfawr i rwydweithio ar nodau amgylcheddol a rennir. Gellir gweld rhestr o aelodau presennol Cyswllt Amgylchedd Cymru yn Atodiad 2.

Mae mynd i'r afael â sbwriel yn fater sy'n uno sefydliadau amgylcheddol yn y trydydd sector ac mae cryn dipyn o le i lunio negeseuon ac ymgyrchoedd ar y cyd. Y brif her i gydweithio yw her cydlynu adnoddau.

Daeth Cadwch Gymru'n Daclus, y Gymdeithas Cadwraeth Forol a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynghyd yn 2018 i gydlynu digwyddiad Glanhau Traethau Cymru Gyfan yn 2018 ar gyfer 'Blwyddyn y Môr' Cymru. Bu hon yn ymgais lwyddiannus gyntaf gan elusennau amgylcheddol yng Nghymru i ddod ynghyd i gyfleu negeseuon a threfnu gwaith gwirfoddol.

## Sefydliadau a Rhaglenni

Mae'r sector sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol yn un cryf yng Nghymru. Mae llawer ohonynt yn rhan o gymunedau ac yn cael eu cefnogi gan filoedd o wirfoddolwyr neu aelodau. Mae rhai o'r sefydliadau hyn yn gweithredu yng Nghymru yn unig neu mae ganddynt 'gangen' yng Nghymru o sefydliad ehangach yn y DU. Mae gan nifer llai o'r sefydliadau aelodaeth asedau tir a gwarchodfeydd, megis yr RSPB a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol a Surfers Against Sewage yn enghreifftiau o sefydliadau'r DU sydd wedi ymestyn eu gweithgarwch i Gymru. (Gweler hefyd: Gweithgarwch yn y DU – Sefydliadau a Rhaglenni)

### Cadwch Gymru'n Daclus

Elusen amgylcheddol yw Cadwch Gymru'n Daclus, a sefydlwyd yn 1972. Mae'n gweithio ledled Cymru i ddiogelu a gwella'r amgylchedd. Mae'r elusen yn mynd ati i gyflawni ei nodau drwy raglenni, sydd wedi'u hategu gan waith helaeth â gwirfoddolwyr ym mhob awdurdod lleol, gan gefnogi cymunedau yn yr ardaloedd lle maent yn byw ac yn gweithio. Mae hyn yn dangos dull gweithredu unigryw a holistaidd yr elusen sy'n annibynnol ar ei chwaer-sefydliadau yn y DU (h.y.: 'Keep Britain Tidy', 'Keep Northern Ireland Beautiful' a 'Keep Scotland Beautiful').

Yn ogystal â'r cymorth craidd gan wirfoddolwyr, Cadwch Gymru'n Daclus yw'r sefydliad yng Nghymru sy'n gyfrifol am gyflawni rhaglenni Gwobrwyon Rhyngwladol drwy'r Sefydliad Addysg Amgylcheddol; Rhaglen y Faner Las i Gymru, Rhaglen y Faner Werdd i Barciau, Eco-sgolion a Menter yr Agoriad Gwyrdd.

Mae ei waith polisi yn cynnwys cynnal arolygon blynyddol LEAMS o lendid strydoedd sydd wedi adeiladu ar y data ar sbwriel i Gymru ers yr arolwg sylfaen yn 2007/8 a gwaith helaeth a threialon ym maes newid ymddygiad a negeseuon.

Nododd y gwaith dadansoddi blaenorol ar gyfer y prosiect hwn fod pob awdurdod lleol yng Nghymru yn cydweithio â Cadwch Gymru'n Daclus ac yn dibynnu ar ei gymorth cymunedol i ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn ei ardal a chydlynu eu gwaith.

Yn ystod y 10 mlynedd o waith Trefi Taclus, mae'r elusen wedi cefnogi dros 3000 o grwpiau cymunedol, wedi cael cymorth dros 30,000 o wirfoddolwyr bob blwyddyn sy'n gwneud cyfanswm o fwy na 1.68 miliwn o oriau gwirfoddolwyr gwerth £12 miliwn i economi Cymru.[15]

Mae'r ffordd y mae Cadwch Gymru'n Daclus yn mynd i'r afael â sbwriel yn cyd-fynd i raddau helaeth ag egwyddorion Cymdeithas Ffermydd a Gerddi'r Merched ac mae'n fedrus iawn o ran dwyn cymunedau, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru a busnesau yn y sector preifat ynghyd i gydweithio ar nodau a rennir.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn cael cyllid o nifer o ffynonellau, gan gynnwys: Llywodraeth Cymru, hyfforddiant a gwasanaethau a nawdd gan fusnesau.

**Gwefan: https://www.keepwalestidy.cymru/cy**

### Eco-Sgolion

Gyda bron 20 miliwn o fyfyrwyr mewn dros 51,000 o ysgolion, Eco-Sgolion yw'r rhwydwaith mwyaf o athrawon a myfyrwyr yn y byd.

Mae Eco-Sgolion yn rhaglen a arweinir gan ddisgyblion sy'n annog pobl ifanc i ymddiddori yn eu hamgylchedd drwy roi cyfle iddynt fynd ati i'w ddiogelu. Ei nod yw grymuso ac ysbrydoli pobl ifanc i wneud newidiadau amgylcheddol cadarnhaol i'w hysgol a'u cymuned ehangach, ac adeiladu ar eu sgiliau allweddol, gan gynnwys rhifedd a llythrennedd a chwmpasu Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, ar yr un pryd.

Ariennir y rhaglen yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ac mae am ddim i ysgolion awdurdodau lleol, ond mae'n rhaid i ysgolion annibynnol gyfrannu tuag at y cymorth a roddir iddynt.

Mae rhaglen yr Eco-Sgolion yn ffordd ddelfrydol i ysgolion ddechrau ar lwybr ystyrlon tuag at wella'r amgylchedd yn yr ysgol ac yn y gymuned leol, a chael effaith gadarnhaol gydol oes ar bobl ifanc, eu teuluoedd, staff ysgol ac awdurdodau lleol ar yr un pryd.[16]

Yng Nghymru, mae mwy o ysgolion nag erioed o'r blaen wedi mynd drwy'r rhaglen, gyda myfyrwyr yn arwain y ffordd ac yn ysbrydoli newid yn eu hysgolion, eu cymunedau ac ar y llwyfan byd-eang.
Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi llwyddo i roi hyd yn oed mwy o gymorth i'n Heco-Sgolion a'u staff yn 2018. Roedd hyn yn cynnwys creu ardaloedd tyfu bwyd, rhoi systemau draenio ar waith a mynd i'r afael â llygredd dŵr. Trefnwyd 60 'Diwrnod Gweithredu Eco' a chymerodd 3,000 o fyfyrwyr ran mewn amrywiaeth o weithgareddau – o nodi mannau gwael o ran sbwriel ac uwchgylchu cynhyrchion gwastraff, i wahardd gwellt yfed plastig a lleihau gwastraff bwyd.
**Gwefan: (Cymru)** https://www.keepwalestidy.cymru/Pages/Site/cy/Category/eco-sgolion
**Gwefan: (Yn fyd-eang)** http://www.ecoschools.global/

### Eco-Sgolion – Llai o Sbwriel

Mae Ymgyrch Llai o Sbwriel yn gyd-fenter gan Sefydliad Cwmni Wrigley a'r Sefydliad Addysg Amgylcheddol. Mae Eco-Sgolion Cymru wedi rhedeg y rhaglen ers blynyddoedd lawer ac mae bellach ar ei thrydydd cam ers 2017, sy'n rhedeg mewn 15 o wledydd tan 2019. Mae Cam III yr Ymgyrch Llai o Sbwriel yn cael ei roi ar waith mewn ysgolion drwy'r rhaglen Eco-Sgolion a/neu'r rhaglen Gohebwyr Ifanc ar yr Amgylchedd. Ei nod yw ennyn diddordeb plant a phobl ifanc ym mater sbwriel a'u haddysgu a'u hannog i wneud dewisiadau cadarnhaol.

Mae ymgyrch Llai o Sbwriel Eco-Sgolion yng Nghymru yn cefnogi 20 o ysgolion bob blwyddyn. Mae pob ysgol yn cynnwys adolygiad sbwriel ac yn penderfynu ar nifer o gamau gweithredu i godi ymwybyddiaeth o faterion sy'n ymwneud â sbwriel a datblygu atebion. Mae cynnwys ac addysgu'r ysgol gyfan, yn ogystal â'r gymuned leol, yn rhan o'r broses o ddatblygu'r prosiect ac mae llawer o ysgolion yn cynnal Diwrnodau Gweithredu Cymunedol.

Gellir gweld astudiaethau achos diweddar mewn Eco-Sgolion yn yr Atodiadau.

### Gohebwyr Ifanc ar yr Amgylchedd

Cystadleuaeth ryngwladol yw Gohebwyr Ifanc ar yr Amgylchedd, sy'n gwahodd pobl ifanc i fynegi barn ar faterion amgylcheddol sy'n agos at eu calon drwy adroddiadau ymchwilio, ffotograffiaeth neu ffilm. Cadwch Gymru'n Daclus yw'r gweithredwr cenedlaethol dros Ymgyrch Llai o Sbwriel Gohebwyr Ifanc ar yr Amgylchedd ac mae'n derbyn gwaith ymgeiswyr o ysgolion, colegau a sefydliadau ieuenctid yng Nghymru sy'n barod am her newyddiadurol.

Mae tri chategori oedran sef, 11-14, 15-18 a 19-25, ac ym mhob categori oedran mae tri chategori fformat fel a ganlyn:

**Gwaith ysgrifenedig:** ni ddylai fod yn fwy na 1,000 o eiriau a gall gynnwys ffotograffau a darluniau


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

**Ffilm:** ni ddylai bara am fwy na 3 munud, a dylai fod ar ffurf adroddiad newyddion yn ddelfrydol
**Ffotograffiaeth:** rhaid cyflwyno un ffotograff a theitl a disgrifiad byr o 150 o eiriau ar y mwyaf

Ar ôl i'r gystadleuaeth gael ei hail-lansio yng Nghymru ym mis Tachwedd 2018, mae 32 o bobl ifanc wedi cyflwyno gwaith o 10 o ysgolion a sefydliadau ieuenctid, yn benodol ar sbwriel môr.

### Gwobrau'r Faner Las a Gwobrau Arfordir

Nod Rhaglen y Faner Glas yw hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn yr ardaloedd arfordirol drwy safonau ansawdd dŵr uchel, safonau diogelwch, safonau rheoli amgylcheddol ac addysg amgylcheddol. Mae'n mynd ati i ddwyn ynghyd y sector twristiaeth a'r sector amgylcheddol ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.[17] Yn 2018, dathlwyd 30 mlynedd ers cyflwyno Gwobr y Faner Las yng Nghymru, a ystyrir yn 'safon aur' yn gyffredinol i draethau ledled y byd. Mae Rhaglen y Faner Las i draethau a marinas yn cael ei rhedeg gan y 'Sefydliad Addysg Amgylcheddol', sy'n sefydliad anllywodraethol, nid er elw. Dechreuwyd Rhaglen y Faner Las yn Ffrainc yn 1985. Mae wedi bod yn gweithredu yn Ewrop ers 1987 ac mewn ardaloedd y tu allan i Ewrop ers 2001. Mae'r rhaglen yn cael ei gweithredu mewn 46 o wledydd ledled y byd. Yng Nghymru, caiff y wobr ei chydgysylltu gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae dros 100 o draethau yng Nghymru sydd wedi cael eu dynodi'n ddyfroedd ymdrochi gan yr UE, gyda 44 ohonynt yn cyrraedd safon y Faner Las ar hyn o bryd. Mae Gwobr y Faner Las yn golygu ansawdd dŵr uchel, diogelwch a mynediad ond mae addysg am yr amgylchedd hefyd yn greiddiol iddi. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithgareddau amgylcheddol addysgol yn yr ardal leol a darparu gwybodaeth am fioamrywiaeth ac ecosystemau lleol i ymwelwyr. Er mai gwobr amgylcheddol ydyw yn bennaf, mae hirhoedledd y rhaglen a'r gydnabyddiaeth gynyddol yn fyd-eang wedi dechrau dangos effeithiau cymdeithasol ac economaidd hefyd.

Yn ein dadansoddiad o ymyriadau sbwriel awdurdodau lleol, nododd yr awdurdodau arfordirol perthnasol bwysigrwydd gwobr y Faner Las o ran tywys arferion da ym maes rheoli traethau. Canfu adroddiad arolwg 'Beth mae'r Faner Las yn ei olygu i Gymru?' a gyhoeddwyd ar ddechrau 2018 i ddathlu Blwyddyn y Môr a 30 mlynedd ers ei sefydlu yng Nghymru y canlynol:

- Mae dros 96% o bobl yn ymwybodol o Wobr y Faner Las
- Roedd 67% yn gwybod p'un a oedd eu hoff draeth wedi cael gwobr y Faner Las ai peidio
- Dywedodd 70% o bobl mai glendid oedd eu prif reswm dros ymweld â thraeth penodol
- Dywedodd dros 40% o bobl mai diogelwch, mynediad at lwybrau cerdded a chyfleusterau parcio oedd prif atyniadau traeth penodol
- Dewisodd 30% o bobl eu hoff draeth ar sail statws Gwobr y Faner Las
- Roedd 90% o bobl yn deall bod Gwobr y Faner Las yn ymwneud â glendid, diogelwch ac ansawdd dŵr.
- Dywedodd 67% o ymwelwyr y byddai colli Baner Las, o bosibl, yn newid eu canfyddiad o'r traeth, neu y byddai bron yn sicr o wneud hynny (dim ond 22% a ddywedodd na fyddai'n effeithio ar eu canfyddiad)
- Dywedodd dau o bob tri ymwelydd y byddai, o bosibl, yn effeithio ar eu penderfyniad i fynd i'r traeth penodol hwnnw, neu'n sicr o wneud hynny.

Mae gwobr y Faner Las hefyd ar gael i farinas ac, yn fwy diweddar, i weithredwyr cychod i dwristiaid sy'n bodloni meini prawf tebyg, sef addysg amgylcheddol, gwybodaeth a rheoli, diogelwch a gwasanaeth ac ansawdd dŵr. Mae darpariaeth hefyd y gall marina llai o faint ymrwymo i gytundeb â safleoedd mwy er mwyn darparu'r lefel o gyfleusterau sy'n angenrheidiol.

Yn ogystal â Gwobr y Faner Las, mae Cadwch Gymru'n Daclus hefyd yn arwain y gwaith ar y gwobrau cenedlaethol sy'n cynnwys y Wobr Arfordir Glas a Gwobrau Glan Môr. Mae'r Wobr Arfordir Glas yn cydnabod ansawdd dŵr rhagorol ac amgylchedd digyffwrdd ein 'trysorau cudd' yng Nghymru ond, yn wahanol i draeth Gwobr y Faner Las, nid oes gan y safleoedd hyn y seilwaith na'r trefniadau rheoli dwys sydd fel arfer yn gysylltiedig â threfi glan môr mwy traddodiadol. Yn bwysig ddigon, mae'r wobr hon yn annog pobl i 'fabwysiadu' rhannau o'r arfordir, gan helpu i gyfrannu tuag at gynaliadwyedd yr ardal a hyrwyddo gweithgarwch gwirfoddol ar yr un pryd. Mae 25 o draethau yng Nghymru ar hyn o bryd sydd wedi ennill y statws hwn. Mae map o'r safleoedd hyn a meini prawf Arfordir Glas ar gael yma. Gweithredir y Wobr Glan Môr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon ac mae'n cael ei rhoi i gyrchfannau arfordirol sydd â chyfleusterau eithriadol. Cafodd 85 o draethau yng Nghymru y wobr hon yn 2017.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

**Gwefan: (Cymru)** [https://www.keepwalestidy.cymru/y-faner-las](https://www.keepwalestidy.cymru/y-faner-las)
**Gwefan: (Yn fyd-eang)** [http://www.blueflag.global/](http://www.blueflag.global/)

## Ymddiriedolaethau Natur Cymru

Yr Ymddiriedolaethau Natur yw'r sefydliad gwirfoddol mwyaf yn y DU sy'n ymroi i ddiogelu bywyd gwyllt a mannau gwyllt gyda thros 800,000 o aelodau (y mae 150,000 ohonynt yn aelodau ifanc). Mae 47 o Ymddiriedolaethau Natur unigol sy'n cwmpasu'r DU gyfan ac Ynys Manaw ac Alderney ac mae Ymddiriedolaeth Natur Cymru yn rheoli pum ymddiriedolaeth ranbarthol: Gogledd Cymru, Sir Drefaldwyn, Sir Faesyfed, Gwent a De a Gorllewin Cymru. Mae'r ymddiriedolaethau yng Nghymru yn rheoli 216 o warchodfeydd natur sy'n ymestyn dros 8,000 o hectarau ac sy'n cael eu cefnogi gan 25,000 o aelodau. Eu cenhadaeth yw creu '[Tirweddau Byw](#)' a '[Moroedd Byw](#)'.

Mae pob ymddiriedolaeth yn gweithredu'n wahanol, yn dibynnu ar y rhanbarth ond mae'r tair ardal sydd ag arfordir (De Cymru, Gogledd Cymru a Gwent) oll yn chwarae rhan weithredol ym maes addysg forol a digwyddiadau glanhau yn eu hardaloedd a'u cyffiniau ac yn eu gwarchodfeydd niferus. Nid oes modd cyfleu holl weithgarwch yr aelodau ond rhoddir enghraifft o Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru isod.

### Canolfan Bywyd Gwyllt Morol Bae Ceredigion, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru

Ers 15 mlynedd, mae gwirfoddolwyr Moroedd Byw o'r Ganolfan wedi cynnal digwyddiadau glanhau traeth rheolaidd, yn aml bob dydd yn ystod misoedd yr haf, gan gwmpasu'r tri phrif draeth yng Ngheinewydd. Yn ystod y digwyddiadau hyn, mae gwirfoddolwyr yn casglu sbwriel ar y traethau a'r mannau cyhoeddus



*Delwedd:* Baner Las a Baner Gwlad Groeg ar Draeth. *Ffotograff drwy garedigrwydd keeptalkinggreece.com*

cyfagos, gan gofnodi nifer y darnau o sbwriel a gesglir a'r math. Mae'r gwirfoddolwyr hefyd yn ymgysylltu â'r cyhoedd, gan godi ymwybyddiaeth o sbwriel môr. Er mwyn annog pobl i gymryd rhan, hyrwyddo ymdeimlad o berchenogaeth a helpu i dynnu sylw at broblem sbwriel môr, gwahoddir aelodau o'r cyhoedd i ymuno â'r digwyddiadau glanhau traeth cymunedol misol.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Gyda chymorth Cadwch Gymru'n Daclus (Eco-Sgolion), mae hefyd yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau lleol i drefnu gweithdai sy'n canolbwyntio ar sbwriel môr, effeithiau sbwriel ar yr amgylchedd morol a'r ffordd y gall pobl helpu i fynd i'r afael â phroblem sbwriel môr yn y cartref a thrwy ymuno â digwyddiadau glanhau lleol. Mae'r gweithdai yn cynnwys sesiwn yn yr ystafell ddosbarth ac yna sesiwn glanhau traeth fach ar un o'r traethau lleol.

**"We have been recording beach clean effort and the amount of litter collected for the past seven years (2011-2018). Over this time volunteers have spent a staggering 1,158 hours removing 171,831 pieces of litter from the three beaches in New Quay. This total includes 53,848 pieces of plastic and 46,374 cigarette butts".** - WTSWW

Dros y 15 mlynedd diwethaf, mae cyfanswm o 567 o wirfoddolwyr o'r Ganolfan wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau glanhau traeth yn yr ardal leol. Maent wedi ymgysylltu â thros 1,000 o aelodau'r cyhoedd sydd wedi bod yn rhan o ddigwyddiadau glanhau traeth cymunedol neu wedi mynd i weithdai ar sbwriel.

**Gwefan / Rhagor o wybodaeth:** [www.cbmwc.org](http://www.cbmwc.org)

## Dŵr Cymru

Dŵr Cymru yw'r chweched cwmni mwyaf o'r deg cwmni dŵr a charthffosiaeth a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyfrifol am ddarparu cyflenwad parhaus o ddŵr yfed o ansawdd uchel i fwy na thair miliwn o bobl ac am gymryd y dŵr gwastraff a gynhyrchir, a'i drin a'i waredu'n briodol. Mae Glas Cymru yn gwmni cyfyngedig drwy warant ac, fel y cyfryw, nid oes ganddo unrhyw gyfranddalwyr, sy'n sefyllfa unigryw yn y sector dŵr a charthffosiaeth.

Mae Cymru yn cydnabod bod cysylltiad agos iawn rhwng llygredd plastig a'r broses o drin dŵr gwastraff trefol a bod dŵr gwastraff yn cyfrannu'n fawr at lygredd oherwydd y cyfeintiau sy'n mynd drwy ein gweithfeydd trin. Mae hyn nid yn unig yn cwmpasu'r 'gweddillion sy'n gysylltiedig â charthion' a ddiffiniwyd ond hefyd amrywiaeth ehangach o blastigion, gan gynnwys gronynnau o ficroblastigau o amrywiaeth eang o ffynonellau trefol a domestig. Mae dŵr ffo hefyd yn broblem. Mae rhai eitemau yn ddigon bach i fynd drwy hyd yn oed sgriniau mân ac mae eraill yn dianc drwy bibellau gorlif carthffosiaeth cyfunol yn ystod stormydd. Mae ffynonellau eraill yn cynnwys ffeibrau sy'n cael eu colli o ddillad synthetig yn y golch, a gronynnau plastig diwydiannol a gollir i lawr draeniau wrth iddynt gael eu trafod mewn cyfleusterau lle nad oes mesurau rheoli ar waith neu lle maent yn aneffeithiol.

Fodd bynnag, mae diffyg data cyfredol a gwaith dadansoddi, ac nid ydym yn deall y llwybrau'n iawn. Er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn, mae Dŵr Cymru wedi ymrwymo i weithio ar y canlynol:

- Buddsoddi mewn asedau, h.y. atebion peirianyddol
- Ymchwil a chydweithio
- Polisi a Deddfwriaeth
- Cyfathrebu â Chwsmeriaid
- Cydweithio â'r diwydiant dŵr
- Camau gweithredu gan staff a chynnwys staff

Mae Dŵr Cymru eisoes wedi dechrau treialu prosesau hidlo mwy arloesol ac mae'n rhan o Ymchwil ehangach y Diwydiant Dŵr yn y DU ar y cyd ag eraill yn y diwydiant i archwilio microblastigion a sbwriel (gan gynnwys dulliau dadansoddol nad ydynt yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd) ac addysg i weithredu ar 'eitemau y gellir eu fflysio'. Mae hefyd yn cefnogi Ymgyrch 'Ail-lenwi' Cymru.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Bydd safbwynt y diwydiant dŵr a'i ymdrechion i ailbeiriannu ac ymchwilio i'r mater hwn yn hollbwysig i'n dealltwriaeth yn y dyfodol ac er gwaethaf eu sylfaen cwsmeriaid, mae'n debygol y bydd angen cymorth ychwanegol ar gwmnïau dŵr ledled y DU drwy Bartneriaeth Moroedd Glân Cymru i addysgu ac ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn deall y llwybrau sy'n ymwneud â charthion yn well.

Yn sgil pryderon bod gweddillion sy'n gysylltiedig â charthion yn mynd i mewn i gefnforoedd a dyfrffyrdd,

---

**"For the first time, there is a standard that will enable UK consumers to know that a product which is promoted as being 'flushable' is both plastic-free and approved by the water industry - the custodians of the sewer network - as being fine to flush without risking causing blockages, sewer flooding and pollution. Naturally, we are calling on all manufacturers to rise to the challenge of meeting the Fine to Flush standard - and we know that many manufacturers are already seeking to do so, and that the first product that is Fine to Flush will be on the market soon".** – Dŵr Cymru

---

mae Dŵr Cymru, ynghyd ag eraill yn y sector, wedi cyhoeddi ei 'Fine to flush', yn ddiweddar, Water Industry Specification 4-02-06 for flushability.

**Gwefan:** **https://www.dwrcymru.com/**

## Gweithgarwch cymunedol

Nid oes modd cofnodi'r holl weithgarwch cymunedol ledled Cymru gan fod cymaint o grwpiau sy'n weithredol yn y maes hwn, yn amrywio o sefydliadau rhanbarthol sefydledig i denantiaid a chymdeithasau preswylwyr i'r llu o hyrwyddwyr sbwriel unigol ledled y wlad. Mae rhai grwpiau ond yn gweithredu mewn ardal benodol megis eu parc lleol ond mae eraill yn cwmpasu trefi a rhanbarthau cyfan. Ceir isod ychydig o enghreifftiau yn unig o rai grwpiau gwahanol iawn sydd wedi'u sefydlu ers nifer o flynyddoedd ac nad ydynt yn dibynnu fawr ddim ar gyllid allanol, os o gwbl. Mae pob un ohonynt yn enghreifftiau da o gasglu data, cydweithio ac arloesi ond nid nhw yw'r unig grwpiau sy'n gweithredu yn y modd hwn o bell ffordd.

### Grŵp Afonydd Caerdydd – Afonydd y Ddinas

Sefydlwyd Grŵp Afonydd Caerdydd yn 2009 ac mae'n aml yn denu dros 50 o wirfoddolwyr i bob digwyddiad. Mae wedi meithrin cydberthynas arbennig o dda â Chyngor y Ddinas sy'n dibynnu ar wirfoddolwyr y grŵp i'w gynorthwyo gyda phrosiectau mawr. Mae'r grŵp yn gweithio gyda llawer o grwpiau cymunedol eraill yn y ddinas ac yn rhoi cymorth iddynt ac mae'n rhannu cyfarpar yn rheolaidd er mwyn eu galluogi i gynnal digwyddiadau. Mae'r grŵp yn codi arian drwy werthu'r metal sgrap a gesglir ac mae wedi cael nawdd drwy fusnes metal sgrap sy'n rhoi arian am gwch y grŵp a chrysau-t i wirfoddolwyr. Mae'r Cyngor wedi dechrau cadw metal sgrap ar gyfer y grŵp ar ei safleoedd. Mae gwerthu eitemau a gasglwyd ar eBay hefyd wedi codi arian ac mae'n helpu i hyrwyddo ailddefnyddio.

Mae gwefan y grŵp yn cynnwys swyddogaeth 'Call the CRG' a ddefnyddir yn aml gan y cyhoedd i ofyn am i ardaloedd penodol gael eu clirio. Drwy ei wasanaeth 'The Masked Avenger' gall ychydig o'r aelodau ymateb i achosion unigol o sbwriel mewn afonydd megis hen droli.

Fel yn achos llawer o grwpiau sy'n dechrau drwy gasglu sbwriel, mae ei waith wedi ymestyn yn gynyddol i gynnwys gweithgareddau amgylcheddol ehangach megis rheoli cynefinoedd, atgyweirio llwybrau, bondocio a chlirio pyllau.

**Gwefan:** **http://cardiffriversgroup.co.uk/** **/Twitter:** **@CardiffRivers**

### Casglwyr Sbwriel Llangatwg – Ffyrdd Gwledig

Grŵp cymunedol yw Casglwyr Sbwriel Llangatwg, sydd wedi'i leoli yn ardal wledig fach Crucywel. Mae'n gysylltiedig â rhaglen o weithgareddau a sefydlwyd fel 'Cymoedd Gwyrdd Llangatwg' sydd wedi cynnwys



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

prosiectau ynni adnewyddadwy, mentrau effeithlonrwydd ynni, rhandiroedd a rheoli coetiroedd. Mae gan y grŵp casglu sbwriel, a sefydlwyd yn 2009, graidd o 18 o wirfoddolwyr rheolaidd sy'n cwmpasu 160 o filltiroedd o ymyl ffyrdd bob mis dros dri awdurdod lleol. Mae'r grŵp yn cynhyrchu ei ffrydiau ariannu ei hun drwy drefniadau casglu sbwriel â pherchenogion tir preifat a chael gwared ar sbwriel a waredwyd yn anghyfreithlon o bryd i'w gilydd.

Mae'r grŵp yn casglu 15-20 llond bag o sbwriel bob mis ar gyfartaledd ac mae'n didoli'r sbwriel yn chwe chategori (papur, metel, plastig, tecstilau, tirlenwi a gwydr). Mae prosesau casglu data diwyd a chyson y grŵp wedi'i arwain at ddod yn gefnogwr brwd dros Gynllun Dychwelyd Ernes yng Nghymru oherwydd yn 2018 casglwyd 25,970 o gynwysyddion diodydd. (caniau (54%), plastig (29%)/gwydr (6%) poteli a chwpanau untro (11%).
**Twitter: @Llangattockplck**

## Neptune's Army of Rubbish Cleaners (NARC) - Plymwyr Môr Dwfn

Sefydlwyd NARC yn 2005 fel grŵp glanhau tanddwr cyntaf y DU. Er bod modd gweld sbwriel sy'n cael ei adael ar ein traethlin neu ei gludo yno, ni ellir dweud yr un peth bob amser am sbwriel môr sydd islaw arwyneb y cefnfor. Plymwyr gwirfoddol yw Neptune's Army of Rubbish Cleaners, sy'n frwd dros gynnal sesiynau plymio a glanhau, codi ymwybyddiaeth o'r effeithiau a gweithio ar atebion cydweithredol. Mae'r elusen, sydd wedi ennill gwobrau, wedi cynnal dros 300 o sesiynau plymio a glanhau ac wedi gweithio gyda nifer o bartneriaid yn y DU a thramor. Yn Sir Benfro mae NARC yn weithredol yn bennaf, ond mae ei weithgareddau yn ymestyn i Iwerddon, Gwlad Groeg a hyd yn oed Sri Lanka!

Gyda swm bach o gyllid, tua £5000 y flwyddyn, gan amrywiol gyllidwyr, gan gynnwys Ystad y Goron, ACA Morol Sir Benfro, Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau a Cyfoeth Naturiol Cymru, mae'r grŵp wedi helpu i godi ymwybyddiaeth o sbwriel môr drwy ei waith ac wedi cael cryn dipyn o sylw yn y wasg, ar raglenni teledu a radio ac mewn papurau newydd.

Mae NARC, a bleidleisiwyd fel y "Mudiad Gwirfoddol a Edmygir Fwyaf" gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, wedi ysbrydoli grwpiau tebyg i ddechrau sesiynau plymio a glanhau tanddwr ledled y byd. Mae wedi dechrau nifer o brosiectau partneriaeth â sefydliadau eraill ac mae'n aelod o Global Ghost Gear Initiative i gefnogi cydweithrediad rhyngwladol ar atebion i offer pysgota gadwedig neu goll.

Mae NARC yn trefnu tua 90 o ddiwrnodau gwirfoddoli bob tymor plymio ac mae'n denu mwy o wirfoddolwyr i ymgymryd â gwaith glanhau ar y tir, codi arian a gweithgareddau addysgol. Yn 2010, cyrhaeddodd NARC y rownd olaf yng nghategori "Ymdrech Hirdymor" Gwobrau Cadwch Gymru'n Daclus ac yn 2012 cafodd ei ddewis yn un o 20 prosiect cenedlaethol i ddathlu 20 mlynedd Amgylchedd Cymru.
**Gwefan: www.narc-cc.org.uk / Twitter: https://twitter.com/neptunesarmy**

**"Marine policy and projects can take a long time to develop, where the outputs and outcomes are often time consuming and difficult. One of the many things I love about volunteering with NARC is that your work is instant, gratifying and really does make a difference. In just one dive you can free entangled wildlife and improve the habitat. I'm really proud of our partnership working, especially with the Pembrokeshire and Welsh Federation of Angling Coaches in producing site specific tackle tips leaflets for anglers"** - David Jones, (Fforwm Arfordir Penfro ac Ysgrifennydd NARC)



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Prosiectau a Ariennir

Yn sgil y sylw diweddar yn y cyfryngau i sbwriel môr a phlastig, mae'n syndod braidd nodi mai ychydig iawn o brosiectau mawr sy'n cael eu hariannu yng Nghymru. Fodd bynnag, mae'r prosiectau sy'n cael eu cyflawni yn berthnasol iawn oherwydd eu dulliau gweithredu, eu maint a'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r sector preifat.

Dylid nodi bod angen cyllid ar bob un o'r prosiectau hyn ac ni wyddys a fydd y cyllid yn parhau a / neu a fydd yn ddigon i'w galluogi i barhau i wneud eu gwaith yn yr un ffordd. Bydd newid yn y maes hwn yn rhywbeth hirdymor ei natur a'r gobaith yw y bydd cyllid yn y maes hwn yn y dyfodol yn adlewyrchu natur yr her fel y gall y prosiectau hyn (a phrosiectau eraill) sicrhau newid mwy cynaliadwy ac ymgysylltu.

Ceir isod fanylion am weithgarwch presennol prosiectau a ariennir sy'n gweithredu yng Nghymru, y mae dau ohonynt yn fentrau trawsffiniol. Mae'n werth nodi nad oes unrhyw brosiectau ar hyn o bryd yng Nghymru sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgarwch sbwriel pysgota neu borthladdoedd nac arloesedd 'cefnfor cylchol' (ac eithrio'r mudiad cymunedol NARC, gweler uchod).

### Prosiect Sbwriel Cricieth

Cynllun peilot oedd Prosiect Sbwriel Cricieth, a fu'n rhan o brosiect a sefydlwyd ym mis Ebrill 2016 gan y partner arweiniol, sef Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) Pen Llŷn a'r Sarnau (PLAS). Mae'r ACA yn arbennig o fawr, gan gwmpasu Penrhyn Llŷn i'r gogledd, Bae Tremadog, a'r Sarnau yn ei hanner deheuol, yn ogystal â'r morydau mawr ar hyd arfordir Meirionnydd a gogledd Ceredigion. Ymhlith y partneriaid perthnasol yn yr ardal honno mae'r awdurdodau lleol perthnasol, Cyfoeth Naturiol Cymru, Dŵr Cymru a chwmni dŵr Hafren Trent, Parc Cenedlaethol Eryri a sefydliadau amgylcheddol eraill. Mae'r Prosiect Sbwriel yn rhan o brosiect ehangach ar gyfer yr ACA sy'n ymestyn i lawer o weithgareddau cadwraeth, gwaith ar ecosystemau a'r cod morol. Caiff ei ariannu drwy gronfa gystadleuol Cyfoeth Naturiol Cymru a Seafish.

Roedd y prosiect yn anelu at greu ymgyrch gymunedol hunangynaliadwy, gan hyrwyddo ateb lleol i broblem sbwriel môr. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar dri phrif faes: digwyddiadau glanhau traeth, monitro sbwriel traeth a lleihau sbwriel yn ei darddle.

Cynhaliwyd 13 o ddigwyddiadau glanhau traeth ac mae byrddau glanhau traeth dwy funud wedi cael eu gosod o dan berchenogaeth busnesau lleol ger y traeth. Cynhaliwyd pum arolwg, gan ddefnyddio methodoleg Traethau Glân y Gymdeithas Cadwraeth Forol, a chanfuwyd swm anferthol o eitemau plastig / polystyren.

Yn bwysig ddigon, aeth y prosiect ati i gael trafodaethau â nifer o fusnesau lleol ar gaffael deunyddiau plastig a deunyddiau amgen. Un o ganlyniadau hyn oedd ymgyrch 'The Last Straw' y mae 12 o fusnesau lleol wedi ymrwymo iddi ar hyn o bryd.

Un o allbynnau'r prosiect fu datblygu pecyn cymorth sbwriel sy'n seiliedig ar y gwersi a ddysgwyd gan y prosiect yng Nghricieth. Mae llwyddiant cynllun peilot Cricieth wedi arwain at fwy o wirfoddolwyr ac ymgysylltu â busnesau a diddordeb gan ardaloedd eraill sydd am efelychu'r gweithgarwch eu hunain. Gellir gweld fideo o'r Prosiect Sbwriel a phrosiect y Cod Morol yma.

Ymhlith y gwersi a ddysgwyd o'r prosiect mae'r canlynol:

- Pa mor ddefnyddiol yw'r cyfryngau cymdeithasol o ran targedu cynulleidfaoedd
- Yr amser ar lawr gwlad sydd ei angen i ymgysylltu â phobl a busnesau
- Mae ffigyrau cyhoeddus a all hyrwyddo'r prosiect yn helpu o ran cael sylw yn y wasg
- Mae grŵp cymunedol craidd bach yn helpu'r prosiect i barhau pan ddaw'r cyllid i ben.
- Mae busnes lleol sy'n hyrwyddo'r gwaith yn hynod effeithiol.

**Gwefan: www.penllynarsarnau.co.uk / Twitter: @ACA_PLAS_SAC**



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Litter Free Coast & Sea Somerset

Sefydlwyd y prosiect hwn yn 2016 ac mae'n bartneriaeth rhwng Partneriaeth Aber Hafren a Phrifysgol Caerdydd. Mae partneriaid eraill sy'n rhan o'r prosiect yn cynnwys Wessex Water, Cyngor Dosbarth Sedgemoor, Asiantaeth yr Amgylchedd a Fforwm Arfordir Dorset. Er mai ar Wlad yr Haf y mae'r prif ffocws, mae wedi cael ei gynnwys yma oherwydd y cysylltiad â Phrifysgol Caerdydd (ynghyd â grant) a'r ffaith ei bod am weithio ar ochr Cymru o'r Aber. Mae rhai awdurdodau lleol eisoes yn rhan o'r bartneriaeth.

Ymgyrch a arweinir gan y gymuned yw Litter Free Coas and Sea Somerset, a'i nod yw lleihau sbwriel môr a sbwriel traeth a diogelu ansawdd dŵr ymdrochi yng Ngwlad yr Haf. Rydym yn anelu at weithio gyda busnesau, pobl leol a grwpiau cymunedol i leihau eu heffaith ar yr amgylchedd lleol. Gwneir hyn drwy'r canlynol:

- Grymuso eraill i gymryd camau gweithredu
- Annog pobl i fod yn rhan o'r ymgyrch a chefnogi prosiectau sy'n ennyn diddordeb pobl
- Addysgu am effaith sbwriel ac ansawdd dŵr ym mhob grwp oedran
- Hyrwyddo atebion cadarnhaol

Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn cwmpasu Burnham-on-Sea, Berrow a Brean yng Ngwlad yr Haf ond y bwriad yw y bydd yn ymestyn i arfordir ehangach y sir. Hyd yma, mae nifer o ymgyrchoedd pwrpasol wedi cael eu llunio a'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â nifer o brif ysgogwyr a nodwyd yn lleol sy'n gwaethygu ansawdd dŵr ymdrochi yn ardal y prosiect a'i chyffiniau. Ar hyn o bryd, ymhlith y meysydd y canolbwyntir arnynt mae'r canlynol:

- Sbwriel môr
- #mannau glanhau traeth dwy funud
- Baw adar y môr
- Baw cŵn
- Cynllun Gwobrwyo Busnesau (sy'n tynnu sylw at y camau gweithredu lleol y gall busnesau eu cymryd i leihau eu heffaith ar bob un o'r materion allweddol, gan gysylltu'n benodol â pholisïau ynglŷn â lleihau gwastraff, carthion a draenio).

**Gwefan:** [litterfreecoastandsea.co.uk/somerset](litterfreecoastandsea.co.uk/somerset) **/ Twitter:** [@LFCSSomerset](@LFCSSomerset)

## Cragen - Theatr Byd Bychan

Mae'r Theatr Byd Bychan yn y gorllewin yn enghraifft dda iawn o'r ffordd y mae sefydliadau eraill yn y trydydd sector yn ymdrin â mater sbwriel môr yn effeithiol iawn. Mewn partneriaeth â nifer o sefydliadau eraill, gan gynnwys Partneriaeth Moroedd Glân Cymru a chynghorau a byrddau Croeso ledled Sir Benfro, Ceredigion a Chonwy, mae'r theatr wedi creu 'Cragen' – pyped o anghenfil môr sydd wedi ymddangos mewn nifer o ddigwyddiadau awyr agored a gwyliau ar hyd arfordir Cymru (gweler y ddelwedd ar y clawr). Cafodd y prosiect gyllid drwy'r Gronfa Arloesi Cynnyrch Twristiaeth a chymorth drwy raglen Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, a ariennir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD) a Llywodraeth Cymru. Nod y gronfa yw creu syniadau am gynhyrchion arloesol newydd gan weithio mewn partneriaeth a fydd yn cael mwy o effaith ac yn denu mwy o ymwelwyr.

Cafodd Cragen, sef anghenfil môr 20 metr o hyd a wnaed o wastraff plastig o'r cefnfor, ei greu ar gyfer digwyddiadau perfformiad awyr agored ledled Cymru gyda chynnwys artistig, wedi'i ysbrydoli gan faterion amgylcheddol yn ystod Blwyddyn y Môr a Blwyddyn Darganfod. Hyd yma, mae'r Theatr Byd Bychan wedi cynnal naw digwyddiad gweledol cyffrous ledled Cymru rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2018, gyda pherfformiad olaf yn Ardal Harbwr Porthcawl ym mis Ebrill 2019.

Yn ogystal â manteisio ar y diddordeb presennol a chodi ymwybyddiaeth o blastigion morol, arweiniodd ei chydweithrediad cadarn ar yr ymgyrch gysylltiedig yn y cyfryngau a chryn gyrhaeddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, at fwy o ymwelwyr ac amseroedd ymweld estynedig rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2018. Arweiniodd y daith at fuddiannau economaidd a mwy o weithgarwch darganfod gan ymwelwyr, gan ddefnyddio pob dull trafnidiaeth. Dathlodd Llwybr Arfordir Cymru, 30 mlynedd ers cyflwyno'r Faner Las yng



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Nghymru ac ymddangosodd ochr yn ochr â Sioeau Teithiol Moroedd Byw Ymddiriedolaethau Natur Cymru.

Yn hollbwysig, mae'r greadigaeth angenfilaidd wych hon wedi creu cysylltiad rhwng sefydliadau twristiaeth a'r amgylchedd, gan sicrhau'r ymwybyddiaeth a'r ymgysylltu mwyaf posibl ymhlith trigolion ac ymwelwyr yn yr ardaloedd lle mae wedi ymddangos ac mae wedi ennyn cryn sylw ar hyd arfordir Cymru.
**Gwefan:** https://cragenmoroeddglan.cymru/

## Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy

Menter a arweinir gan Gyngor Sir y Fflint yw Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy ac fe'i sefydlwyd yn 2007. Nid prosiect a ariennir ydyw fel y cyfryw ond cyfeirir ato yma oherwydd y nawdd y mae wedi'i gael gan fusnesau a chyfraniad amrywiaeth o sectorau o ran amser ac ymdrech wirfoddoli.

Dechreuodd Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy fel digwyddiad casglu sbwriel yn Nhalacre ac wedi tyfu'n enfawr dros

> **"The face of Flintshire's coast has been changed already and things continue to develop. Organisations can make a big difference to the natural environment without having to spend money. People working together for the same common goal really can change things in dramatic ways."-** Cyngor Sir y Fflint

y blynyddoedd. Mae wedi trawsnewid arfordir Sir y Fflint gyda digwyddiadau glanhau enfawr a digwyddiadau gwella. Yn y gorffennol, roedd loriau sbwriel wrth gefn yn mynd o amgylch y sir i gasglu symiau enfawr o sbwriel. Dros amser, mae'r sbwriel wedi cael ei lanhau ac nid oes angen gwneud hynny i'r un graddau, felly mae wedi datblygu'n weithgareddau amgylcheddol ehangach.

Mae'r digwyddiad blynyddol yn cwmpasu tua 40km o ardaloedd arfordirol, aberol ac afonol ac mae wedi ymestyn i ardaloedd ehangach dros y blynyddoedd, megis parciau gwledig, isafonydd, safleoedd coetir a threfol bach yn ogystal â Moel Famau a'r Wyddfa. Ymhlith y prif bartneriaid mae: Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer, Cyngor Sir Dinbych, Cyngor Sir Wrecsam, Cyngor Swydd Amwythig, Cadwch Gymru'n Daclus, Cyfoeth Naturiol Cymru ac amrywiaeth o bartneriaid busnes.

Gan weithio gyda channoedd o fusnesau, grwpiau, sefydliadau ac unigolion, mae miloedd o fylbiau a choed wedi cael eu plannu. Mae llwybrau troed a llwybrau pren wedi cael eu creu, mae meinciau wedi cael eu hadnewyddu ac mae rhywogaethau goresgynnol wedi cael eu gwaredu. Mae digwyddiadau codi




© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

ymwybyddiaeth o lygredd wedi cael eu cynnal, sydd wedi ennyn diddordeb cymunedau ac wedi sicrhau gwelliannau mewn dros chwe sir yng Nghymru a Lloegr.

Wrth i'r digwyddiad ddatblygu, daeth Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer yn bartner allweddol, gan gynnal y digwyddiad dros y ffin hefyd. Mae wedi cymryd ei dro bob yn ail flwyddyn gyda Chyngor Sir y Fflint i gynnal achlysur lansio'r digwyddiad ac wedi creu ei ddigwyddiadau glanhau a gwella ei hun. Yn 2016, yn sgil ymwneud Tesco, daeth cannoedd o'i staff yn rhan o'r digwyddiad ac, oherwydd lleoliad ei siopau, ehangodd y digwyddiad i Swydd Amwythig, Sir Ddinbych, Wrecsam a Gwynedd.

Mae Cyngor Sir y Fflint yn gweithio gyda nifer o fusnesau mawr yn y rhanbarth i gynnal y digwyddiad megis: ENI, Haven, Warwick Chemicals, Kingspan, Airbus, Tata, Kimberly Clarke, Toyota, McDonalds. Mae grwpiau cyfeillion, elusennau, sgowtiaid ac ysgolion ar hyd yr aber wedi cymryd rhan a hon yw un o'r partneriaethau amlsector mwyaf o bosibl yng Nghymru ar hyn o bryd nad yw'n cael cyllid gan y llywodraeth.
**Twitter: #DiwrnodMawryDdyfrdwy**



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4




*Delwedd tudalen lawn Llun agos o botel blastig a gwirfoddolwr yn casglu sbwriel. Ffotograff drwy garedigrwydd @LlangattockpIck*


© Hawlfraint y Goron 177-4

# Gweithgarwch yn y DU

## Sefydliadau a Rhaglenni

### Y Gymdeithas Cadwraeth Forol

Ers dros 30 mlynedd y Gymdeithas hon fu elusen fwyaf blaenllaw'r DU o ran diogelu ein moroedd, ein traethau a'n bywyd gwyllt. Mae ein gwaith wedi helpu i gyflwyno'r tâl o 5c am fagiau plastig yn llwyddiannus, yn ogystal â'r gwaharddiad diweddar ar ficrobelenni mewn cynhyrchion gofal personol. Mae ein prosiectau wedi arwain at sefyllfa lle mae ardaloedd morol gwarchodedig yn cael eu dynodi a'u rheoli, ac mae ein Canllaw Da ar Bysgod wedi sicrhau bod miliynau o brydau bwyd sy'n cynnwys pysgod yn gynaliadwy.
Ein gweledigaeth yw cael moroedd llawn bywyd, wrth i ni ymdrechu i sicrhau moroedd ac arfordiroedd lle mae byd natur yn ffynnu ac mae pobl yn ffynnu. Ein cenhadaeth yw arwain newid gwleidyddol, diwylliannol a chymdeithasol dros foroedd ac arfordiroedd iach sy'n cynnal digonedd o fywyd gwyllt morol, bywoliaethau cynaliadwy a mwynhad i bawb.

Mae gwyddoniaeth a phobl – ein staff, ein gwirfoddolwyr, ein cefnogwyr a'n partneriaid – wrth wraidd popeth a wnawn. Drwy helpu pobl i ddarganfod, gwerthfawrogi a mwynhau cysylltiad â'n moroedd, gallwn i gyd wneud penderfyniadau gwell heddiw, a fydd yn sicrhau moroedd llawn bywyd i genedlaethau'r dyfodol.

#### Beachwatch

Beachwatch yw'r unig arolwg o sbwriel traeth gydol flwyddyn yn y DU. Prosiect gwyddoniaeth i ddinasyddion ydyw, sydd wedi bod yn rhedeg ers 1994. Mae'n dibynnu ar wirfoddolwyr i ymuno â ni a'n helpu i gael gwared ar sbwriel ar draethau a chasglu'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â systemau eraill ar sail Ewropeaidd a byd-eang. Bob blwyddyn, cynhelir tua 1,000 o ddigwyddiadau glanhau traeth sy'n cynnwys dros 27,000 o wirfoddolwyr. Cyflwynir arolygon unigol, sy'n cynnwys gwybodaeth am eitemau a darnau o sbwriel i gronfa ddata genedlaethol lle edrychwn ar y mathau o sbwriel a gesglir ar draethau'r DU a'u tarddiad, yn ogystal â rhannu'r wybodaeth hollbwysig hon â sefydliadau a grwpiau eraill a all roi gwybodaeth am effeithiau sbwriel ar fywyd morol, iechyd dynol ac economïau lleol. Mae'r broses o gasglu data yn agwedd bwysig iawn ar ein harolygon a dyna'r hyn sy'n gwneud Beachwatch yn unigryw. Mae ein methodoleg yn gadarn ac mae wedi ein galluogi i ddylanwadu ar ddeddfwriaeth genedlaethol ac Ewropeaidd, annog arferion gorau mewn diwydiannau a rhedeg ymgyrchoedd cyhoeddus sy'n cynnig atebion effeithiol i eitemau sy'n achosi problemau neu lwyddiannau megis cadachau sychu, ffyn cotwm a bagiau plastig.

#### Glanhau Traethau Prydain Fawr

Mae'r ymgyrch hon yn rhedeg o ddydd Gwener i ddydd Llun ar y trydydd penwythnos ym mis Medi bob blwyddyn. Mae'n cysylltu â'r Ymgyrch Glanhau Arfordirol Ryngwladol (ICC) a gydlynir yn America. Caiff y data eu rhannu â'r ICC sy'n cyfrannu at adroddiadau byd-eang ar lefelau sbwriel ac mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn dadansoddi'r data bob blwyddyn er mwyn codi ymwybyddiaeth o sbwriel a'r ffordd y gall pobl helpu i leihau lefelau yn y DU.
Roedd Ymgyrch Glanhau Traethau Prydain Fawr 2018 yn cynnwys bron 15,000 o wirfoddolwyr – wedi dyblu ers 2017, a oedd wedi arolygu ac wedi glanhau 494 o draethau. Casglodd y gwirfoddolwyr 8,550kg o sbwriel. Casglodd y gwirfoddolwyr 600 o eitemau o sbwriel fesul 100m a arolygwyd ar gyfartaledd. Gellir gweld adroddiad 2018 yma.

Gall gwirfoddolwyr y Gymdeithas Cadwraeth Forol drefnu digwyddiadau glanhau traeth yn dilyn canllaw hyfforddiant sydd ar gael ar y wefan neu chwilio am ddigwyddiadau a dod i roi help llaw. Rydym yn gofyn am i arolygon glanhau traeth gael eu cynnal hyd at bedair gwaith y flwyddyn (un fesul tymor) neu yn ystod ymgyrch Glanhau Traethau Prydain Fawr. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu briffio'n llawn ar faterion iechyd a diogelwch cyn cynnal yr arolwg a rhoddir offer diogelu iddynt. Mae arolygon yn cael eu cynnal dros yr un 100 metr o'r traeth (a ddewisir gan y trefnydd) o'r draethlin i'r rhan ddefnyddiadwy gefn o'r traeth (e.e. rhodfa neu dwyni tywod). Rydym yn gofyn bod pob peth annaturiol yn cael ei gasglu a'i gofnodi gan ddefnyddio system gyfrif yn yr ardal hon, ni waeth pa mor fach ydyw. Caiff y data ar sbwriel eu cyflwyno i'n cronfa ddata genedlaethol, gan gynnwys gwybodaeth allweddol megis: Dyddiad yr arolwg, amseroedd dechrau a gorffen,


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

nifer y gwirfoddolwyr, hyd y traeth a arolygwyd a nifer y bagiau o sbwriel. Nodir ffeithiau diddorol eraill hefyd, megis amodau tywydd, eitemau anarferol/estron, pwysau'r bagiau o sbwriel, anifeiliaid trig ac olew/tar a pheledi plastig sy'n bresennol.

### Hyrwyddwyr y Môr

Mae rhaglen wirfoddoli genedlaethol y Gymdeithas Cadwraeth Forol yn amrywio o drefnu digwyddiadau glanhau traeth ymarferol neu gymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol, rhoi anerchiadau, mynd i ddigwyddiadau lleol, codi arian neu hyrwyddo dewisiadau cynaliadwy o fwyd y môr yn eich cymuned leol. Hyd at 2018, mae 652 o hyrwyddwyr y môr wedi rhoi 30,738 o'u hamser i fynd i 770 o anerchiadau/digwyddiadau ac wedi ymgysylltu â 138,179 o bobl. Mae hyn yn cynnwys cynnal 319 o sesiynau addysgol i 28,135 o blant.

Mae rhaglen Moroedd Glân y Gymdeithas Cadwraeth Forol wedi arwain y gad o ran lleihau llygredd morol dros y degawd diwethaf. Rydym wedi dadlau dros newid, naill ai ar ein pen ein hunain neu mewn partneriaeth â sefydliadau anllywodraethol eraill, sydd wedi arwain at godi tâl am fagiau untro, cael gwared ar ficrobelenni mewn cynhyrchion gofal personol, newidiadau mewn labeli ar eitemau sy'n cael eu 'cam-fflysio' amlaf, a system dychwelyd ernes sy'n cael ei chynllunio ar gyfer yr Alban.
Mae'r ffrydiau gwaith presennol yn cynnwys y canlynol:

### Eitemau na ellir eu fflysio

Mae ymgyrchoedd ar eitemau na ellir eu fflysio, a lansiwyd yn 2016, yn ymgyrchu dros labeli gwell ar gynhyrchion na ellir eu fflysio a chadachau sychu yn enwedig, sy'n cael eu gwaredu i lawr y toiled. Y prif nodau yw, yn gyntaf, gyfleu i'r cyhoedd pam mae fflysio cadachau sychu yn beth gwirioneddol wael ac mai dim ond papur, pi-pi a charthion y dylid eu rhoi i lawr y toiled, a chael manwerthwyr a gweithgynhyrchwyr i roi label glir ar ddeunydd pacio eu cynhyrchion tywelion sychu sy'n cynnwys y neges 'PEIDIWCH Â FFLYSIO' fel y byddant yn cael eu rhoi mewn bin yn hytrach nag i lawr y toiled. Un o brif ddibenion yr ymgyrch oedd cael pobl i wrando ar neges anodd. Ymgysylltodd y Gymdeithas â 100,000 o bobl ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gyrraedd 13.9 miliwn yn y cyfryngau a chofnodi lefel o 23% o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, yn ôl tystiolaeth arolwg tonnau CAM NFP Synergy. Mae dros 8,000 o bobl bellach wedi llofnodi ein deiseb o blaid labeli cliriach.
Creodd y Gymdeithas sefyllfa unigryw o ran ei gallu i estyn allan i fanwerthwyr. Er bod protocol SNAP wedi bodoli ers blynyddoedd lawer, nid oedd manwerthwyr yn glir i ba raddau roedd safon Edana yn methu â bodloni'r gofynion yn y DU. Fodd bynnag, maent bellach yn cydnabod bod safon Edana yn annigonol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd camau rhagweithiol i fynd i'r afael â'r mater hwn. Mae manwerthwyr bellach yn ceisio cadw at safonau cwmnïau dŵr (sy'n defnyddio profion llawer mwy llym ar y gallu i fflysio eitemau na phrofion gweithgynhyrchwyr) neu dynnu'r datganiad bod modd fflysio eitem. Hefyd, mae'r Gymdeithas wedi dylanwadu ar bob prif fanwerthwr ar y stryd fawr yn y DU. Mae 12 o fanwerthwyr wedi adolygu a oes modd fflysio cadachau sychu eu brand eu hunain a'r ffordd y cânt eu labelu, a dywedodd pob un y byddant yn sicrhau nad oes unrhyw blastig mewn tywelion y gellir eu fflysio. Mae'r manwerthwyr hefyd yn gweithio tuag at labelu gwell ar eu cynhyrchion nad oes modd eu fflysio.
Yn 2019, cafodd Manyleb newydd ei llunio i'r diwydiant dŵr. Bydd gweithgynhyrchwyr cadachau sychu yn gallu cynnwys symbol swyddogol y diwydiant dŵr, 'Fine to Flush', ar eu deunydd pacio os byddant yn llwyddo mewn profion gwyddonol llym. Bydd y symbol hwn yn dweud wrth gwsmeriaid nad yw'r cynhyrchion yn cynnwys plastig ac y byddant yn dadelfennu yn y system garthffos yn hytrach na'i blocio a chyfrannu at wastraff solet wedi'i gronni sy'n achosi rhwystrau ac yn peri i'r system garthffos orlifo. Mae'r Gymdeithas yn parhau i gynnal trafodaethau â manwerthwyr o ran cadachau sychu eu brand eu hunain mewn perthynas â'r safon newydd hon.

### Microblastigion

Mae'r Gymdeithas wedi lobïo'n llwyddiannus dros waharddiad ar ficrobelenni mewn cynhyrchion gofal personol. Y cam nesaf yw sicrhau bod y gwaharddiad yn ymestyn i ficroblastigau ym mhob cynnyrch a all gyrraedd y draen, e.e. cadachau sychu y gellir eu fflysio, glanedyddion/cynnyrch glanhau, colur ac eli'r haul. Mae'r Gymdeithas hefyd yn lobïo dros sicrhau bod peledi cyn cynhyrchu neu beledi plastig yn cael eu hailddosbarthu'n llygrydd fel na chaniateir iddynt gael eu hallyrru i'r amgylchedd.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Er mwyn lleihau microblastigion eilaidd, mae'n rhaid inni atal plastigion rhag mynd i mewn i'r cefnforoedd o bob ffynhonnell. Mae'r Gymdeithas yn llwyr gefnogi'r cysyniad o economi gylchol lle y caiff sbwriel, yn enwedig sbwriel plastig, ei ystyried yn adnodd yn hytrach nag yn wastraff, gan helpu i warchod adnoddau cyfyngedig ein planed.
**Gwefan:** [www.mcsuk.org](http://www.mcsuk.org)

## *Have You Got the Bottle?* Ymgyrch i System Dychwelyd Ernes i'r DU

Mae Llywodraeth yr Alban eisoes wedi ymrwymo i system dychwelyd ernes a chyhoeddodd y Prif Weinidog, Nicola Sturgeon, ym mis Medi 2017 y byddai'r Alban yn rhoi un ar waith. Digwyddodd hyn ar ôl dwy flynedd o ymgyrchu diwyd a gydlynwyd gan Gynghrair *Have you Got the Bottle?*.
Ymgyrch gan Gymdeithas er Diogelu Cefn Gwlad yr Alban yw *Have You Got the Bottle?* ac mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol yn un o'r aelodau sylfaenu. Erbyn hyn, mae dros 80 o sefydliadau cefnogol yn rhan o'r ymgyrch, gan gynnwys y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Changeworks Recycling, Triathlon Scotland, Whitmuir Organics, Eco Congregations, Cornelius Beers, Cyfeillion y Ddaear yr Alban, WWF yr Alban, Spokes, Surfers Against Sewage, Cerddwyr yr Alban, Cymdeithas Sŵoleg Frenhinol yr Alban, ymhlith llawer o sefydliadau eraill. Gyda'i gilydd, maent yn cynrychioli 300,000 o bobl yn yr Alban. Mae data Beachwatch y Gymdeithas ynglŷn â diodydd wedi rhoi tystiolaeth bwysig o'r broblem mewn ymatebion i ymgynghoriadau, yn y wasg ac ar y cyfryngau cymdeithasol, yn ogystal ag mewn llythyr at Weinidog yr Amgylchedd yn Quebec yn cefnogi'r System Dychwelyd Ernes yno. Ym mis Mawrth, cyhoeddodd Michael Gove, yr Ysgrifennydd Gwladol presennol dros yr Amgylchedd, y byddai Lloegr yn cyflwyno system dychwelyd ernes, a lansiwyd ymgynghoriad ar 18 Chwefror 2019. Y llynedd, comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad i ymchwilio i Gyfrifoldeb Estynedig Cynhyrchwyr, gan gynnwys system dychwelyd ernes. Mae Zero Waste Scotland bellach yn cydlynu'r broses o lunio system i'r Alban.

Yn ogystal â chefnogaeth drawsbleidiol sylweddol, mae dros 100 o sefydliadau yn rhan o'r gynghrair bellach, gan gynnwys bragdai, manwerthwyr, prifysgolion, grwpiau awyr agored a chymunedol, bwytai, tafarndai, caffis a sefydliadau anllywodraethol amgylcheddol.

Cyflwynwyd dros 1,000 o addunedau cerdyn post i'r ymgynghoriad yn yr Alban, a gafodd eu cyfrif yn swyddogol yn y cyfanswm o 3,000 o ymatebion a ddaeth i law.
**Gwefan:** [www.haveyougotthebottle.org.uk](http://www.haveyougotthebottle.org.uk)

## Y Rhwydwaith Gweithredu ar Sbwriel Môr

Sefydlwyd y rhwydwaith ym mis Mehefin 2014 er mwyn dwyn pobl a sefydliadau ynghyd o wahanol sectorau i fynd i'r afael â phroblem sbwriel môr. Cafodd ei ariannu gan Plastics 2020 ac Ystad y Goron ac mewn cydweithrediad â 3KQ (Three Key Questions) a'i nod oedd dwyn y rhai sy'n gwneud penderfyniadau mewn perthynas â sbwriel môr ynghyd er mwn rhoi ffocws ar nodi atebion cyffredin a fydd yn dylanwadu ar y mesurau y mae Llywodraeth y DU yn eu rhoi ar waith. Roedd cynrychiolwyr o amrywiaeth o sectorau a 60 o sefydliadau, o'r byd academaidd, diwydiannau gweithgynhyrchu i sefydliadau amgylcheddol yn rhan o'r rhwydwaith. Fel cydgysylltydd y rhwydwaith, mae'r Gymdeithas yn rhoi diweddariadau rheolaidd ar ymdrechion pawb i frwydro yn erbyn sbwriel môr, gan helpu i rannu gwybodaeth am broblem sbwriel yn mynd i mewn i'n moroedd ac atebion posibl.
Gallai'r Rhwydwaith gyrraedd dros 1.7 miliwn o unigolion, 38,000 o wirfoddolwyr ac 11,000 o gwmniau, grwpiau a sefydliadau. Prif gyflawniadau'r rhwydwaith:

### Scrub it Out

Rhwng 2015 a 2017, daeth y Gymdeithas Cadwraeth Forol a'r Sefydliad Ffawna a Fflora Rhyngwladol (FFI) ynghyd i annog Llywodraeth y DU i wahardd cynhyrchion a oedd yn cynnwys microbelenni. Fel rhan o'r ymdrech hon, lluniodd yr FFI ganllaw ar y cynhyrchion sgrwb croen mwyaf cyffredin sydd ar gael ym marchnad y DU (y *Good Scrub Guide*), gan gynnig adnodd diduedd a chlir i helpu defnyddwyr i ddewis cynhyrchion nad ydynt yn cynnwys microbelenni plastig. Yn bwysig ddigon, drwy ddiweddariadau rheolaidd a gohebiaeth â'r brandiau a oedd ar y rhestr, nododd y canllaw hefyd pa frandiau sy'n cymryd camau cadarnhaol tuag at gael gwared ar ficrobelenni plastig yn eu cynhyrchion fel y gall defnyddwyr gael y wybodaeth ddiweddaraf ar hyd y ffordd.


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Yn fuan, dechreuodd Green Peace ddeiseb i wahardd microbelenni a daeth y Gymdeithas a'r FFI yn rhan ohoni, ynghyd â'r EIA. Llofnodwyd y ddeiseb gan 385,000 o aelodau'r cyhoedd a oedd am i Lywodraeth y DU roi gwaharddiad ar waith.
Cyflwynwyd gwaharddiad yn 2018.

### Offer Gadawedig

Cynigiodd Sefydliad Diogelu Anifeiliaid y Byd, sef sefydliad byd-eang sy'n diogelu bywyd gwyllt o bob math, y dylid sefydlu gweithgor sbwriel pysgota i weithredu ochr yn ochr â'i ymgyrch byd-eang, Sea Change, a fyddai'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag effaith sbwriel pysgota ar anifeiliaid morol. Cynigiodd y rhwydwaith fforwm i rannu'r ymgyrch newydd hon a chyfnewid syniadau ag arbenigwyr ym maes sbwriel môr a chadwraeth. Drwy weithgor y rhwydwaith, gofynnodd Sefydliad Diogelu Anifeiliaid y Byd am farn pobl ar fynd i'r afael â sbwriel pysgota, a roddodd gyfle iddo ymgynghori â'r diwydiant pysgota a chael ei farn ac yna ei bwydo i mewn i'r ymgynghoriad ar Gynllun Pysgota Cyfrifol.

### Gweddillion sy'n Gysylltiedig â Charthion mewn addysg gynnar

Cynigiodd Ymddiriedolaeth Arfordir a Chefn Gwlad Fife brosiect i fynd i'r afael â gweddillion sy'n ymwneud â charthion drwy addysg mewn ysgolion. Nodwyd nad yw'r rhaglenni addysg rhyw presennol yn cynnwys unrhyw wybodaeth am waredu eitemau misglwyf yn briodol. Gyda chymorth partneriaid a sefydliadau'r rhwydwaith, gan gynnwys Keep Scotland Beatiful, cafodd y Gymdeithas gyllid gan Zero Waste Scotland (ZWS), gan alluogi Tîm Addysg y Gymdeithas i greu'r *Cool Seas Investigators: The Unflushables project.* Rhwng mis Rhagfyr 2014 a mis Mawrth 2015, gweithiodd Swyddog Addysg y Gymdeithas ag athrawon a bron dau gant o ddisgyblion 12-15 oed mewn tair ysgol beilot yn Fife, er mwyn datblygu gweithdy sy'n cyd-fynd â'r gwersi addysg rhyw presennol ac yn ategu'r cwricwlwm ehangach. Mae'r gweithdy 50 munud yn cyflwyno pwnc gweddillion sy'n gysylltiedig â charthion ar ein traethau i bobl ifanc. Mewn grwpiau, mae'r myfyrwyr yn ymchwilio i gyfres o ffynonellau er mwyn nodi'r broblem, yr achos ac atebion posibl. Yn dilyn y gweithdy, gallai'r myfyrwyr gymryd rhan mewn cystadleuaeth i ddylunio sticer i atgoffa ac annog pobl i wneud y peth cywir ag eitemau na ellir eu fflysio. Caiff y dyluniad buddugol ei argraffu'n broffesiynol a'i ddychwelyd i'r ysgol i gael ei arddangos yn ei thoiledau. Yna, gofynnir i fusnesau lleol arddangos y sticeri yn eu toiledau eu hunain hefyd.

### Adnabod eitemau na ellir eu fflysio

Arweiniodd Sefydliad Dŵr y DU weithdy yng nghyfarfod cyntaf y rhwydwaith a oedd yn ystyried eitemau na ellir eu fflysio. Ers hynny, mae'r cwmnïau dŵr wedi bod yn siarad â Busnes yn y Gymuned, a'r manwerthwyr a'r gweithgynhyrchwyr sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu cadachau sychu ar gyfer babanod i weld a oes modd iddynt weithio gyda'i gilydd i helpu cwsmeriaid i ddeall pam na ddylai cadachau sychu ar gyfer babanod na chadachau glanhau'r wyneb gael eu rhoi i lawr y toiled.

### Casglu tystiolaeth o ffynonellau sbwriel

Yng nghyfarfod cyntaf y rhwydwaith, roedd yn amlwg bod angen gwneud rhagor o waith i ddwyn ynghyd yr holl dystiolaeth a oedd eisoes ar gael ynglŷn â'r ffordd y mae sbwriel yn cyrraedd yr amgylchedd morol, llenwi unrhyw fylchau ac yna weithredu ar y wybodaeth newydd honno. Un o'r rolau allweddol a nodwyd gan y grŵp oedd rôl casglu data a thystiolaeth i brofi'r cysylltiad rhwng sbwriel mewn afonydd a sbwriel môr. Ym mis Chwefror 2015, aeth grŵp Data a Thystiolaeth Sbwriel Môr, a gynullwyd gan yr elusen Thames21, ati i gynnal menter beilot i dreialu a chymharu dulliau o fonitro sbwriel yn y maes ac, ar yr un pryd, ddangos ymrwymiad i weithio gyda sefydliadau ledled y sector. Aeth Thames21, y Gymdeithas Cadwraeth Forol ac Ymddiriedolaeth Wandle yn Llundain, ynghyd ag Ymddiriedolaeth Natur Swydd Gaer ar hydoedd llanwol afon Dyfrdwy, oll ati i drefnu a chynnal gweithgareddau glanhau a monitro sbwriel wrth ymyl dyfrffyrdd rhwng 14 a 22 Chwefror 2015. Yr hyn a oedd yn allweddol i ddull gweithredu pob un o'r pedwar sefydliad oedd eu bod wedi cynnwys y cyhoedd yn y broses o gasglu data. Un o allbynnau'r fenter beilot oedd gweld pa mor hawdd oedd y dulliau i 'Ddinasyddion-Wyddonwyr' eu defnyddio. Cafodd treialon eu cwblhau'n llwyddiannus ar bob safle, ac er i ddulliau gwahanol gael eu defnyddio, mae'r canlyniadau bras wedi esgor ar ddata cychwynnol diddorol. Mae'r canlyniadau bras yn dangos mai plastigion oedd y categori mwyaf o ddeunydd a gasglwyd. Y categori mwyaf ond un oedd gwastraff sy'n gysylltiedig â charthion, gan gynnwys tywelion misglwyf, ffyn cotwm a chadachau sychu ar gyfer babanod. Yn olaf, nododd arolygon Thames21 fod y prif fathau o sbwriel a gasglwyd yn wahanol mewn lleoliadau gwahanol ar yr afon.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

### Trawsnewid plastigau yn y cefnforoedd

Mae Riz Boardshorts yn frand syrffio cynaliadwy ym Mhrydain sy'n gwneud siorts bwrdd o bolyester 100% wedi'i ailgylchu. Cynhaliodd Riz Boardshorts gyfarfod ag aelodau'r rhwydwaith ac eraill yr oedd ganddynt ddiddordeb mewn defnyddio gwastraff plastig o'n traethau a'n moroedd a'i droi'n decstilau.

**Gwefan:** https://www.mcsuk.org/clean-seas/mlan

## Surfers Against Sewage (SAS)

Elusen cadwraeth forol ac ymgyrchu genedlaethol yw Surfers Against Sewage, sy'n ysbrydoli, yn uno ac yn grymuso cymunedau i weithredu i ddiogelu cefnforoedd, traethau, tonnau a bywyd gwyllt. Mae rhan fawr o waith SAS yn ymwneud â hyrwyddo digwyddiadau glanhau traeth a helpu pobl i'w trefnu. Yn 2019, casglodd 67,759 o wirfoddolwyr 116 o dunelli o blastig ar draethau yn y DU. Mae SAS yn cynnal dau brif ddigwyddiad glanhau traeth, un yn y gwanwyn a'r llall yn yr hydref. Yn 2018, fel rhan o Ddigwyddiad Glanhau Traeth y Gwanwyn, casglodd 35,500 o wirfoddolwyr 63 o dunelli o sbwriel ar 575 o draethau.

Mae Surfers Against Sewage (SAS) yn elusen sy'n weithredol yn y DU gyfan. Fe'i sefydlwyd ar ddechrau'r 90au i ymgyrchu dros ansawdd dŵr ymdrochi gwell, a'i nod erbyn hyn yw mynd i'r afael â rhychwant eang o faterion cadwraeth forol. Mae SAS yn cynnal dau ddigwyddiad glanhau traeth blynyddol yn y DU, yn y gwanwyn ac yn yr hydref, gyda noddwyr sy'n cynnwys Greggs, Ecover, Parley a Surfing England a phartneriaid arweiniol, gan gynnwys Asiantaeth yr Amgylchedd a British Canoeing.

Er nad yw wedi'i lleoli yng Nghymru, mae ei strwythur ar lawr gwlad yn cynnwys 27 o gynrychiolwyr yng Nghymru sy'n gweithio i ennyn diddordeb gwirfoddolwyr yma. Yn 2018, dyblodd nifer y gwirfoddolwyr ar gyfer eu digwyddiadau ers y flwyddyn flaenorol.

Yn 2018, cynhaliwyd 120 o ddigwyddiadau glanhau traeth drwy ei digwyddiadau yng Nghymru, gan gynnwys dros 5000 o wirfoddolwyr a chasglu cyfanswm o 8,779.41kg o lygredd plastig.

Mae SAS hefyd wedi cael cryn dipyn o ymateb i'w hymgyrch 'Mynd yn ddiblastig'. Mae 57 o gymunedau sydd am fynd yn ddiblastig wedi bod mewn cysylltiad â SAS ac mae pedair cymuned yng Nghymru wedi ennill y statws (Cas-gwent; Aber-porth; Cei Newydd ac Aberystwyth). Mae pum ysgol mewn tri awdurdod (Caerdydd, Sir Benfro a Chonwy) hefyd wedi ennill y statws.

### Cymunedau Diblastig

Sefydlwyd y fenter hon yn 2018 ac mae Cymunedau Diblastig SAS bellach yn cynnwys 465 o grwpiau yn y DU a chymuned yn Ynysoedd y Falkland a Chanada. Ei nod yw annog cymunedau i leihau eu plastig ac ennill statws Tref Ddiblastig drwy ymrwymo i bum prif nod. Gellir eu gweld yn Atodiad 3

### Ysgolion Diblastig

Mae Ysgolion Diblastig, a sefydlwyd yn 2018, yn paratoi ac yn grymuso ymgyrchwyr ifanc i greu newid amgylcheddol parhaus a chadarnhaol. Mae'r fenter wedi'i chreu i gyflawni targedau allweddol yn y cwricwlwm o CA1 i CA3. Un rhan bwysig o'r fenter yw annog ysgolion i rannu gwybodaeth ac arferion da. Mae SAS wedi gweithio gydag Ysgolion Diblastig i greu cyfres o 'Ddarllediadau Cyfrinachol' i ysgolion eu defnyddio i ysbrydoli disgyblion i weithio drwy'r rhaglen. Yn ogystal â hyn, cafodd cyflwyniad a sgript eu llunio yn seiliedig ar gamau gweithredu ysgolion diblastig llwyddiannus, ac maent ar gael i unrhyw ysgol i'w lawrlwytho a'u haddasu.
Yn debyg i fenter y Cymunedau Diblastig, mae pum amcan yn tywys myfyrwyr drwy broses yr ysgolion diblastig. Manylir ar y rhain yn Atodiad 4.

### Plastic Free Parliament

Mae Plastic Free Parliament, mewn partneriaeth ag One Less ac wedi'i hwyluso gan Sefydliad Calouste Gulbenkian (sy'n cefnogi gwaith cadwraeth forol Surfers Against Sewage drwy Protect Our Waves, sef y Grŵp Seneddol Hollbleidiol), yn targedu lleihau pum eitem blastig untro yn Senedd y DU. Nodwyd yr eitemau hyn ar ôl ymchwiliad manwl gan Surfers Against Sewage; cytleri plastig, gwellt yfed/trowyr plastig, pacedi unigol o bapur a halen ac ati, poteli diodydd meddal a chwpanau/caeadau coffi. Cafodd yr eitemau hyn eu dewis am fod modd eu hosgoi'n hawdd ar yr ystâd a bod modd lleihau'r eitemau hyn neu hyd yn oed eu dileu. Mae'r



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

fenter yn annog unigolion i ysgrifennu at eu Haelodau Seneddol, gan eu hannog i wneud y newidiadau hyn. Ar hyn o bryd, mae 166 o ASau yn cefnogi'r prosiect hwn.

### *Message in a Bottle*

Rhwng 2017 a 2018, cynhaliodd SAS a 38 degrees ymgyrch *Message in a Bottle* i hysbysu'r cyhoedd am y system dychwelyd ernes drwy greu deiseb benodol i Lywodraeth y DU. Arweiniodd SAS ddirprwyaeth o ASau trawsbleidiol ac elusennau i gyflwyno 270,000 o lofnodion o'r ddeiseb i Brif Weinidog y DU, gan arwain at fwy na 300,000 o lofnodion, a thrwy hynny, hon yw deiseb fwyaf y DU, sy'n galw am gyflwyno cynllun dychwelyd ernes.

**Gwefan:** https://www.sas.org.uk/

## FIDRA

### *The Great Nurdle Hunt*

Elusen amgylchedd yn Nwyrain Lothian yw Fidra. Gan weithio mewn partneriaeth â'r Sefydliad Ffawna a Fflora Rhyngwladol, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, RSPB, Keep Scotland Beautiful, Canolfan Adar Môr yr Alban, Cyngor Dwyrain Lothian, Ymddiriedolaeth Arfordir a Chefn Gwlad Fife, Fforwm Aber Forth, Inner Forth Landscape, Ymddiriedolaeth Natur yr Alban ac Ymddiriedolaeth John Muir, mae'n ceisio mynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion amgylcheddol penodol drwy hyrwyddo arferion gwirioneddol gynaliadwy, gan ddefnyddio dulliau gweithredu sy'n ddynamig ac yn ymatebol. Caiff prosiectau eu nodi'n lleol yn bennaf, ond maent hefyd o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.
Arolwg rhyngwladol gan ddinasyddion-wyddonwyr yw'r *Great Nurdle Hunt*, sy'n anelu at fapio llygredd peledi plastig (*nurdles*) ar draethau ac yn yr amgylchedd morol. Ei nod yw rhoi terfyn ar fwy o lygredd peledi plastig diwydiannol ym moroedd yr Alban. Bydd canfyddiadau'r arolwg yn helpu i ddangos faint o lygredd peledi plastig sydd ar ein traethau i'r diwydiant plastigion lleol drwy dynnu sylw at fannau llygredig ledled y DU. Gofynnir i'r rhai sy'n cymryd rhan gyflwyno gwybodaeth am leoliad y peledi plastig a gesglir, faint ohonynt a gesglir a'u lliw.
Gyda'r dystiolaeth sydd ar gael o'r arolwg, mae Fidra wedi gweithio gyda nifer o gwmnïau sy'n hyrwyddwyr yn y rhanbarth lleol sydd wedi bod yn rhagweithiol o ran mabwysiadu gweithdrefnau i leihau faint o beledi a gollir ac sydd wedi dangos ymrwymiad i'r achos drwy ymrwymo i fenter *Operation Clean Sweep*.

Mae Fidra hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gasglu tystiolaeth ac ymgyrchu dros waharddiad ar ffyn cotwm plastig.

**Gwefan:** https://www.fidra.org.uk/

## Keep Britain Tidy

### Glanhau Traethau Prydain Fawr

Ar 2-4 Mawrth 2018, cynhaliodd Glanhau Traethau Prydain Fawr 13,500 o ddigwyddiadau ledled y DU gyda thros 37,000 o wirfoddolwyr. Rhoddodd Thames21, un o'r partneriaid yn y digwyddiad, hyfforddiant i 12 o Ymddiriedolaethau Afonydd ledled y DU ar gynnal digwyddiadau casglu sbwriel i wirfoddolwyr, gyda'r nod o sicrhau y gellid cynnal mwy o ddigwyddiadau casglu sbwriel ar hyd afonydd yn y dyfodol. Yr Ymddiriedolaethau Afonydd a gymerodd ran oedd: Ymddiriedolaeth Afonydd Gorllewin Cumbria, Ymddiriedolaeth Afonydd Dalgylch Afon Don, Thames21, Ymddiriedolaeth Afonydd Mersi, Ymddiriedolaeth Afonydd Welland, Ymddiriedolaeth Afonydd Tyne, Ymddiriedolaeth Afonydd De Cumbria, Action for River Kennet, Ymddiriedolaeth Afonydd Wandle ac Ymddiriedolaeth Afonydd Ribble. Casglodd 260 o wirfoddolwyr 280 o fagiau o sbwriel.
O blith y rhai a gymerodd ran yn 2018, roedd 18% yn casglu sbwriel am y tro cyntaf erioed, a dywedodd 86% eu bod yn teimlo eu bod wedi gwneud gwahaniaeth i'w hardal leol. Roedd 83% hefyd yn teimlo eu bod yn chwarae mwy o ran yn eu cymuned – drwy ddod ynghyd ag eraill sy'n gofalu am eich cymuned, rydym nid yn unig yn gwella'r amgylchedd ar garreg ein drws, ond hefyd yn cryfhau cysylltiadau cymunedol a gwella ein lles ein hunain. Mae bod yn rhan o'r ateb yn golygu eich bod yn dod yn eiriolwr. Dywedodd 88% y byddant yn annog pobl eraill y maent yn eu hadnabod neu'n eu cyfarfod i beidio â gollwng sbwriel.
Cynhelir digwyddiad 2019 rhwng 22 Mawrth a 23 Ebrill 2019 mewn partneriaeth â'r Daily Mail ac fe'i hariennir gan Loteri Cod Post y Bobl a'i hymddiriedolaeth werdd. Ddiwrnod ar ôl ei lansio, ymrwymodd



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

83,523 o bobl i gymryd rhan yn y digwyddiad eleni. Mae siopau cadwyn megis Marks & Spencer, Greggs, Wilko, McDonald's, Walkers, Mars Wrigley, Coca-Cola, Costa Coffee, y Siop Gydweithredol, John Lewis a'r cwmni glanhau Karcher hefyd wedi ymrwymo i'r digwyddiad. Bydd 130,000 o gyflogeion Sainsbury a 145,000 o gyflogeion Asda hefyd yn cymryd rhan. Mae 102 o gynghorau ledled y DU hefyd wedi addo cymryd rhan, yn ogystal â 250 o fosgiau. Nod yr ymgyrch yw sicrhau hanner miliwn o wirfoddolwyr i gyd ar gyfer y digwyddiad eleni.

**Gwefan:** www.keepbritaintidy.org

## City to Sea

### Refill

Ymgyrch a sefydlwyd gan City to Sea i atal llygredd plastig yn ei darddle yw Refill. Mae wedi ennill gwobrau a'i nod yw ei gwneud yn haws i chi ailddefnyddio ac ail-lenwi eich potel ddŵr yn hytrach na phrynu potel blastig untro. Sefydlwyd Refill yn 2015 yn y DU ac wedyn yng Nghymru yn 2018 fel Refill Cymru. Mae'r partneriaid yn y prosiect yn cynnwys Llywodraeth Cymru, Sefydliad Dŵr y DU, cwmnïau dŵr, Chiilies a ROBECO. Yn dibynnu ar y lleoliad, darperir cyllid gan Lywodraeth Cymru i Gymru, Sefydliad Dŵr y DU i Loegr a Chyngor Dinas Glasgow i Glasgow (ar hyn o bryd, nid oes partner cyllido i'r Alban gyfan na Gogledd Iwerddon). Mae'r ymgyrch yn mynd ati i gysylltu pobl sy'n chwilio am ddŵr â miloedd o fannau ail-lenwi ledled y DU drwy ap sy'n seiliedig ar leoliad. Gall unrhyw un lawrlwytho'r ap am ddim a dod o hyd i fannau ail-lenwi lle y gallant ail-lenwi eu potel ddŵr am ddim. Mae caffis, tafarndai, bwytai, banciau, orielau, amgueddfeydd a busnesau eraill sy'n cymryd rhan yn cofrestru â'r ap ac yn rhoi sticer yn y ffenestr i dynnu sylw pobl sy'n mynd heibio at y ffaith bod croeso iddynt ddod i mewn a llenwi eu potel. Nod yr ymgyrch yw atal llygredd plastig sy'n deillio o boteli dŵr untro a lleihau allyriadau $CO_2$ cysylltiedig.

Mae Refill yn ceisio gwneud hyn drwy:

· Sicrhau mai cario potel ddŵr y gellir ei hailddefnyddio yw'r 'peth arferol bellach'.

· Rhoi ffordd syml o greu newid parhaol i 'ymgyrchwyr bob dydd' drwy sefydlu cynllun Refill.

· Sicrhau y gall pobl ddod o hyd i leoedd i ail-lenwi eu poteli dŵr am ddim â dŵr tap yn gyflym ac yn hawdd drwy'r ap.

· Sicrhau bod dŵr tap am ddim ar gael yn ehangach mewn mannau cyhoeddus megis canolfannau trafnidaeth, ardaloedd siopa a lleoliadau cyhoeddus.

Gyda mwy na 16,000 o fannau ail-lenwi a thros 90,000 o lawrlwythiadau ap, mae gan Refill y pŵer i fod yn newid tyngedfennol tuag at lefelau llygredd plastig yn ei darddle. Os defnyddir pob man ail-lenwi dim ond unwaith y dydd, byddwn yn atal y defnydd o tua 5 miliwn o boteli plastig yn ei darddle mewn blwyddyn. Mae Refill wedi gweithio gyda sefydliadau anllywodraethol, unigolion, awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr i alluogi a grymuso cymunedau lleol i fynd i'r afael â llygredd defnydd untro yn ei darddle drwy greu a dathlu mannau ail-lenwi â dŵr tap sydd ar gael am ddim drwy rwydwaith Refill, drwy ofyn i fusnesau sy'n gwasanaethu'r cyhoedd agor eu drysau a darparu dŵr yfed hylan am ddim ar gais, heb fod angen prynu dim byd.

**Ymhlith y gwersi a ddygwyd o'r prosiect mae'r canlynol:**

- Mae pawb am hyrwyddo Refill ond mae'n anodd cael gafael ar gyllid.
- Bydd cwmnïau dŵr a chynghorau yn hyrwyddo'r fenter i raddau gwahanol felly mae angen teilwra pob cynllun, a all gymryd amser.
- Nid oes unrhyw gynllun yn dilyn 'yr un ateb i bawb'. Mae'n gofyn am gydweithrediad gwirioneddol, gan ei gwneud yn bosibl i gydbwyso gwaith cydgysylltu canolog yr ymgyrch a gweithgarwch ar lawr gwlad.
- Mae gwaith datblygu apiau yn gostus, sy'n golygu ein bod wedi cyflogi peiriannydd pob haen mewnol.
- Mae dinasoedd yn wynebu heriau gwahanol iawn i gymunedau gwledig.

**Gwefan:** https://www.citytosea.org.uk/



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Rhwydwaith Beach Clean

### #2minutebeachclean

Cynhelir #2minutebeachclean gan y Beach Clean Network Limited, sef sefydliad nid er elw a sefydlwyd yn 2009 gan Martin Dorey a Tab Parry i annog pobl i lanhau traethau. Yn sgil cyfres o stormydd yng Ngogledd yr Iwerydd yn 2013/14, cafodd traethau ledled y DU eu gorchuddio â phlastig a ffurfiwyd #2minutebeachclean. Gan ddefnyddio Twitter ac Instagram i ledu'r gair, ceisiodd y Rhwydwaith Beach Clean annog ymwelwyr â thraethau i dreulio dim ond dwy funud yn glanhau ar y tro, ond bob tro y daethant i'r traeth, gan ddechrau defnyddio'r hashnod.

Mae mannau glanhau traeth wedi cael eu sefydlu ledled y wlad i wneud y gwaith glanhau mor hawdd â phosibl i unrhyw un sydd am gymryd rhan. Gosodwyd y bwrdd cyntaf ar draeth Crooklets yn Bude ym mis Medi 2014. Ariannwyd y bwrdd gan Surfdome a BeachCare. Erbyn mis Medi 2015, roedd maint y sbwriel a oedd yn cael ei gasglu yn ystod digwyddiadau glanhau misol wedi lleihau 61% o gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Ers hynny, mae dros 350 o fyrddau glanhau traeth wedi cael eu gosod ledled y DU ac Iwerddon. Mae'r mannau glanhau traeth ar ffurf byrddau ffram-A â daliwr allanol i declynnau casglu sbwriel a daliwr mewnol i hen fagiau siopa. Mae defnyddwyr yn mynd â theclyn casglu sbwriel a hen fag siopa ac yn ei lenwi â sbwriel am ddwy funud neu fwy ac yn gwaredu'r sbwriel mewn biniau gerllaw neu mewn mannau ailgylchu. Dylai'r hen fagiau siopa gael eu rhoi'n ôl yn y daliwr, yn barod i'r defnyddiwr nesaf. Gall busnesau lleol megis caffis, bwytai neu dafarndai wrth ymyl y traeth neu ysgolion syrffio sydd gerllaw ac sydd â biniau a/neu fannau ailgylchu brynu bwrdd. Gall cynghorau lleol, sefydliadau mawr, neu fusnesau ymhellach i ffwrdd o'r traeth hefyd brynu byrddau a dod o hyd i 'geidwaid' traeth addas i ofalu amdanynt. Mae perchenogion neu 'geidwaid' yn gyfrifol am osod y bwrdd ac yna ei roi i gadw bob nos, yn ogystal â sicrhau bod digon o fagiau a theclynnau casglu sbwriel bob amser.

Lansiwyd ap #2minutebeachclean yn 2017 er mwyn gallu casglu data ar y mathau o sbwriel sy'n cael eu casglu gan bobl mewn lleoliadau gwahanol ledled y DU. Mae hyn wedi helpu i nodi mannau gwael o ran sbwriel yn ogystal â nodi'r troseddwyr gwaethaf, fel y gellir rhoi strategaethau sy'n canolbwyntio ar atebion ar waith. Ariennir ymgyrch #2minutebeachclean drwy elw o werthu / noddi mannau glanhau traeth (tua 5-10% o gostau gweinyddu), o grantiau bach ac elw o werthu nwyddau, ac fe'i cefnogir gan Surf Dome a Reef.

## SCRAPbook

Cafodd y prosiect hwn ei sefydlu yn 2018 gan y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Sky Watch Civil Air Patrol a Phartneriaeth Moryd Moray, a'i nod yw llenwi'r bylchau mewn data ar sbwriel môr drwy fonitro tueddiadau sbwriel mewn mannau anodd eu cyrraedd nad ydynt yn hygyrch iawn ar gyfer digwyddiadau glanhau traeth. Ar hyn o bryd, drwy'r digwyddiadau glanhau traeth rydym yn deall lle mae sbwriel ar ein harfordiroedd gan mwyaf. Er bod yr arolygon hyn yn casglu data gwych, maent yn gyfyngedig yn ddaearyddol. Gan hedfan dros arfordir yr Alban, mae peilotiaid o'r elusen Patrol Awyr Sifil Gwylio'r Wybren yn tynnu ffotograffau o'r awyr o sbwriel môr y gallant ei weld o'r awyr. Gan weithio gyda Phartneriaeth Moryd Moray a'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, bydd y fenter gydweithredol unigryw hon yn cynhyrchu set ddata newydd sbon i'r Alban. Defnyddir y data hyn i greu map ar-lein er mwyn llywio digwyddiadau glanhau traeth ac arolwg sbwriel effeithlon ac wedi'u targedu. Bydd y mapiau hyn ar gael i grwpiau cymunedol, sefydliadau yn y trydydd


*Delwedd: Logo 2 Minute Beach Clean Logo o beachclean.net*




© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

sector, corfforaethau a gwirfoddolwyr unigol er mwyn iddynt wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae Llywodraeth yr Alban yn darparu £100,000 i ehangu prosiect SCRAPbook i dir mawr cyfan yr Alban. Mae gwirfoddolwyr Sky Watch yn dibynnu ar roddion i barhau â'u teithiau hedfan.

ON US De-orllewin yr Alban yw'r grwp glanhau traeth cyntaf i ddefnyddio data SCRAPbook i gasglu sbwriel o draeth anghysbell – Port Logan. Mae'r treial yn fenter gydweithredol rhwng Partneriaeth Moryd Solway, grŵp glanhau traeth ON US, Cyngor Dumfries a Galloway, RPC bpi recycled products ac Armstrong Waste Management Ltd.






© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4



*Delwedd Tudalen Lawn: Rhwydi pysgota dryslyd*

## Pysgota am Sbwriel (y DU)

Menter i leihau sbwriel môr yw Pysgota am Sbwriel KIMO, ac mae'n ceisio gwneud hynny drwy gynnwys un o'r rhanddeiliaid allweddol, sef y diwydiant pysgota. Fe'i sefydlwyd gan Gyfarwyddiaeth Môr y Gogledd Llywodraeth yr Iseldiroedd mewn cydweithrediad â Chymdeithas Pysgodfeydd yr Iseldiroedd ym mis Mawrth 2000 er mwyn cael gwared ar sbwriel ym Môr y Gogledd.
Cynhaliwyd cynlluniau peilot gan KIMO International fel rhan o Brosiect Achub Môr y Gogledd yn yr Alban, Sweden, yr Iseldiroedd a Denmarc tan 2005. Sefydlwyd y prosiect yn yr Alban bryd hynny ac mae wedi parhau'n weithredol ers hynny. Sefydlwyd Pysgota am Sbwriel yn Ne-orllewin Lloegr yn 2009 ar ôl i gynrychiolwyr o'r diwydiant pysgota yng Nghernyw gysylltu â KIMO UK i weld a ellid efelychu'r prosiect yng Nghernyw a Dyfnaint.

Mae KIMO yn parhau i weithredu prosiectau Pysgota am Sbwriel yn yr Iseldiroedd, Ynys Manaw, Ynysoedd Faroe a'r Môr Baltig. Mae prosiectau peilot cyswllt hefyd wedi cael eu cynnal yn Aberdaugleddau ac yng Ngogledd Iwerddon.

Nod Pysgota am Sbwriel yw cael gwared ar sbwriel yn ffisegol yn yr amgylchedd morol a thynnu sylw at bwysigrwydd arferion rheoli gwastraff da ymhlith y fflyd sy'n cymryd rhan ar yr un pryd. Cyflawnir hyn drwy roi bagiau cryf i'r cychod sy'n cymryd rhan er mwyn iddynt gasglu sbwriel môr a ddelir yn eu rhwydi yn ystod eu gweithgareddau pysgota arferol. Caiff bagiau wedi'u llenwi eu gadael mewn harbyrau sy'n cymryd rhan lle cânt eu symud gan staff yr harbwr i sgip neu fin penodol i'w gwaredu. Mae gwastraff gweithredol neu wastraff gali a gynhyrchir ar y cwch, y mae'n gyfrifol amdano felly, yn parhau i fynd drwy systemau rheoli gwastraff sefydledig yr harbwr. Mae'r prosiect yn darparu'r bagiau ac yn talu'r holl gostau gwastraff.

### Yr Alban

Ers dechrau'r prosiect yn 2005, mae dros 1,300 o dunelli o sbwriel môr wedi cael eu cludo i'r lan. Mae hyn yn cyfateb i fwy na thri phwll nofio Olympaidd llawn. Plastig yw'r rhan fwyaf ohono (88%). O dan gam presennol y prosiect, y nod yw cynyddu'r cyfanswm hwn i fwy na 1,400 tunnell erbyn mis Mawrth 2020.
Hyd yma:

- Mae cyfanswm o 1,373 o dunelli o sbwriel môr wedi cael ei gasglu gan gychod sy'n aelod o'r prosiect yn yr Alban
- Mae 19 o harbyrau yn yr Alban yn cymryd rhan
- Mae 230 o gerbydau yn yr Alban wedi ymuno â'r cynllun

Y Cyrff Cyllido ar gyfer Menter Pysgota am Sbwriel yr Alban (2008-2018) oedd Scottish Natural Heritage, Llywodraeth yr Alban, FLTC, Ystad y Goron, Cyngor Swydd Aberdeen, Ymddiriedolaeth Harbwr Ullapool, Harbwr Scrabster, Awdurdod Porthladd Peterhead, Sea Green Wind Energy, Awdurdod Porthladd Lerwick, Total, Ymddiriedolaeth Pysgotwyr yr Alban, Harbwr Tarbert, Beatrice Offshore Windfarm Ltd, John Lewis a'r UE.

Mae'r prosiect wedi sicrhau digon o gyllid i'w alluogi i barhau tan fis Mawrth 2020.

### De-orllewin Lloegr

Ers i'r prosiect ddechrau yn Ne-orllewin Lloegr yn 2009, mae Pysgota am Sbwriel wedi hwyluso ac wedi ariannu'r broses o gasglu dros 150 tunnell o sbwriel môr. Mae nifer yr eitemau plastig ysgafn yn llawer uwch na'r hyn a ddisgwyliwyd ar y dechrau, sef 88% o'r holl eitemau a arolygwyd yn ystod cam olaf y prosiect. Mae cyfanswm y tunelli o sbwriel môr a gesglir gan bysgotwyr yng Nghernyw a Dyfnaint dipyn yn uwch, gan fod rhai eitemau gwerthfawr, e.e. metal sgrap yn cael eu didoli'n aml.
Erbyn 2015:

- Mae'r diwydiant pysgota yn ne-ddwyrain Lloegr wedi casglu 224 o dunelli o sbwriel môr
- 12 o harbyrau
- 160 o gychod

Y Cyrff Cyllido ar gyfer Menter Pysgota am Sbwriel De-orllewin Lloegr (2008-2015) oedd Sefydliad Esme Fairborn, Ystad y Goron, CFPO, Dugiaeth Cernyw, Cyngor Cernyw, Defra, Cyngor Swydd Dyfnaint, Cronfa



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Pysgodfeydd Ewrop, Grŵp Gweithredu Lleol Pysgodfeydd Cernyw, Asiantaeth yr Amgylchedd a Natural England.

### Prosiectau cyswllt

Gall prosiectau sy'n gweithredu yn y DU ac Iwerddon gofrestru â KIMO UK fel prosiect cyswllt ac ymuno â'r fforwm. Nod y fforwm yw rhannu profiad ac arferion er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf o ran prosiectau Pysgota am Sbwriel.

Mae'r fforwm yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn drwy 'Skype for Business' er mwyn trafod materion, rhannu profiad a datrys problemau. Mae croeso hefyd i gynrychiolwyr cyrff y Llywodraeth sy'n rhan o'r gwaith o annog gweithgareddau Pysgota am Sbwriel fel y gallant glywed eu hunain am yr heriau a'r rhwystrau y mae'r prosiectau yn eu hwynebu. Mae'r fforwm hefyd yn anelu at gasglu data o bob prosiect sy'n cydweithio ag ef i'w cyflwyno i gyrff â diddordeb (gan gynnwys OSPAR) a'i obaith yw y caiff ei gydnabod fel y 'lle amlwg' i gael gwybodaeth am Bysgota am Sbwriel yn y DU ac Iwerddon.

Mae prosiectau cyswllt yn cynnwys:

**Fishing 4 Litter Yorkshire (gan gynnwys Fishing 4 Litter Holderness)**
[www.ywt.org.uk](www.ywt.org.uk)
**Fishing for Litter Northern Ireland**
[https://www.facebook.com/FishingforLitter](https://www.facebook.com/FishingforLitter)
**Fishing for Litter Ireland**
[http://www.bim.ie/our-work/projects/fishingforlitter/](http://www.bim.ie/our-work/projects/fishingforlitter/)
**Fishing for Litter North Devon, sydd bellach yn rhan o Fishing for Litter South West**
[www.fishingforlitter.org.uk](www.fishingforlitter.org.uk)

## Gweithgarwch cymunedol

Cysylltodd y Gymdeithas Cadwraeth Forol â'i threfnwyr Beachwatch i holi am y gwaith sy'n cael ei wneud yn eu cymunedau lleol i fynd i'r afael â sbwriel môr. Cafwyd 149 o ymatebion, gyda llawer yn cyfeirio at y gwahanol ddigwyddiadau glanhau traeth y cymerwyd rhan ynddynt, gan gynnwys Beachwatch y Gymdeithas, digwyddiadau glanhau traeth SAS a mentrau cymunedau diblastig, yn ogystal â #2minutebeachclean, Digwyddiadau Glanhau Traeth Keep Britain Tidy, Love my Beach a PADI project aware. Ceir rhestr o brosiectau cymunedol gweithredol ledled y DU yn Atodiad 5

## Partneriaeth Turning Tides

### LOVEmyBEACH

Partneriaeth draws-sefydliadol yw Turning Tides, sy'n cynnwys United Utilities, Asiantaeth yr Amgylchedd, Keep Britain Tidy ac awdurdodau lleol, a ddaeth ynghyd i wella ansawdd ein dyfroedd dŵr yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Fe'i sefydlwyd yn 2012, pan ragwelwyd y byddai 18 o ddyfroedd ymdrochi'r rhanbarth yn methu â chyrraedd safonau llymach yr UE ar gyfer ansawdd dŵr a oedd yn dod yn weithredol o 2015. Yn 2016 a 2017, dathlodd y bartneriaeth y ffaith bod pob un o'r 30 o leoliadau dŵr ymdrochi wedi cyrraedd safonau llymach yr UE ar gyfer ansawdd dŵr. Drwy'r ymdrech gydweithredol cafodd Cyngor Blackpool wobr y Faner Las hefyd. Crëwyd ymgyrch LOVEmyBEACH yn 2013 gan Keep Britain Tidy fel rhan o'i waith gyda Turning Tides mewn cydweithrediad â grwpiau ledled y rhanbarth megis Grŵp Rheoli Dŵr Penrhyn Fylde, Partneriaeth Bae Morecambe a Windermere Reflections yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Nod yr ymgyrch yw creu cysylltiad cliriach rhwng ansawdd y dŵr ymdrochi, y traeth a'r arfordir yn fwy cyffredinol, gan gysylltu'r ymgais hon i godi ymwybyddiaeth yn fwy cyffredinol â dealltwriaeth o'r ffordd y gall ymddygiadau unigol a sefydliadol effeithio ar yr amgylchedd hwnnw. Mae LOVEmyBEACH yn annog unigolion, busnesau, ffermydd, ysgolion a grwpiau cymunedol i gymryd rhan mewn gweithgarwch sy'n cefnogi gwelliannau i draethau a dyfroedd ymdrochi.

Rheolir LOVEmyBEACH Fylde gan BeachCare, sef partneriaeth o dn arweiniad Keep Britain Tidy sy'n gweithio gydag wyth grŵp o wirfoddolwyr traeth rheolaidd ar hyd yr arfordir:

- Grŵp Gofal Arfordirol Fairhaven
- Grŵp Gofal Traeth St Annes
- Digwyddiadau glanhau SEA LIFE Blackpool LOVEmyBEACH


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

- Grŵp Gofal Traeth Cleveleys
- Grŵp Preswylwyr a Chymunedol Traeth Rossall
- Grŵp Gofal Traeth Rossall Point
- Grŵp Gofal Traeth Knott End
- Cyfeillion yr Aber

Mae'r cydweithrediad hwn â gwahanol grwpiau sy'n gweithio yn yr un ardal yn golygu y gall fod hyd at 11 o ddigwyddiadau glanhau traeth mewn unrhyw wythnos benodol ar arfordir Fylde. Yn 2018, cynhaliodd 11 o grwpiau glanhau traeth 327 o ddigwyddiadau glanhau traeth gyda chymorth 602 o wirfoddolwyr. Hefyd, cynhaliwyd wyth digwyddiad glanhau traeth gyda 234 o aelodau o staff United Utilities a thri digwyddiad glanhau traeth gyda 48 o aelodau o Staff Asiantaeth yr Amgylchedd. Rhoddwyd cyfanswm 10,220 o oriau gwirfoddoli i lanhau traethau, a chasglwyd 7,670 llond bag o sbwriel ar draethau ac aberoedd. Cynhaliwyd digwyddiad dathlu llwyddiannus i wirfoddolwyr gyda gwirfoddolwyr glanhau traeth yn dod i rannu syniadau a phrofiad a chlywed cyflwyniadau gan United Utilities, Asiantaeth yr Amgylchedd, awdurdodau lleol, LOVEmyBEACH a Keep Britain Tidy. Cafwyd cyfraniadau sylweddol mewn ffyrdd eraill gan wirfoddolwyr a sefydliadau partner (gan ystyried gwerth economaidd oriau gwirfoddoli) a chyfraniadau megis mannau storio, lleoliadau cyfarfod a rhoddion gan fusnesau preifat. Yn 2017-18, rhoddwyd cyfanswm o gyfraniadau gwerth £102,500 mewn ffyrdd eraill. Mae'r grŵp yn parhau i weithio'n agos gyda phob un o'r tri awdurdod lleol ar ymgysylltu â gwirfoddolwyr, materion ymarferol sy'n ymwneud â glanhau traethau a digwyddiadau.

Ymhlith rhai o'r digwyddiadau ymgysylltu llwyddiannus mae'r canlynol:

- Digwyddiad geogelcio 'Cache In Trash Out' a drefnwyd ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Afonydd Ribble yn Warton lle y daeth 12 o wirfoddolwyr newydd i gasglu sbwriel ar yr aber a dod o hyd i geogelchiadau cudd er mwyn gwneud y digwyddiad yn fwy diddorol
- 10 o gyflwyniadau a roddwyd i grwpiau cymunedol, gan gynnwys grwpiau'r Gwasanaeth Dinasyddion Cenedlaethol, staff y Weinyddiaeth Amddiffyn a 120 o bobl yng Ngrŵp Arweinwyr Busnes Blackpool
- Tri digwyddiad glanhau traeth llwyddiannus a drefnwyd ar gyfer cyflogeion Asiantaeth yr Amgylchedd
- Digwyddiad cymunedol cyntaf yn cynnwys pobl yn mynd â'u ci am dro yn Blackpool er mwyn lansio taflen gyngor ar gŵn LOVEmyBEACH
- 17 o erthyglau yn y wasg yn cyfeirio at LOVEmyBEACH yn sôn am straeon megis y digwyddiad dathlu i wirfoddolwyr, ras drosglwyddo glanhau traeth a chodi baw cŵn ar Draeth St Annes.

## Litter Free Coast and Sea Dorset

Fe'i sefydlwyd yn 2011 gan gasgliad o sefydliadau lleol a oedd am atal sbwriel rhag cyrraedd y traethau lleol a'r môr. Caiff y prosiect ei gydlynu gan Fforwm Arfordir Dorset a'i gynnal gan Gyngor Swydd Dorset. Lluniodd templed o'i waith y gallai eraill ei efelychu. Mae'r gweithgor yn cynnwys perchenogion tir lleol, sefydliadau anllywodraethol, awdurdodau lleol, busnesau a rheolwyr traeth sy'n cyfarfod bob chwarter drwy gydol y flwyddyn. Caiff camau gweithredu'r grŵp eu hariannu gan Wessex Water, Ymddiriedolaeth yr Arfordir Jurasig, Cyngor Swydd Dorset a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

### Plastic Surgery

Mae'n gweithio gyda Dorset Food and Drink a'r Arts Development Company drwy Brosiect Cyswllt Arfordirol Dorset i roi cyfle i fusnesau lleol ymuno â'r ymgyrch a helpu i leihau faint o sbwriel a welir ar draethau Dorset. Cynhaliwyd tri digwyddiad Plastic Surgery ym Mae'r Gorllewin, Bournemouth a Weymouth yn 2018 lle y rhoddwyd gwybodaeth a chymorth i siopau a chiosgau bwyd lleol newid deunydd pacio eu bwyd a'u diod. Cawsant gyfle hefyd i gyfarfod a siarad â chyflenwyr deunydd pacio ecogyfeillgar a chynaliadwy, ac i wrando ar fusnesau lleol eraill sydd eisoes wedi dechrau ar eu taith i leihau faint o wastraff y maent yn ei gynhyrchu. O ganlyniad, mae 17 o fusnesau wedi newid eu harferion presennol.

### Gwobrau Busnesau Disbwriel

Mae'r grŵp wedi datblygu cynllun gwobrwyo i fusnesau arfordirol o bob math, lle y caiff cwmnïau eu gwobrwyo am wneud newidiadau syml i'r ffordd y maent yn gweithio er budd eu traethau a'u dŵr ymdrochi



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

lleol. Mae rhestr o enillwyr y Gwobrau Busnes ar gael yn Atodiad 6.

### Digwyddiadau Glanhau Traeth Cymunedol

Ers i'r prosiect ddechrau, mae chwe grŵp BeachCare wedi cael eu sefydlu, a gaiff eu rhedeg a'u trefnu gan wirfoddolwyr. Mae Litter Free Coast and Sea yn rhoi hyfforddiant ar redeg digwyddiadau llwyddiannus, yn ogystal â hyfforddiant cymorth cyntaf, cyfarpar glanhau traeth ac ymgyrchu a chymorth i hyrwyddo digwyddiadau glanhau traeth. Mae hefyd yn annog ein grwpiau o wirfoddolwyr i lunio a rhedeg prosiectau neu ymgyrchoedd er mwyn helpu cymunedau i chwarae rhan fwy gweithredol i gyflawni ein nod ehangach o atal sbwriel môr a sbwriel traeth yn ei darddle. Mae grwpiau cymunedol Litter Free Coast and Sea yn gweithredu yn Lyme Regis, Charmouth, West Bay, Bowleaze Cove (Weymouth), Prifysgol Bournemouth a Christchurch.
Cynhelir digwyddiad Great Dorset Beach Clean bob blwyddyn dros benwythnos ym mis Ebrill. Y llynedd, daeth dros 500 o wirfoddolwyr i gasglu 350 llond bag o sbwriel ar draethau Dorset.

## Cynghrair Llygredd Plastig Cernyw

Sefydlwyd Cynghrair Llygredd Plastig Cemyw yn 2016, a bu Gofal Traeth Penrhyn Rame yn allweddol i ffurfio'r gweithgor penodol hwn, a ddechreuodd ymhlith aelodau o rwydwaith Your Shore Ymddiriedolaeth Natur Cernyw. Yn 2017, roedd y gynghrair yn cynnwys dros 30 o sefydliadau amgylcheddol a mudiadau glanhau traeth ac arbenigwyr gwyddor y môr, gan gynnwys Ymddiriedolaeth Natur Cernyw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghernyw, Eglwys Gadeiriol Truro a'r RSPB. Syniad y gynghrair yw harneisio sgiliau lu a gwybodaeth arbenigol y gwahanol grwpiau ac unigolion. Mae'r grŵp yn defnyddio llythyrau templed y gellir eu hanfon yn gyflym mewn ymateb i faterion a digwyddiadau gwahanol, er enghraifft pan welir balwnau corfforaethol sefydliadau ar draethau Cernyw. Mae hefyd yn paratoi adroddiadau, yn ymateb i ymgynghoriadau gan y llywodraeth, yn rhoi cyfweliadau ar lygredd plastig ac yn rhoi anerchiadau a chyflwyniadau, gan gynnwys yn Senedd y DU ac yn y Comisiwn Ewropeaidd.

Mae'n cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gan ganolbwyntio ar falwnau a ryddhawyd a microblastigion. Mae hyn yn cynnwys peledi a gollir o weithfeydd plastig lleol, a microbelenni colur, gyda ffocws penodol ar fiobelenni (peledi plastig a ddefnyddir wrth drin dŵr gwastraff ac y gwelir niferoedd enfawr ohonynt ar draethau Cernyw). Cyhoeddwyd adroddiad manwl ar y mater hwn ym mis Hydref 2017, sydd ar gael yma.
Mae aelodau presennol Cynghrair Llygredd Plastig Cernyw ar gael yn Atodiad 7.


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Ymddiriedolaeth Grŵp Ymchwil Morloi Cernyw (CSGRT)

Mae'r prosiect hwn, a sefydlwyd yn 2000, yn cofnodi effeithiau offer pysgota coll a mathau eraill o sbwriel môr ar forloi yn ne-orllewin Lloegr. Ei nod yw cofnodi pob morlo llwyd a nodwyd yn unigol sydd wedi dod i gysylltiad ag offer pysgota coll ac wedi cael eu dal yn sownd ynddo (y mae rhywfaint ohono wedi cael ei achub hefyd). Ers 2014, mae'r grŵp wedi dechrau rhaglen fonitro yn seiliedig ar ddinasyddion-wyddonwyr sy'n cofnodi eitemau/faint o offer pysgota coll a welir ar dir (yn ardal de-orllewin Lloegr), gan ddefnyddio'r 200 a mwy o wirfoddolwyr sy'n rhan o'r grŵp. Hefyd, cynhaliwyd 26 o arolygon trawsdorri systematig o offer pysgota gadawedig mewn cychod ar hyd yr arfordir, a aeth dros yr un 115m hyd o arfordir gogledd Cernyw nifer o weithiau (cyfanswm pellter yr arolwg 2990km). Tynnwyd ffotograffau o amrywiaeth eang o eitemau pysgota gadawedig ar hyd y rhan fwyaf o arfordir 700km Cernyw (arfordir y gogledd a'r de), o amgylch ynysoedd ger yr arfordir ac yn y môr agored a gwelwyd 4,226 o eitemau newydd a oedd yn cyfateb i 49,917 litr (neu 51 tunnell). Gwelwyd mwy na 52 o greaduriaid unigol a oedd wedi cael eu dal yn sownd mewn offer pysgota gadawedig, yn amrywio o wyntyllau pinc y môr i 15 o forloi byw, y llwyddodd BDMLR i achub wyth ohonynt. Drwy waredu'r offer, lleihawyd y risgiau cyffredinol o 37% i 24%.
Mae adroddiad a gomisiynwyd gan Sefydliad Diogelu Anifeiliaid y Byd yn rhoi mapiau o arolygon o'r arfordir a'r tir a gynhaliwyd, yn ogystal â dangos cyfaint yr offer mewn litrau a ddarganfyddir yn ystod pob ymweliad ar gyfartaledd. Mae crynodeb o'r adroddiad ar gael yma. Yn 2018, dechreuodd yr Ymddiriedolaeth weithio mewn partneriaeth â Grŵp Cadwraeth Forol Polzeath a Grŵp Morol Newquay i drefnu ac ariannu arolygon samplu dŵr i nodi microblastigion. Ariennir yr arolygon hyn gan Patagonia a Sea-Changers ar hyn o bryd.

## East Haven Together

Sefydlwyd East Haven Together, yn East Haven, Angus yn 2015 gyda'r nod o hyrwyddo a diogelu'r amgylchedd lleol. Drwy waith y grŵp treftadaeth a garddio, mae'r elusen yn annog pobl o bob oedran a gallu i gydweithio i wneud East Haven yn lle gwell i fyw ynddo ac ymweld ag ef. Yn ddiweddar, enillodd East Haven Wobr Aur Beautiful Scotland a Gwobr Cynaliadwyedd Jim Murdie. Mae pobl yn East Haven wedi bod yn glanhau'r traeth ers 25 mlynedd ac yn lanlwytho data arolygon i'r Gymdeithas Cadwraeth Forol. Maent hefyd wedi llunio eu strategaeth gynaliadwyedd eu hunain sy'n cysylltu â Nodau Byd-eang y Cenhedloedd Unedig.

## Partneriaeth Moryd Solway

Corff elusennol annibynnol yw Partneriaeth Moryd Solway, a sefydlwyd yn 2011. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys cydweithio rhwng pobl ar y naill ochr a'r llall i Foryd Solway, a thu hwnt, ar amrywiaeth eang o brosiectau. Mae'r bartneriaeth yn cynnig rhwydwaith cydweithredol o gydberthnasau rhwng pawb sydd â diddordeb yn yr ardal forol ac arfordirol leol. Yn ogystal â chyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisïau i reoli'r arfordir a'r môr, mae'r bartneriaeth yn rhoi cymorth i gymunedau a busnesau arfordirol, sy'n rhoi manteision



*Delwedd: Casglu sbwriel ym Mae Caerdydd: Ffotograff drwy greadigrwydd Grŵp Afonydd Caerdydd*

© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN digidol 978-1-80082-177-4

lleol gwirioneddol. Mae'r bartneriaeth yn darparu rhywfaint o gyfarpar casglu sbwriel, gan gynnwys teclynnau casglu sbwriel, menig a chylchoedd i ddal bagiau ar agor, y gall unrhyw grŵp cymunedol eu benthyg.
Mae'r bartneriaeth wedi datblygu ei Chynllun Gweithredu Atal Sbwriel ei hun, a gaiff ei adolygu'n flynyddol er mwyn monitro cynnydd a sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu cymryd, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith.

### 'Make the Most of the Coast'

Rhwng 2012 a 2014, cynhaliodd Partneriaeth Moryd Solway ymgyrch 'Make the Most of the Coast' i hyrwyddo arfordir deheuol yr Alban. Nod yr ymgyrch oedd ennyn diddordeb pobl a chodi eu hymwybyddiaeth o ansawdd uchel arfordir Dumfries a Galloway a hyrwyddo mentrau sy'n gofalu'n dda am ein hadnodd gwerthfawr. Llwyddodd y fenter hon i weithio gydag eraill i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael ar hyd dros 200 milltir o'r arfordir. Ymgysylltodd y prosiect ag 28 o ddarparwyr addysg a thros 2,500 o unigolion. Trefnwyd 39 o ddigwyddiadau glanhau traeth hefyd, lle y rhoddwyd amser gwirfoddoli gwerth dros £10,000. Gweithiodd y bartneriaeth â 31 o grwpiau, sefydliadau a busnesau a bu'n rhan o 33 o ymgyrchoedd hyrwyddo'r arfordir.

### Prosiect Loch Ryan

Comisiynwyd Partneriaeth Moryd Solway gan Gyngor Dumfries a Galloway i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y caiff rhannau gwahanol o'r llyn eu defnyddio fel y gellir rheoli unrhyw wrthdaro posibl sy'n codi o batrymau defnydd sy'n newid, diogelu bywyd gwyllt, a nodi cyfleoedd datblygu priodol. Erbyn canol mis Rhagfyr 2013, roedd dros hanner cant o randdeiliaid wedi cymryd rhan yn yr ymgynghoriad. Cafodd safbwyntiau eu casglu tan ddiwedd mis Ionawr 2014 ac yna paratôdd Partneriaeth Moryd Solway adroddiad a oedd yn cynnwys argymhellion i Gyngor Dumfries a Galloway.

### Tidelines

Mae'r cylchgrawn Tidelines yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai a mis Tachwedd bob blwyddyn ac mae'n cynnwys amrywiaeth eang o erthyglau am y môr, yn ogystal â gwybodaeth am ddigwyddiadau a chyfleoedd i wirfoddoli. Caiff dros 2,000 o gopïau o'r cylchgrawn eu dosbarthu ac mae ar gael ar y naill ochr a'r llall i Foryd Solway mewn canolfannau croeso, llyfrgelloedd lleol a chanolfannau i ymwelwyr â'r arfordir.

Mae Partneriaeth Moryd Solway yn dibynnu ar gymorth cyllid craidd gan aelodau corfforaethol, sef awdurdodau lleol neu asiantaethau'r llywodraeth. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cael cyllid gan y sector preifat drwy E-On, yn benodol i gyhoeddi a dosbarthu Tidelines.

## Partneriaeth Arfordirol Dwyrain y Mynydd Bannog - Turning the Plastic Tide

Sefydlwyd Partneriaeth Arfordirol Dwyrain y Mynydd Bannog ym mis Rhagfyr 2017 ac mae'n cynnwys Cyngor Dinas Aberdeen, Harbwr Aberdeen, Prifysgol Aberdeen, Cyngor Swydd Aberdeen, Fforwm Arfordirol yr Alban, Sea Watch Foundation, Awdurdod Porthladd Peterhead, Oil and Gas UK a Scottish Natural Heritage. Grŵp gwirfoddol yw'r bartneriaeth, sy'n cynrychioli'r rhai sydd â diddordeb yn llesiant yr arfordir lleol. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys awdurdodau lleol, diwydiant, sefydliadau anllywodraethol, trigolion lleol a grwpiau hamdden/twristiaeth. Nod y bartneriaeth yw sicrhau prosesau rheoli ardaloedd arfordirol integredig, megis hyrwyddo a chydlynu digwyddiadau glanhau traeth cymunedol yn yr ardal drwy hyfforddi gwirfoddolwyr, datblygu adnoddau ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar faterion megis offer barbeciw tafladwy, microblastigion a sbwriel pysgota o Benrhyn Kinnaird, Fraserburth i aber Afon Gogledd Esk. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r grŵp yn cydlynu ei ymdrechion ar y cyd â SEPA, Scottish Water a KIMO, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Marine Scotland, Cyngor Swydd Aberdeen, awdurdodau porthladdoedd, cyrff pysgota, busnesau, cynghorau cymuned ac ysgolion. Mae cyfanswm o 21 o gynghorau cymuned yn ardal y prosiect sy'n cyffinio ag arfordir Dwyrain y Mynydd Bannog. Mae'r prosiect yn anelu at gydweithio â phob cyngor cymuned er mwyn cefnogi digwyddiadau glanhau traeth drwy roi cyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau arfaethedig ac annog y cyhoedd i gymryd rhan. Mae Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop wedi ariannu 90% o gostau'r prosiect, gan gynnwys swyddog prosiect newydd. Darparwyd gweddill y cyllid gan Awdurdod Porthladd Peterhead, Vattenfall, Shell UK, Cyngor Angus, Ymddiriedolaeth Pysgotwyr yr Alban a Sefydliad Cynhyrchwyr Pysgod Aberdeen. Roedd y cyllid hwn yn cwmpasu'r elfen o 10% o arian cyfatebol a gwaith y bartneriaeth i gefnogi'r prosiect.
Mae'r cyflawniadau hyd yma yn cynnwys:


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

- Wedi cynnal pedwar digwyddiad glanhau traeth: cyfanswm o 221 o wirfoddolwyr.
- Presenoldeb y Swyddog Prosiect mewn pum digwyddiad glanhau traeth: cyfanswm o 166 o wirfoddolwyr a phedwar gan Reolwr Prosiect y bartneriaeth.
- 54 o wirfoddolwyr glanhau traeth wedi ymuno â'r fenter
- Wedi cynnal digwyddiad lansio prosiect yn llwyddiannus ym Mae Sandford lle y casglwyd 2.5 tunnell o sbwriel gan 44 o wirfoddolwyr mewn tair awr.
- Wedi cynnal un arddangosfa o ffotograffau a oedd yn cefnogi'r prosiect yng Nghanolfan Bywyd Gwyllt Basn Montrose SWT.
- Wedi ymgysylltu ag un ysgol hyd yma: wedi rhoi cyflwyniad i 18 o ddisgyblion (cynradd 4-7 oed) o Ysgol Gynradd Kinimonth ac yna sesiwn glanhau traeth ar Draeth Ugie pan gasglwyd 160 kilogram.
- Wedi gwneud tua 180 o gysylltiadau yn y maes, gan gynnwys y cyfryngau/y wasg, gwasanaethau cyngor, contractwyr allanol, ysgolion, cynghorau cymuned, partneriaethau/sefydliadau anllywodraethol, y diwydiant pysgota, y diwydiant olew a nwy, grwpiau â diddordeb (e.e. clybiau hamdden, busnesau lleol, grwpiau glanhau traeth cymunedol ac ati), cyrff cyllido a chysylltiadau yn y gwasanaeth sifil.
- Wedi gwneud cysylltiadau cydweithredol â SCRAPbook, Partneriaeth Moryd Moray, y Gymdeithas Cadwraeth Forol, Keep Scotland Beautiful, Surfers Against Sewage, Scottish Natural Heritage, Zero Waste Scotland, Ffederasiwn Pysgotwyr yr Alban, KIMO UK/International, RNLI, ac Angus Clean Environments.
- Presenoldeb yn y cyfryngau cymdeithasol, gyda 307 o ddilynwyr sy'n cynyddu'n gyson – 171 (Facebook), 104 (Twitter) a 32 (Instagram).
- Sylw yn y Wasg a'r Cyfryngau: sylw ar raglen "Out of Doors" BBC Radio Scotland; tri datganiad i'r wasg / dau gyfweliad dros y ffôn, gan gynnwys sylw yn Scottish Field, Press and Journal, Buchan Observer, Fishing News, The Shire Magazine, Mearns Leader, The Scots Magazine a ffrwd newyddion Scottish Natural Heritage.

**"Gwirfoddoli yw'r ffordd fwyaf sylfaenol o arfer democratiaeth. Rydych yn pleidleisio mewn etholiadau unwaith y flwyddyn, ond pan fyddwch yn gwirfoddoli, rydych yn pleidleisio bob dydd am y math o gymuned rydych am fyw ynddi."** – *Dienw*



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4




*Delwedd: 1300 o fyfyrwyr yn dod ynghyd i greu neges 'Sea Change' ar draeth mewn digwyddiad International Coastal Cleanup yn 2018.*

## Gweithgarwch Ewropeaidd

### Gwaharddiad Munich ar Eitemau Untro mewn Digwyddiadau Cyhoeddus – “Münchner Einwegverbot”

Yn 1991, rhoddodd llywodraeth leol Munich waharddiad ar ddefnyddio a gwerthu cynwysyddion diodydd ac eitemau bwrdd tafladwy mewn digwyddiadau a gynhelir ar dir sy'n eiddo i'r ddinas neu mewn cyfleusterau a gofod manwerthu o dan berchenogaeth y ddinas. Roedd trefnwyr y digwyddiadau ond yn gallu defnyddio deunydd pacio a chynwysyddion amldro sy'n dod o dan gynllun ernes gorfodol lle mae defnyddwyr yn talu ernes sy'n cael ei had-dalu pan fyddant yn dychwelyd yr eitemau. Ymhlith y digwyddiadau rheolaidd y mae'r gwaharddiad yn effeithio arnynt mae marchnadoedd wythnosol Munich yn y Stadiwm Olympaidd, Oktoberfest Munich, marchnad y Nadolig, Auer-Dult Faire, a Marathon Dinas Munich.

Caiff y gwaharddiad ei weinyddu a'i orfodi gan lywodraeth y ddinas, sy'n cynnwys arolygiadau yn ystod digwyddiadau mawr a rhoi dirwyon o hyd at €2,500 os torrir y gwaharddiad. Hefyd, mae'n cydweithio â'r cwmni MobielSpiel e.V i ddarparu gwasanaethau rhentu llestri a chyfarpar golchi llestri i drefnwyr digwyddiadau bach (rhwng 500 o 1000 o bobl). [18]

Amcangyfrifwyd effaith y cynllun hwn yn y cyfnod rhwng 1990 a 2004, pan leihaodd y gwastraff a gynhyrchwyd o ddigwyddiadau 50%, gyda gwastraff gweddilliol a gynhyrchwyd yn lleihau 75%. Un enghraifft nodedig o effeithiolrwydd y gwaharddiad oedd bod y gwastraff a gynhyrchwyd yn ystod gŵyl gwrw Oktoberfest wedi gostwng o 11,000 o dunelli yn 1990 i 550 o dunelli yn 1999.

Mae dadansoddiad ariannol o'r costau y mae trefnwyr digwyddiadau wedi mynd iddynt er mwyn cydymffurfio â'r gwaharddiad wedi datgelu bod cyfradd ailddefnyddio cynwysyddion bwyd a diod yn ffactor pwysig o ran cydymffurfiaeth am fod yn rhaid i'r gyfradd hon fod yn ddigon uchel i wneud y ddarpariaeth o eitemau bwrdd amldro yn fwy dymunol yn economaidd nag opsiynau untro. Dechreuodd eitemau bwrdd amldro esgor ar arbedion cost pan gyrhaeddwyd 500 o ymwelwyr.

Gwers arall a ddysgwyd yw bod creu safleoedd lle y gall digwyddiadau llai o faint gael eu cynnal yn rheolaidd yn creu arbedion effeithlonrwydd megis seilwaith canolog ar gyfer rhentu llestri amldro a chostau golchi llestri is i weithredwyr bach. Ym mhrofiad busnesau ym Munich, mae'r baich o hyfforddi staff ar hylendid a logisteg gweithredu systemau amldro yn golygu ei bod o bosibl yn well contractio sefydliadau trydydd parti sy'n arbenigo mewn darparu gwasanaethau rhenti a golchi llestri symudol.

Mae cynllun o'r fath yn amlwg yn berthnasol i nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015, sy'n golygu defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff fel rhan o'r newid tuag at economi gylchol. Byddai cynllun o'r fath hefyd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 15 y Nodau Llesiant a Datblygu Cynaliadwy – "*Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen*". Fodd bynnag, mae'r dangosydd hwn wedi'i seilio ar wastraff cartref ar hyn o bryd ond mynd i'r afael â gwastraff trefol fyddai nod cynllun o'r fath.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

**Gwefan:** [www.awm-muenchen.de](http://www.awm-muenchen.de)

## RECUP

Mae hoffter pobl yr Almaen o yfed coffi, ynghyd â diwylliant cyfleustra cyffredinol, wedi arwain at sefyllfa lle y caiff 2.8 biliwn o gwpanau tafladwy eu defnyddio y flwyddyn, yn ôl yr amcangyfrif [19]. Mae RECUP, a sefydlwyd yn ninas Rosenheim, Bafaria yn 2016, yn ceisio mynd i'r afael â'r broblem a hefyd godi ymwybyddiaeth o ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Lansiwyd y cysyniad i ddechrau fel cynllun ernes ar gyfer cwpanau yn ninas Rosenheim, lle roedd cwsmeriaid yn gallu talu ernes o ewro am RECUP polyprophylen y gellid mynd â hi a'i dychwelyd i unrhyw gaffi a oedd yn cymryd rhan er mwyn cael yr ernes yn ôl.

Ar ôl cael ymatebion cadarnhaol gan gwsmeriaid, partneriaid a'r cyfryngau, penderfynodd RECUP ehangu'r cynllun y tu hwnt i'r ddinas. Ymunodd RECUP â'r cwmni newydd JustSwapIt ym Merlin, i lansio'r ymgyrch genedlaethol ym mis Mai 2017. Y nod oedd creu rhwydwaith cenedlaethol o bartneriaid i sicrhau bod y cynllun dychwelyd ernes ar gyfer cwpanau ar gael yn gyffredinol[20]. Mae RECUP wedi pennu amcan o sicrhau bod y cynllun ar gael ym mhob siop goffi yn yr Almaen, gan godi ymwybyddiaeth ymhlith cwsmeriaid o ddefnyddio adnoddau'n gynaliadwy. Gyda darpariaeth yn y rhan fwyaf o drefi mawr a dinasoedd yr Almaen, mae rhwydwaith cynyddol RECUP o 978 o gaffis (ffigur 2018) yn ei wneud yn opsiwn cynyddol gyfleus [21]. Drwy ddatblygu ap sy'n dangos yr holl siopau sy'n cymryd rhan mae'n fwy cyfleus byth i bobl ddewis RECUP.

Mae'r cynllun wedi canolbwyntio ar sicrhau màs critigol yn y rhwydwaith cenedlaethol, lle mae'r ffactor cyfleustra yn cynyddu ac mae amlygrwydd yn uchel. Canolbwyntiwyd ar amlygrwydd a dymunoldeb drwy ddyluniad atyniadol RECUP, sy'n ei wneud yn amlwg ac yn gynnyrch y mae cwsmeriaid yn ymfalchïo ynddo. Mae dyluniad y cwpan yn golygu y gellir ei addasu'n hawdd ac mae RECUP wedi manteisio ar hynny i gynhyrchu dyluniadau amrywiol ar gyfer gwahanol ddinasoedd.[22] Er bod hyn wedi helpu i gynyddu faint o gwpanau RECUP a werthir, mae'r syniad yn cael ei werthuso ar hyn o bryd am fod gormod o gwpanau yn cael eu tynnu o'r farchnad (fel cofroddion) ac mae'r print yn cymhlethu'r broses ailgylchu.[23]

Y nod cyffredinol yw lleihau effeithiau amgylcheddol yn sylweddol. Gan fod cwpanau RECUP wedi cael eu dylunio i'w defnyddio o leiaf 1,000 o weithiau, gallai'r Almaen arbed 11,000 o dunelli o $CO_2$, 40,000 dunelli o wastraff, 3,000 o dunelli o olew crai a 43,000 o goed bob blwyddyn drwy osgoi cwpanau tafladwy[24]. Mae sicrhau cydbwysedd rhwng dyluniadau atyniadol nad ydynt yn peryglu nifer y cwpanau sy'n cael eu cylchredeg wedi bod yn broses ddysgu bwysig i RECUP.

Ar ddechrau 2019, lansiodd RECUP ei ymgyrch ryngwladol gyntaf, drwy ddechrau gweithrediadau yn Durban, De Affrica. Caiff hyn ei llywio gan Cultivar, sydd wedi'i leoli yn Durban. Bydd lansiad rhyngwladol y prosiect yn ffordd werthfawr o fesur i ba raddau y gellir trosglwyddo'r cysyniad.




*Delwedd: Uned Rhentu a Golchi Llestri Symudol*



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Mae manteision lleihau gwastraff y cam gweithredu hwn, a'r ffaith ei fod yn cyd-fynd ag egwyddorion yr economi gylchol yn cefnogi'n gryf nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Byddai hefyd yn cefnogi cynnydd o ran Dangosydd 15 y Nodau Llesiant a Datblygu Cynaliadwy – "*Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen*" ond o ran gwastraff trefol yn hytrach na gwastraff cartref. Wrth i gynllun o'r fath gael ei fabwysiadu'n fwyfwy, gellir disgwyl iddo gyfrannu at leihau sbwriel môr yn unol â nodau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae unrhyw gynllun sy'n cynnwys ernes ac ailddefnydd hefyd yn cyfrannu at gam gweithredu 83 RAP OSPAR:

*"83. Supporting/initiating community/business-based producer responsibility schemes or deposit systems (…)"*

**Gwefan: https://recup.de**

## reCIRCLE

Menter gymdeithasol yn Bern, y Swistir yw reCIRCLE, a sefydlwyd yn 2016. Mae'n ceisio herio model economaidd llinol cynwysyddion bwyd a diod tafladwy drwy greu rhwydwaith cenedlaethol i ddosbarthu a dychwelyd cynwysyddion amldro. Mae'r cysyniad yn cynnwys reBOX, GOOD CUP a SPORK (fforc, llwy a chyllell yn un), i ddarparu'r ystod lawn o offer amldro y gellir eu defnyddio mewn cynlluniau dychwelyd ernes.

reBOX yw cynnyrch mwyaf adnabyddus y sefydliad. Gall cwsmeriaid bwytai sy'n cymryd rhan ddewis cael eu cludfwyd mewn reBOX yn hytrach na chynhwysedd amgen tafladwy, o dalu ernes o 10 CHF (£7.70). Ers lansio reCIRCLE, mae 70,000 o flychau wedi cael eu dosbarthu yn y Swistir, i 412 o fannau gwerthu bwyd.[25] Gellir dychwelyd y blychau i unrhyw fan gwerthu bwyd i adhawlio'r ernes (p'un a ydynt yn lân ai peidio) neu eu cadw at ddefnydd personol parhaus y cwsmer. Gall bwytai a mannau gwerthu bwyd dreialu'r cysyniad am dri mis, er mwyn mesur ymatebion cwsmeriaid cyn ymrwymo. Fel arfer, mae'r bwytai sy'n cymryd rhan yn cynnig y gwasanaeth am ddim i gwsmeriaid, heb ychwanegu costau gwasanaeth ychwanegol i'r trafodyn. Pan fyddant yn gwneud hyn a hefyd yn codi tâl am eitemau tafladwy, mae nifer mawr o gwsmeriaid yn cymryd rhan.

Er bod momentwm y tu ôl i'r cysyniad, mae reCIRCLE wedi dod ar draws llawer o fwytai nad ydynt yn fodlon dod yn rhan o'r rhaglen, a briodolir i'r anawsterau i newid meddylfryd 'busnes fel arfer,[26] a hynny er gwaethaf y ffaith y gall bwytai sy'n cymryd rhan yn y cynllun wneud arbedion o bosibl, drwy osgoi costau cynwysyddion tafladwy sy'n costio rhwng 7 ac 80 cent (5 i 61c). Mae reCIRCLE yn amcangyfrif y gall bwyty sy'n defnyddio 10 reBOX y dydd arbed 520 CHF y flwyddyn (£398) ar gostau pacio a gwneud arbedion ychwanegol drwy leihau




1: Rhwydwaith partneriaid cenedlaethol reCIRCLE - Ffvnhonnell: 25

Y ddelwedd hon: Cwpanau amldro gan recup.de

(De) Rhwydwaith partneriaid cenedlaethol RECUP

gwastraff.[27] Ni nodwyd bod cost yr ernes yn rhwystr yn y Swistir, ond os caiff y cysyniad ei drosglwyddo'n rhyngwladol, byddai angen ei adolygu.

Cefnogwyd reCIRCLE gan fwrdeistrefi yn y Swistir, a fu'n bwysig o ran tyfu a sefydlu'r fenter. Mae'r gefnogaeth hon wedi bod ar ffurf allgymorth i fwytai lleol, defnyddio'r blychau reBOX mewn digwyddiadau cyhoeddus a'u rhoi i gyflogeion. Mae ystyriaethau yn mynd rhagddynt o ran ymyriadau polisi a allai helpu i sicrhau tegwch rhwng blychau tafladwy a blychau reBOX. Mae'r arfer wedi ei hen wreiddio o ddefnyddio cynwysyddion tafladwy wedi bod yn rhwystr sylweddol i reCIRCLE, sydd am ddim i gwsmeriaid ac yn rhad i fwytai. Mae cynnydd reCIRCLE hyd yma wedi amlygu parodrwydd y cyhoedd i osgoi cynwysyddion untro ond, er mwyn sicrhau twf yn y dyfodol, bydd angen cydweithrediad mwy cydlynus rhwng awdurdodau, bwytai a chwsmeriaid.

Mae cysondeb y cam gweithredu hwn â'r economi gylchol ac egwyddorion defnyddio adnoddau'n effeithlon yn cefnogi'n gryf nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015. Mae'r effeithiau ar leihau gwastraff hefyd yn gyson â Dangosydd 15 y Nodau Llesiant a Datblygu Cynaliadwy – "*Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen*", ond o ran gwastraff trefol yn hytrach na gwastraff cartref, sef y ffordd y caiff y dangosydd ei fesur. Os bydd y cynllun yn dod yn rhywbeth sydd ar gael yn eang, gellid disgwyl iddo gyfrannu at y gwaith o leihau sbwriel môr yn unol â nodau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Hefyd, gellid ystyried bod unrhyw gynllun sy'n cynnwys ernesau ac ailddefnydd yn cyfrannu at gam gweithredu 83 RAP OSPAR:

*"83. Supporting/initiating community/business-based producer responsibility schemes or deposit systems (…)"*

**Gwefan: http://www.recircle.ch**

## Ffynhonnau Yfed Copenhagen

Mae Copenhagen yn anelu at ddod yn brifddinas hinsawdd-niwtral gyntaf y byd erbyn 2025, ac mae'n ystyried nifer o ffyrdd o dorri allyriadau. Mae lleihau llifau gwastraff yn elfen bwysig i'r ddinas, er mwyn osgoi'r carbon ymgorfforedig mewn cynhyrchion a'r ynni sydd ei angen i brosesu a gwaredu gwastraff. Drwy leihau gwastraff, mae'r ddinas yn arddel prif egwyddor yr economi gylchol, ac yn lleihau'r risg y bydd gwastraff yn mynd i mewn i'r amgylchedd ar yr un pryd.

Ffurfiodd y fwrdeistref a'r cyfleustod dŵr, HOFOR, bartneriaeth i osod rhwydwaith o 60 o ffynhonnau yfed yn y ddinas yn 2015[28], gan helpu i osgoi'r angen ymhlith ymwelwyr a thrigolion i brynu poteli dŵr untro pan fyddant yng nghanol y ddinas. Mae'r ynni sydd ei angen i gyrchu un litr o ddŵr potel, ei boteli a'i gludo yn cyfateb i 0.1 kg $CO_2$ o gymharu â 0.0002 kg $CO_2$ ar gyfer dŵr tap. Mae dŵr potel hefyd yn costio tua 500 gwaith yn fwy.[29] Byddai dadansoddiadau cost a budd o'r ffynhonnau yn rhoi gwybodaeth werthfawr am gostau gosod a chynnal ffynhonnau o'u cymharu â manteision lleihau gwastraff a darparu gwasanaeth cyhoeddus.

Er bod ffynhonnau yfed yn cael eu hyrwyddo fel modd i leihau plastigion untro, mae effeithiau'r ymyriad yn rhai cymhleth i'w mesur, ac nid oes unrhyw astudiaeth hyd yma wedi amcangyfrif faint o boteli a osgoir. Fodd bynnag, cydnabyddir, wrth osod ffynhonnau yfed, y dylid hefyd gynnal ymgyrchoedd gwybodaeth i gynyddu ymwybyddiaeth ac annog pobl i'w defnyddio er mwy cael yr effaith orau bosibl.[30] Mae ffynhonnau yn cynnig manteision ychwanegol anuniongyrchol sy'n gysylltiedig ag iechyd y cyhoedd, wrth i bobl osgoi yfed diodydd meddal llawn caloriau a gallu cynnal lefelau hydradu yn ystod tywydd cynhesach.[31] Mae hyn yn golygu ei fod yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn sawl ffordd, o ran iechyd (e.e. drwy gyfrannu'n gadarnhaol at ddangosyddion ynglŷn ag ymddygiadau ffyrdd o fyw iach oedolion a phlant a dangosyddion ynglŷn â disgwyliad oes a chydraddoldeb rhwng yr aelodau lleiaf a mwyaf difreintiedig o'r boblogaeth) a lleihau gwastraff. Yn aml, poteli a chapiau yw'r eitemau a welir fwyaf mewn sbwriel afon a sbwriel môr. Felly, pe bai niferoedd mawr yn dod yn rhan o fenter o'r fath dylai gyfrannu'n hawdd at nodau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol ynglŷn â lleihau sbwriel. Mae'r potensial i leihau gwastraff a gynhyrchir yn cyd-fynd â nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015, sef defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff fel rhan o'r newid tuag at economi gylchol.

Ffynhonnell: Wikimedia (2008)[32]



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

**Gwefan:** https://www.hofor.dk

## Gwaharddiadau ar Smygu ar Draethau yn Ewrop

Ledled y byd, mae awdurdodau ar wahanol raddfeydd wedi gwahardd smygu ar draethau a allai arwain at sefyllfa lle mae llai o fonau sigaréts yn cael eu colli a'u cludo i mewn i'r amgylchedd morol. Er y dywedir yn aml mai'r prif gymhelliant yw gwella ansawdd aer er mwyn diogelu iechyd neu wella atyniad esthetig amgylchedd y traeth, nodir yn aml hefyd fod lleihau sbwriel, a thrwy hynny ddiogelu'r amgylchedd morol, hefyd yn un o fanteision y gwaharddiadau.

Yn yr Eidal, fel rhan o'i hymgyrch "Anadlwch Aer y Môr', cyflwynodd cyrchfan Bibione waharddiad gorfodol yn 2018 sy'n dwyn dirwy o €50 o leiaf os caiff ei dorri. Cynhaliwyd treialon dros bedair blynedd rhwng 2014 a 2018. Yn ystod y cyfnod hwnnw, roedd gwaharddiad rhannol ar waith a chasglwyd 550,000 o fonion sigaréts ar y traeth i ddangos yr effaith gadarnhaol y gallai gwaharddiad parhaol ei chael.[33] Ym mis Chwefror 2018, cyflwynodd Adran Adnoddau Morol ac Arfordirol Gwlad Thai waharddiad ar smygu ar 25 o draethau a oedd yn dwyn dirwy o 100,000 baht (£2,444) neu ddedfryd o garchar am flwyddyn pe bai'n cael ei dorri.[34] Mae gwaharddiadau smygu wedi bod yn weithredol ar amrywiol draethau yn yr UD ers i'r gwaharddiad cyntaf gael ei gyflwyno ar Draeth Bae Hanuama yn Hawaii yn 1993 a dywedwyd yn anecdotaidd ei fod wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn sbwriel bonau sigaréts.

Mae'n werth nodi bod tri gwaharddiad wedi cael ei gyflwyno yng Nghymru; y cyntaf ar draeth Aber Bach gan Gyngor Sir Penfro ym mis Mawrth 2016 a gefnogwyd gan ysgolion lleol ac ASH (Gweithredu ar Smygu ac Iechyd) Cymru, ac wedyn waharddiadau gan Gyngor Abertawe ar Draeth Caswell ym mis Ebrill 2016 a Bae Langland ym mis Gorffennaf 2018. Yn wahanol i waharddiadau rhyngwladol tebyg, mae'r gwaharddiadau yng Nghymru yn rhai gwirfoddol ac nid oes unrhyw gosb am beidio â chydymffurfio am fod gwely'r môr yn eiddo i Ystad y Goron ac felly nid oes gan y cynghorau y pŵer angenrheidiol i orfodi gwaharddiadau gorfodol.[35] Er gwaethaf hyn, mewn arolygon arferol o sbwriel a gynhaliwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ni nodwyd unrhyw sbwriel a oedd yn gysylltiedig â smygu ar Draeth Aber Bach ym mis Mawrth 2017, flwyddyn ar ôl i'r gwaharddiad gwirfoddol ddod i rym.[36]

## Break Free from Plastic

Mae Break Free from Plastic, y cyfeirir ato fel arfer ar ffurf hashnod #breakfreefromplastic, wedi tyfu'n fudiad byd-eang o 1,475 o sefydliadau a 6,118 o unigolion[37] Ers ei lansio yn 2016 mae wedi tyfu'n gyflym ac mae aelodau bellach yn amrywio o gorfforaethau byd-eang i grwpiau cymunedol, sydd wedi dod ynghyd i ymrwymo i leihau dibyniaeth ar blastigion untro a mynd i'r afael ag anghyfiawnderau amgylcheddol a chymdeithasol sy'n deillio o'n cyd-ddibyniaeth.




*Delwedd: Ffynnon yfed yn Copenhagen*



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Gweledigaeth gytûn yr aelodau yw datgysylltu'r economi fyd-eang oddi wrth orddibyniaeth ar blastig ac atal plastigion rhag mynd i mewn i ecosystemau o dan egwyddorion cyfiawnder amgylcheddol, cyfiawnder cymdeithasol, iechyd y cyhoedd a hawliau dynol. Mae'r weledigaeth hon wedi'i hategu gan nod cyffredin sy'n cyflwyno camau gweithredu a thargedau gwirioneddol.




*2: Nod Cyffredin Break Free from Plastic / Ffynhonnell: Break Free from Plastic)*[38]

Drwy greu llwyfan, mae Break Free from Plastic yn galluogi sefydliadau, grwpiau ac unigolion i gyfuno eu lleisiau a'u gofynion dros newid ar raddfa fyd-eang. Mae pobl sy'n sicrhau newid, llunwyr polisïau ac arbenigwyr yn cael eu dwyn ynghyd i ysgrifennu adroddiadau ac eitemau newyddion ar ran Break Free from Plastic, gan ei helpu i hyrwyddo'r agenda i leihau plastig.




Poster gwrthsmygu o Aber Bach.
Ffotograff: Wales News Service Ltd.

Mae'r sefydliad yn darparu amrywiaeth o gyhoeddiadau ac eitemau newyddion sy'n helpu i gefnogi polisïau, yn ogystal â rhoi mynediad at rwydwaith mawr o sefydliadau sy'n rhan o'r mudiad. Gallai hyn fod yn adnodd defnyddiol o bosibl i Lywodraeth Cymru o ran dod o hyd i arbenigwyr a sefydliadau partner rhanbarthol.

Byddai hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i gyflawni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn y ffyrdd canlynol: drwy helpu i leihau math o lygredd (sbwriel plastig) a all fod yn drawsffiniol, yn ogystal â rhoi llwyfan i Gymru gymryd rhan mewn mudiad byd-eang i fynd i'r afael â hyn, byddai Cymru yn ysgwyddo ei chyfrifoldebau i'r byd. Bydd unrhyw fanteision o ran sbwriel môr yn cyfrannu at nod Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i gyflawni statws 'dim niwed' yn cael ei achosi i'r amgylchedd morol ac arfordirol gan sbwriel môr.

**Gwefan:** [https://www.breakfreefromplastic.org/](https://www.breakfreefromplastic.org/)

## Cefnforoedd Nordig Glân

Cydweithrediad rhwng Cyfarwyddiaeth Pysgodfeydd Norwy, Sefydliad Adnoddau Dyfrol Cenedlaethol Denmarc (ym Mhrifysgol Dechnegol Denmarc) ac Asiantaeth Rheoli Môr a Dŵr Sweden yw Cefnforoedd Nordig Glân. Dechreuodd y fenter yn 2017 a bwriedir iddi redeg am dair blynedd hyd at 2019. Mae wedi ffurfio rhwydwaith o sefydliadau sy'n cynrychioli gwledydd yn y rhanbarth Nordig, sy'n cynnwys y Ffindir, Gwlad yr Iâ, yr Ynys Las ac Ynysoedd Faroe, yn ogystal â gwledydd y prif bartneriaid. Mae'r partneriaid yn cynnwys gweinyddiaethau llywodraethau, arolygiaethau pysgodfeydd, cymdeithasau pysgotwyr, cymdeithasau pysgota hamdden, cynghorau cynghorol pysgodfeydd,[39] cynghorau cynghori bwyd y môr, gweithredwyr cychod pysgota, cyflenwyr offer pysgota, cwmnïau technoleg forol, sefydliadau anllywodraethol, cwmnïau ailgylchu rhwydi pysgota, contractwyr gwastraff, KIMO (Bwrdeistrefi o blaid Moroedd Cynaliadwy), sefydliadau ymchwil forol, sefydliadau arloesedd, prifysgolion ac ymgynghorwyr amgylcheddol. Darperir cyllid gan Gyngor Nordig y Gweinidogion.

Diben y rhwydwaith yw cyfnewid gwybodaeth a phrofiad o ddulliau a mesurau i leihau effeithiau pysgota anfwriadol, sbwriel yn y cefnforoedd a chynyddu faint o ddeunyddiau a ailgychir o bysgota masnachol a hamdden.[40] Ei brif weithgarwch yw casglu hen offer pysgota.

Mae'r rhwydwaith yn cyhoeddi erthyglau newyddion ar weithgareddau aelodau o'r grŵp ar-lein ac yn trefnu cyfarfodydd i'r aelodau drafod a rhannu profiadau.

Mae offer pysgota gadawedig, coll neu ddrylliedig (defnyddir y talfyriad ALDFG yn Saesneg neu, yn aml, DFG yn unig) yn aros yn yr amgylchedd morol a gall ddal bywyd gwyllt am flynyddoedd lawer – a elwir yn bysgota anfwriadol. Er mwyn lleihau effaith pysgota anfwriadol, mae nifer o grwpiau yn Ewrop ac yn fyd-eang wedi archwilio sut y gellir casglu hen offer. Fel arfer, mae'r prosiectau hyn yn defnyddio cychod wedi'u llogi'n arbennig a threillrwydi, plymiadau neu gyfarpar arbennig i gasglu rhwydi coll. Mae casglu hen offer yn tueddu i ganolbwyntio ar fannau gwael ar wely'r cefnfor a bennir drwy waith mapio ymlaen llaw a/neu weithgarwch adrodd. Gellir targedu safleoedd â blaenoriaeth, megis Safleoedd Morol Ewropeaidd neu rifau, llongddrylliadau a mannau pwysig eraill. Gellir cael effaith sylweddol ar lefelau sbwriel yn yr ardal a dargedir, ond mae'r canlyniadau wedi'u cyfyngu i'r ardal hon. Yna, caiff yr offer ei gludo i'r lan at ddibenion ailgychu neu waredu. Mae offer drylliedig yn codi heriau penodol o ran gwaredu oherwydd, fel arfer, mae'n rhy halogedig o ganlyniad i ddeunydd biolegol i'w ailgylchu drwy lwybrau ailgylchu presennol ar gyfer offer diwedd oes. Mae'n bosibl y caiff swm a lleoliad y deunydd a gasglwyd eu cofnodi hefyd fel rhan o ymdrech i fonitro.

O fewn grŵp Cefnforoedd Nordig Glân, mae sawl menter flaenllaw o'r fath.

Mewn un enghraifft, mae Llywodraeth Norwy yn trefnu arolygon blynyddol o gasglu hen offer, gan fapio mannau gwael a llogi cwch pysgota i gasglu'r hen offer.[41],[42] Mae'n ofynnol rhoi gwybod am offer coll yn Norwy a defnyddir y wybodaeth i gynllunio'r gwaith casglu hen offer, yn ogystal â mapio gweithgarwch pysgota. Rhwng 1983-2016, casglwyd tua 20,000 o rwydi cragen (560km i gyd). Casglodd proisiect Norwy, am gost flynyddol o 3,600,000NOK (€490,612), tua 1,100 o rwydi yn 2011, h.y. cost o tua €446 fesul rhwyd. Ariennir hyn gan Lywodraeth Norwy.



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Caiff partner gweithredol arall, sef prosiect Baltig MARELITT, ei ariannu gan Raglen Rhanbarth Môr Baltig Interreg 2014-2020 o Gronfa Datblygu Rhanbarthol yr Undeb Ewropeaidd o 2016-2019, gyda chyfanswm o €3.8m, ac mae wedi bod yn ymgymryd â rhaglen waith o gynlluniau peilot ac ymchwil i gasglu hen offer a hefyd lwybrau ailgylchu. Mae'r partneriaid yn cynnwys:

- Bwrdeistref Simrishamn, Partner arweiniol (SE)
- Cadwch Fôr Estonia yn Daclus
- Sefydliad Gwlad Pwyl WWF
- WWF yr Almaen
- Cadwch Sweden yn Daclus
- Prifysgol Forol Szczecin
- Grŵp Cynhyrchwyr Pysgod Kolobrzeg
- Sefydliad Logisteg a Warysau
- Cymdeithas Plymwyr Estonia

*Delwedd: Logo Cefnforoedd Nordig Glân*

Mae wedi ymchwilio i ddulliau o fapio a chasglu hen offer ac wedi'u treialu. Mae'n cyhoeddi canllawiau ar atal colli offer a chasglu hen offer ac wedi cynnal ymchwil a chynlluniau peilot ar y ffordd y gellir casglu ac ailgylchu hen offer a'r costau cysylltiedig. Mae'r ffrydiau gwaith hyn yn rhoi gwybodaeth werthfawr i'r rhai sy'n ystyried cynnal cynlluniau casglu hen offer yn y dyfodol.

Un pwynt ychwanegol i'w nodi yw bod cyllid ar gael ar gyfer cynlluniau casglu hen offer (yn ogystal â chynlluniau pysgota am sbwriel) drwy Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF). Nodwyd, o'r 22m EUR sydd ar gael i helpu i sefydlu cynlluniau Pysgota am Sbwriel yn yr UE, mai dim ond 0.5m sydd wedi cael ei ddefnyddio oherwydd diffyg ceisiadau gan Aelod-wladwriaethau.[43]

Mae rhywfaint o bryder ynglŷn â'r difrod amgylcheddol a all gael ei achosi i gynefinoedd drwy gasglu rhwydi coll; gall hyn hefyd amlygu'r nodweddion a ddaliodd y rhwyd o'r newydd, gan arwain at golli rhwydi eraill. Mewn rhai achosion, gall fod yn well hyd yn oed gadael y rhwydi yn y fan a'r lle. Fodd bynnag, os yw'r offer yn gwneud niwed i'r cynefin drwy fod yno, yna gall ei dynnu arwain at amodau mwy ffafriol i fflora a ffawna ffynnu a gall arwain at gynyddu stociau pysgod o bosibl. Mae'n debyg mai prosiectau wedi'u targedu fydd y rhai mwyaf costeffeithiol a gellir eu cefnogi drwy fesurau sy'n helpu i ddod o hyd i offer coll megis cael mwy o gychod pysgota i roi gwybod am offer coll a rhannu gwybodaeth arolygon a gwaith mapio. Gall materion sy'n gysylltiedig ag adnoddau ac awdurdodaeth hefyd rwystro'r broses o roi gwybod am sbwriel môr a'i gasglu'n gyflym. Yn yr un modd, gall cyfyngiadau cyfreithiol ar gasglu gweddillion morol ac eithrio gan y perchennog cyfreithiol fod yn rhwystr i weithrediadau casglu. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys cyfreithiau ynglŷn â difrodi, gofynion ardystio beichus ar gyfer cychod sy'n cludo hen offer, a rheoliadau pysgodfeydd sy'n gwahardd cychod rhag cludo mathau o offer nad oes ganddynt drwydded ar eu cyfer.[44] Bydd dulliau monitro a chofnodi safonol ar gyfer y gwastraff a gesglir, a hyfforddiant ar gynnal y gweithgareddau hyn, yn helpu i'w gwneud yn bosibl i ganlyniadau gael eu cymharu a'u cyfuno â chanlyniadau prosiectau tebyg. Os bydd amcangyfrifon rhanbarthol cywir ar gyfer stoc neu fewnlif ar gael yn y dyfodol, gellir defnyddio'r canlyniadau i gadarnhau cyfaniad y mesur tuag at dargedau lleihau sbwriel môr. Mae'n bwysig nodi bod rhai astudiaethau wedi awgrymu na fydd gweithgareddau casglu hen offer yn gallu casglu offer drylliedig ar gyfradd ddigonol i sicrhau gostyngiad yn y lefelau o offer gadawedig, yn enwedig o ystyried bod cost uchel gweithgareddau o'r fath yn cyfyngu ar y graddau y gellir eu cyflawni. Er enghraifft, mae dwy astudiaeth achos a adolygwyd gan brosiect MARELITT wedi arwain at amcangyfrif y byddai angen ymdrech 930 diwrnod cwch er mwyn casglu'r 165 o rwydi cragen sy'n cael eu colli bob blwyddyn, yn ôl y dybiaeth, gan gychod Sweden.[45] Yn yr achos hwn, nid oedd y gweithgareddau casglu hen offer yn gallu gwrthdroi'r mewnlif presennol o sbwriel, heb sôn am leihau cyfanswm y sbwriel coll, a dim ond ei leihau ac arafu ei dwf y gellid ei wneud. Felly, mae'n bwysig sicrhau hyd y gellir fod camau gweithredu casglu mor effeithlon â phosibl, a hefyd ddeall eu rôl o ran ymgysylltu a chodi ymwybyddiaeth yn ogystal â lleihau niwed yn yr amgylchedd morol, sy'n ychwanegu'n sylweddol at fuddiannau camau gweithredu o'r fath.

Byddai mentrau casglu hen offer yn cefnogi targed Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i leihau sbwriel môr a Dangosyddion Cenedlaethol 43 a 44 cysylltiedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, h.y. '*Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru*' a '*Statws amrywiaeth Fiolegol yng Nghymru*' drwy leihau



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

pysgota anfwriadol, ac adfywio cynefin môr-waelodol o bosibl. Mae casglu hen offer wedi'i gynnwys yn RAP OSPAR, Camau Gweithredu 55, 56 a 57:

*“55. ….Reduction of abandoned, lost and otherwise discarded fi_shing gear (ALDFG)*

*56. Identify hot spot areas through mapping of snagging sites or historic dumping grounds working with other initiatives, research programmes and with fishing organisations.*

*57. Develop a risk assessment for identifying where accumulations of ghost nets pose a threat to the environment and should be removed.”*

**Gwefannau:** http://cnogear.org, https://www.marelittbaltic.eu/ a https://www.fiskeridir.no/English/Fisheries/Retrieval-surveys-for-lost-gill-nets.

## Prosiect Mewnbwn Afonol Surfrider

Yn 2013, lansiodd Sefydliad Surfrider Ewrop, sy'n sefydliad anllywodraethol, y Prosiect Mewnbwn Afonol, gyda'r nod o lunio a gweithredu protocol gwyddonol ar fesur a nodi gwastraff ar raddfa basn draenio er mwyn gwella ein dealltwriaeth o lwybrau sbwriel môr a'i ffynonellau.[46] Ariannwyd amrywiol agweddau ar y prosiect gan offeryn ariannol EU LIFE+, Rhaglen Dŵr HSBC a Gweinyddiaeth yr Amgylchedd Llywodraeth Ffrainc a'r Direction Interrégionale de la Mer Sud-Atlantique. Roedd i'r prosiect ddau gam allweddol.

Yn ystod y cam cyntaf, datblygwyd y fethodoleg ar gyfer nodi a mesur gwastraff dyfrol a oedd yn cynnwys creu grid dosbarthu ar gyfer hyd at 140 o fathau o wastraff wedi'u rhannu'n 13 o gategorïau. Yn ystod yr ail gam, pennwyd ardal i gymhwyso'r dull newydd ei ddatblygu a nodwyd safleoedd samplu penodol. Dewiswyd gwahanfa ddŵr Adour yn ne-orllewin Ffrainc oherwydd:

- mae'n gartref i amrywiaeth eang o ddiwydiannau a gweithgareddau dynol eraill;
- roedd cryn dipyn o sbwriel wedi cronni yn aber Adour;
- roedd yn agos i bencadlys Ewropeaidd Sefydliad Surfrider a oedd yn ei gwneud yn bosibl i gymryd samplau rheolaidd a mynych.

Cymerodd tîm yr astudiaeth 278 o samplau sbwriel i gyd rhwng mis Mawrth 2014 a mis Awst 2017, gan gasglu bron tunnell o sbwriel (120,632 o eitemau) a gafodd eu didoli yn ôl y dull categoreiddio a'u cyfrif. Roedd prif ganfyddiadau'r dadansoddiad fel a ganlyn:[47]

- roedd y sbwriel a gasglwyd yn fewndirol ac ar y traeth wedi'i wneud o ddeunyddiau tebyg iawn, a oedd yn awgrymu cyfraniad pwysig afonydd i lygredd sbwriel cefnfor;
- polymerau artiffisial oedd y prif ddeunydd a gasglwyd ar lannau'r afon a'r traeth a astudiwyd;
- deunydd pacio bwyd a diod oedd yr eitemau a gasglwyd fwyaf, gan gyfrannu dros chwarter cyfanswm y llygredd sbwriel yn nalgylch Adour;
- roedd natur gweithgareddau dynol cyfagos yn dylanwadu'n fawr ar natur y sbwriel a welwyd ar lannau'r afon;
- roedd sbwriel wedi cronni rhwng tarddle ac aber yr afon, gan awgrymu y gallai camau gweithredu yn erbyn sbwriel dyfrol y gellid eu datblygu i fyny'r afon o'r dalgylch fod yn effeithiol o ran lleihau faint o sbwriel sy'n mynd i'r cefnforoedd.

Oherwydd natur arloesol y protocol samplu hwn a ddatblygwyd fel rhan o'r prosiect hwn, penderfynodd y Comisiwn Ewropeaidd ei integreiddio â Chyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol. Mae'r tîm Mewnbwn Afonol bellach yn cyflwyno'r cynnydd a chanlyniadau'r protocol i aelodau'r Comisiwn Ewropeaidd bob chwe mis.[48] Cyhoeddwyd canfyddiadau'r astudiaeth yn y *Journal of Marine Science and Engineering* ym mis Mawrth 2018[49] a lluniodd Sefydliad Surfrider wefan amlgyfryngol ddiddorol hefyd ar gyfer yr astudiaeth er mwyn hysbysu'r cyhoedd am y prif ganfyddiadau.

**Gwefan: www.surfrider.eu**



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Pysgota am Sbwriel

Yn ystod gweithgarwch pysgota arferol gall sbwriel môr gael ei gludo i'r lan ar gychod pysgota. Er enghraifft, gall treillrwydi ddal ychydig o sbwriel y bydd angen ei dynnu o'r rhwyd cyn y gellir ei ailfwrw. Mae prosiectau cadw sbwriel yn ei gwneud hi'n haws i gychod storio'r sbwriel hwn ar y cwch a'i ddychwelyd i'r lan i'w brosesu'n briodol. Fel arfer, mae prosiectau yn rhoi sachau i bysgotwyr y gellir eu defnyddio i storio'r sbwriel ar y cwch ac yna maent yn cludo ac yn prosesu'r sbwriel ar ôl iddo gyrraedd y lan. Un o'r prosiectau mwyaf blaenllaw o'r fath yw prosiect "Pysgota am Sbwriel" KIMO International. Mae wedi bod yn weithredol ers 2004. Fe'i cynhelir yn yr Alban a gweddill y DU, yr Iseldiroedd, Gwlad Belg, Ynysoedd Faroe, Iwerddon, Norwy, yr Almaen a Sbaen. Rhwng 2005 a 2008, casglodd y prosiect yn yr Alban 117 o dunelli o sbwriel am gost o 2,600 €/T.[50] Cadwodd 241 o dunelli dros dair blynedd yn dechrau ym mis Ebrill 2008 am gost o 1,000 €/T o sbwriel môr a gasglwyd. Yn 2011-2014, mae'r prosiect wedi cludo 375 o dunelli o offer i'r lan am gost o €846/t.[51] Mae hyn yn dangos sut y sicrhawyd arbedion effeithlonrwydd gweithredol ac arbedion maint dros amser. Yn 2016-2017, casglwyd 470 o dunelli o sbwriel gan yr holl wledydd a oedd yn cymryd rhan. [52] Mae cadw sbwriel yn llai costus y dunnell na chasglu hen offer am fod cost y teithiau i gasglu'r sbwriel yn rhan o'r gweithrediadau pysgota sydd eisoes yn digwydd ac, mewn cymhariaeth, nid oes angen fawr ddim ymdrech weithredol i'w gasglu, os o gwbl.

Pysgotwyr a pherchenogion cychod pysgota yw'r prif weithredwyr yn y mesur hwn, a hwylusir gan KIMO (sy'n darparu'r ysgrifenyddiaeth, yn annog pobl i gymryd rhan ac ymgysylltu ac yn cydlynu'r prosiect yn gyffredinol) a'r awdurdodau lleol sy'n aelodau (sy'n helpu i drefnu prosesau gwaredu os oes angen). Mae astudiaethau achos yn cyfeirio at effaith cael pysgotwyr i waredu gweddillion morol yn uniongyrchol ar atal sbwriel, ond nid yw'r effaith hon wedi cael ei mesur.

*3: Ffynhonnell: KIMO*

Mae maint yr effeithiau yn dibynnu ar nifer y cychod pysgota sy'n cymryd rhan yn y mesur. Credir y gallai 500 o gychod yn cymryd rhan yng nghynllun pysgota am sbwriel OSPAR ddod â tua 2,000 o dunelli y flwyddyn i'r lan.[53] Mae hyn ond yn gyfran fach o'r amcangyfrifon o fewnbwn sbwriel môr y flwyddyn (tua 100,000 o dunelli y flwyddyn o ffynonellau ar y tir yn yr UE,[54] ond mae amcangyfrifon yn amrywio'n enfawr ar hyn o bryd, gyda rhai yn sôn am ddegau o filoedd o dunelli). Sut bynnag, mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar lefel cyfanswm gweddillion morol, ond mae'n amlwg yn syniad da i bysgotwyr gadw unrhyw weddillion a ddelir ganddynt os oes modd gwneud hynny mewn modd cymharol gost isel.

Camau gweithredu Pysgota am Sbwriel sy'n cyfrannu'n fwyaf uniongyrchol at darged Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i leihau sbwriel môr a Dangosyddion Cenedlaethol cysylltiedig Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Dangosydd Cenedlaethol 43 *'Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru'* drwy leihau gwastraff yn yr amgylchedd. Mae hefyd yn cyfrannu at Gamau Gweithredu 53, 54 a 55 RAP OSPAR:

*"53. Strengthen the existing OSPAR Recommendation 2010/19 on the reduction of marine litter through implementation of fishing for litter initiatives, including by reviewing the option that any vessel involved in the scheme can land non-operational waste at participating harbours in OSPAR countries.*

*54. Establish an exchange platform on experiences on good cleaning practices in beaches, riverbanks, pelagic and surface sea areas, ports and inland waterways. Develop best practi_ce on environmentally friendly technologies and methods for cleaning.*

*55. Develop sub-regional or regional maps of hotspots of floating litter, based on mapping of circulation of floating masses of marine litter, and identification of hotspots of accumulation on coastal areas and the role of prevailing currents and winds [….]"*

**Gwefan:** **http://fishingforlitter.org/**

## Ailgylchu Offer Pysgota

Yn ogystal â phrosiect Baltig MARELITT sy'n ymchwilio i ddulliau o ailgylchu offer pysgota, mae dwy system yn bodoli ar gyfer casglu ac ailgylchu offer pysgota a dyframaethu yn Ewrop, yng Ngwlad yr Iâ a Norwy; mae'r naill a'r llall yn cyflenwi offer diwedd oes sydd wedi'u didoli a'u glanhau ymlaen llaw i'r rhwydwaith (sy'n fach ar hyn o bryd) o weithredwyr sy'n ailbrosesu'r deunydd o gynlluniau casglu offer pysgota. Yn ddiweddar,


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

ystyriodd y grŵp yn Norwy a ddylai ymestyn ei weithredoedd casglu ac ailgylchu i wledydd Ewropeaidd eraill gyda chymorth arian yr UE.

Sefydlwyd prosiect NoFir yn 2008 i gasglu ac ailgylchu offer pysgota gadawedig yn Norwy. Mae'n rhaid i rwydi gael eu golchi a'u diheintio cyn eu casglu, fel arfer mewn porthladd; gellir mynd â mathau eraill o offer fel y maent. Caiff yr offer pysgota a dyframaethu gwastraff ei gasglu yn Norwy ac yna'i anfon i ffatrïoedd yn Lithwania neu Dwrci i'w datgysylltu; yna caiff ei ailgylchu mewn cyfleusterau yn yr UE neu Asia, yn dibynnu ar y math o ddeunydd dan sylw, e.e. mae cyfleusterau Aquafil yn Slofenia yn prosesu neilon. Caiff rhwydi eu rhoi am ddim neu mewn rhai achosion telir amdanynt os yw'r deunydd yn ddigon gwerthfawr. Mae'r pris a delir hefyd yn dibynnu ar gost cludiant, a delir gan NoFir yn y rhan fwyaf o achosion. Mae gan y darnau sy'n cynnwys neilon neu fetelau werth ar y farchnad i'r cwmni ac o ran yr offer a gesglir, neilon yw'r rhan fwyaf ohono. Mae'r prosiect wedi bod yn gwneud elw (€430,000 cyn treth yn 2014) ond mae'n dibynnu ar fynediad at lafur cost is yn Lithwania a Thwrci.[55] Derbynnir eitemau proffidiol ac eitemau nad ydynt yn broffidiol er mwyn gwahaniaethu'r sefydliad oddi wrth ei gystadleuwyr sy'n gwrthod mathau penodol o wastraff ac am fod perchenogion y cwmni yn cydnabod y buddiannau amgylcheddol. Mae'r sefydliad yn derbyn mwy o ddeunydd gan gyflenwyr bach a fyddai fel arall yn cael anhawster gwaredu gwastraff yn gywir. Gall NoFir gynnig arbedion sylweddol i weithredwyr o'r fath gan y byddai rhwyd 20 T mawr yn costio tua €5,600 i'w dirlenwi a €1,400 i'w gludo.[56]

Cafodd sefydliad NoFir arian gan yr UE (€680k) o dan y Rhaglen Eco-Arloesedd i ymestyn ei weithrediadau i Aelod-wladwriaethau, a gelwir y prosiect yn EUfir.[57] Roedd ymestyn y prosiect i wledydd yr UE yn fwy anodd na'r disgwyl oherwydd tunelli isel a chostau cludo uchel. Mae diwydiant pysgota a ffermio pysgod mawr yn Norwy ac felly caiff llawer o wastraff ei gynhyrchu mewn ardal gymharol fach. Mae'r diwydiant yn fwy gwasgaredig yn yr UE, sy'n gwneud costau casglu y dunnell yn uwch. Sefydlwyd cyfleusterau datgysylltu rhwydi yn Nhwrci i dderbyn rhwydi o Fôr y Canoldir mewn ymdrech i wella'r logisteg. Hefyd, cynigir cyfuno meintiau bach o rwydi oddi wrth gwsmeriaid gwahanol yn yr un wlad. Canfu'r cwmni hefyd fod mwy o gystadleuaeth oddi wrth lwybrau gwaredu eraill yn lle ailgylchu yn yr UE; roedd y llwybr gwaredu amgen (h.y. tirlenwi) y rhatach nag ydyw yn Norwy lle mae tirlenwi yn costio tua 280 €/t.

Yng Ngwlad yr Iâ, mae offer pysgota wedi'i gynnwys yn y ddeddfwriaeth ar gyfer ffi gwaredu ymlaen llaw o dan Gronfa Ailgylchu Gwlad yr Iâ. Fodd bynnag, nid yw'r system hon yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd gan fod Ffederasiwn Cychod Pysgotwyr Gwlad yr Iâ (LÍÚ) bellach yn rheoli'r gwastraff hwn yn lle defnyddio'r ffi gwaredu ymlaen llaw ac mae'r llywodraeth yn fodlon ar y canlyniadau. Mae LÍÚ yn cael budd o ysgwyddo'r cyfrifoldeb am reoli'r gwastraff hwn am ei fod yn gallu gweithredu'r system yn rhatach na thrwy ffi gwaredu ymlaen llaw y llywodraeth.[58] Mae criwiau yn glanhau ac yn didoli deunyddiau, sef tasg y maent yn gallu ei chyflawni'n hyfedr am eu bod yn gyfarwydd â gwneud hyn wrth gynnal a chadw offer. Mae perchenogion y cychod yn cadw'r arian a gynhyrchir drwy ailgylchu, a rhoddir mwy o arian am ddeunyddiau sydd wedi'u paratoi'n dda, sy'n rhoi cymhelliant i wneud y gwaith i safon uchel. Mae gan y rhan fwyaf o'r gwastraff werth negyddol yng Ngwlad yr Iâ ac felly caiff ei gludo i Ewrop i'w brosesu, ac eithrio papur a phlastig. Mae marchnad agored i gwmnïau ailgychu gystadlu am y deunydd. Y gost i berchenogion cychod, gan gynnwys cludiant, yw tua 68 €/t ar gyfartaledd, sy'n debyg i bris y dull gwaredu blaenorol drwy dirlenwi ond ceir manteision ychwanegol ar ffurf system rheoli gwastraff wedi'i threfnu, clod amgylcheddol i'r diwydiant pysgota a dyframaethu, a'r defnydd o ailgylchu.[59]

Yn y ddwy astudiaeth achos, bu cynnydd sylweddol o ran faint o offer a ailgylchir ond ni wyddys beth yw'r effaith ar offer pysgota gadawedig, coll neu ddrylliedig.

Byddai rhaglenni ailgylchu offer pysgota yn cyfrannu at nodau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 i ddefnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau gwastraff fel rhan o'r newid tuag at economi gylchol. Byddent hefyd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 15 ar gyfer Nodau Llesiant a Datblygu Cynaliadwy – "*Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen*" – ond mae'r dangosydd hwn yn seiliedig ar wastraff cartref ar hyn o bryd ond mynd i'r afael â gwastraff trefol y byddai cynllun o'r fath yn ei wneud. Mae'n bosibl y byddai prosesau casglu ac ailgylchu gwell yn lleihau faint o offer diwedd oes sy'n cael ei daflu, ond nid yw'r effaith wedi cael ei dangos. Byddai hyn yn helpu i gyfrannu at nodau Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol i leihau lefelau sbwriel môr. Byddai rheoli offer pysgota gwastraff hefyd yn cyfrannu at Gamau Gweithredu 35 ac 83 RAP OSPAR:



© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

*“35. Identify the options to address key waste items from the fishing industry and aquaculture, which could contribute to marine litter, including deposit schemes, voluntary agreements and extended producer responsibility.”*

*“83. Supporting/initiating community/business-based producer responsibility schemes or deposit systems, for example on recycling fishing nets.”*

**Gwefannau:** Am ragor o wybodaeth, gweler https://nofir.no/. Mae'r wybodaeth ar wefan Cronfa Ailgylchu Gwlad yr Iâ http://www.urvinnslusjodur.is/ yn Islandeg yn unig. Mae rhagor o wybodaeth ar gael gan Guðlaugur Sverrisson**,** Rheolwr Cynnyrch Rheolwr Gweithrediadau <gudlaugur@urvinnslusjodur.is>.

## YES! Young E Citizens for a Sustainable European Coastline

Cyflwynir y prosiect hwn drwy Raglen Ieuenctid ar Waith yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd pobl ifanc o bob rhan o Ewrop eu dwyn ynghyd ar Gampws Moryd Solway i ddysgu am yr ardal a hyrwyddo cyfleoedd i bobl ifanc chwarae rhan yn y gwaith o godi ymwybyddiaeth o faterion arfordirol Ewropeaidd. Mae sefydliadau o bedair gwlad bartner Ewropeaidd – y DU, Ffrainc, yr Eidal a Gwlad Groeg – yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect YES! i hysbysu aelodau iau o'r cyhoedd Ewropeaidd am heriau amgylcheddol allweddol, effaith newid yn yr hinsawdd a sut y gallant gymryd rhan, a'u hysbrydoli. Nod prosiect YES! yw datblygu fideos, ffotograffiaeth a nodweddion gwefan rhyngweithiol a fydd o ddefnydd ymarferol i Bartneriaeth Moryd Solway. Wrth iddynt ymweld â'r naill ochr a'r llall i afon Solway, cafodd materion amgylcheddol, yn amrywio o foroedd cynhesach a rhywogaethau goresgynnol anfrodorol i erydu nodweddion treftadaeth ar yr arfordir, eu cyflwyno i'r rhai a oedd yn cymryd rhan. Helpodd llawer o sefydliadau ac unigolion i ddatgelu'r amrywiol agweddau ar Foryd Solway, o fywyd gwyllt ym Mhenrhyn Grune, Skinburness, i brosiect adfywio a arweinir gan y gymuned ym Mhenrhyn Galloway.
Cyflwynodd Prifysgol Glasgow weithdy ar ddatblygu ymgyrch farchnata a, gyda chymorth John Wallace, Pile-on Productions, gwnaeth y cyfranogwyr greu byrddau stori a helpu i gynhyrchu tair ffilm fer i hyrwyddo camau gweithredu ar gyfer arfordiroedd Ewrop.

**“If our hopes of building a better and safer world are to become more than wishful thinking, we will need the engagement of volunteers more than ever.”** — Kofi Annan (Cyn-Ysgrifennydd Cyffredinol y CU)



*Delwedd: Dyn yn didoli hen rwydi pysgota. www.nofir.no*

© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

## Mentrau Glanhau Rhyngwladol

### International Coastal Clean Up (ICCU)

Sefydlwyd 'International Coastal Clean Up' (ICCU) yn 1986 ac mae'n cael ei redeg gan Ocean Conservancy sy'n dwyn gwirfoddolwyr o daleithiau a thiriogaethau ym mhob rhan o'r UD a mwy na 100 o wledydd ynghyd bob blwyddyn i gymryd rhan mewn digwyddiad glanhau lleol. Yn ystod y cyfnod hwn, mae dros 12 miliwn o wirfoddolwyr wedi casglu dros 220 miliwn o bwysi o sbwriel môr. Noddir yr ICCU gan nifer o bartneriaid, gan gynnwys Banc America, Sefydliad Coca-Cola, y Weinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol, Grŵp Altria Inc., Sefydliad Cyhoeddus Brunswick, Cox Enterprises Inc., Dow Chemical Company, Sefydliad Forrest C. a Frances H. Lattner, ITW, Sefydliad Martin, Owens-Illinois Inc., Sefydliad Pacific Life, Patagonia, Keep America Beautiful, Project AWARE, Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, Adran Wladol yr UD a Chynghrair y Ceidwaid Dŵr.

Yn draddodiadol, cynhelir digwyddiad glanhau ar y trydydd dydd Sadwrn ym mis Medi bob blwyddyn, ond gall gwirfoddolwyr gynnal neu gymryd rhan mewn digwyddiad glanhau unrhyw bryd yn ystod yr wythnosau tua'r un adeg â'r dyddiad hwnnw er mwyn cyfrif tuag at ymdrech fyd-eang y digwyddiad glanhau blynyddol. Drwy'r defnydd cynyddol o'r cyfryngau cymdeithasol, mae Ocean Conservancy bellach yn caniatáu i wirfoddolwyr lanlwytho data glanhau mewn amser real i gronfa ddata fwyaf y byd ar weddillion morol drwy ei ap, Clean Swell.

Mae'r ICCU yn ymgorffori gweithgarwch glanhau traethau, glanhau afonydd, glanhau cychod a glanhau tanddwr. Yn 2017, teithiodd 3,754 o forwyr 652 o filltiroedd o gefnfor, gan gasglu 68,473 kg o sbwriel môr. Nofiodd tua 5,707 o blymwyr 321 o filltiroedd o ddyfrffyrdd i gasglu 77,137 kg o sbwriel.

Mae'r gallu i gasglu data yn rhanbarthol yn golygu bod modd rhoi data lleol mewn cyd-destun rhyngwladol ehangach.




*Delwedd: Cychod pysgota yn yr harbwr*

© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN digidol 978-1-80082-177-4

**Gwefan:** https://oceanconservancy.org/trash-free-seas/international-coastal-cleanup/

## Rhaglen Gweddillion Morol y Weinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA)

Yn 2006, awdurdododd Cyngres yr UD Raglen Gweddillion Morol y Weinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA) fel arweinydd llywodraeth ffederal ar fynd i'r afael â gweddillion morol. Mae'r rhaglen, sy'n gweithredu ledled yr Unol Daleithiau, yn dwyn asiantaethau taleithiol a lleol, sefydliadau anllywodraethol, y byd academaidd a diwydiant ynghyd. Mae'r rhaglen yn cyflawni ei chenhadaeth drwy bum prif golofn: Casglu, Atal, Ymchwil, Cydlynu Rhanbarthol, ac Ymateb Brys. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig sawl cyfle ariannu cystadleuol cenedlaethol i brosiectau sy'n ymdrin â gweddillion morol. Mae staff y rhaglen wedi'u lleoli ledled y wlad i gefnogi prosiectau a phartneriaethau. Mae'r Pwyllgor Cydlynu Gweddillion Morol Rhyngasiantaethol (IMDCC) yn gorff amlasiantaethol sy'n gyfrifol am symleiddio ymdrechion llywodraeth ffederal i fynd i'r afael â gweddillion morol.
Mae'r 'Prosiect Monitro ac Asesu Gweddillion Morol', neu MDMAP, yn fenter dinasyddion-wyddonwyr sy'n ymgysylltu â phartneriaid NOAA a gwirfoddolwyr ledled y wlad i arolygu a chofnodi faint o weddillion morol sydd ar draethlinau a'r mathau ohonynt. Mae pob partner yn rhwydwaith MDMAP yn dewis safle monitro traethlin gerllaw ac yn mynd yno bob mis i gynnal arolygon ac yn cyflwyno data ystyrlon i Gronfa Ddata Ar-lein MPMAP NOAA. Mae'r holl ddata a gaiff eu lanlwytho i Gronfa Ddata Ar-lein MDMAP ar gael ac yn agored i unrhyw ymdrechion i ddadansoddi data, gan gynnwys unrhyw brosiectau a noddir gan NOAA.

Yn 2018, casglodd y rhaglen 2,4000 o dunelli o sbwriel môr mewn mwy na 330 o safleoedd monitro ac asesu arolwg y prosiect. Cyfrannodd 21 o bartneriaid newydd ddata monitro traethlin at gronfa ddata MPMAP, gan gynnwys safle yn y Bahamas, lle na fu unrhyw safleoedd monitro gan MDMAP gynt. Mae pyrth cydweithio gweddillion morol yn hwyluso'r broses gydlynu ar lefel ranbarthol ymhlith rhanddeiliaid gweddillion morol. Mae'r pyrth hyn yn darparu hwb canolog i sefydliadau lleol rannu gwybodaeth am weddillion morol, megis cyhoeddi digwyddiadau, adnoddau a data, i'r cyhoedd ac i'w gilydd.
Mae Rhaglen Gweddillion Morol NOAA hefyd yn cefnogi'r gwaith o greu cynlluniau gweithredu gweddillion morol strategol ledled yr Unol Daleithiau, sy'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgareddau, gan gynnwys digwyddiadau glanhau traeth, ymchwil, addysg ac allgymorth. Cefnogir y cynlluniau hyn gan amrywiol randdeiliaid yn y llywodraeth, diwydiant ac mewn sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau academaidd. Mae Rhaglen Gweddillion Morol NOAA a Menter Gweddillion Morol De-ddwyrain yr Iwerydd (SEA-MDI) bellach wedi cynhyrchu ap olrhain gweddillion morol sy'n cael ei redeg gan Goleg Peirianneg Prifysgol Georgia. Drwy ddefnyddio'r ap, gall gwirfoddolwyr olrhain a rhestru eitemau o sbwriel unrhyw le yn y wlad – ar yr arfordir, ar y môr neu ar y tir.

**Gwefan:** https://marinedebris.noaa.gov/about-us

## Menter Offer Pysgota Gadawedig Fyd-eang (GGGI)

Sefydlwyd y fenter hon gan Sefydliad Diogelu Anifeiliaid y Byd ym mis Medi 2015. Cynghrair o nifer o randdeiliaid yw'r fenter, a'i nod yw dod o hyd i atebion i'r problemau a achosir gan offer pysgota gadawedig. Hon yw'r fenter gyntaf i fynd i'r afael ag offer pysgota gadawedig ar raddfa fyd-eang. Mae'n gweithio'n agos nid yn unig gyda'r diwydiant pysgota ond hefyd gyda'r sector preifat, y byd academaidd, llywodraethau a sefydliadau anllywodraethol, sydd i gyd yn rhannu'r un nod o liniaru effaith offer gadawedig yn lleol ac yn fyd-eang. Sefydlwyd tri gweithgor i gasglu tystiolaeth, pennu arferion gorau a llywio polisïau a sbarduno atebion a'u defnyddio fel patrwm.

Casglu tystiolaeth:
Casglu data yn lleol ac yn rhanbarthol a'u safoni'n fyd-eang er mwyn deall tueddiadau o ran presenoldeb offer gadawedig. Defnyddir y data hyn i nodi mannau gwael ac ardaloedd â blaenoriaeth.

Pennu arferion gorau a llywio polisïau:
Datblygu canllawiau ar reoli offer pysgota drwy gydol ei gylch oes.


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

Sbarduno atebion a'u defnyddio fel patrwm:
Nodi atebion effeithiol a'u datblygu ymhellach, yn enwedig y rhai y gellir eu hintegreiddio mewn modelau busnes y gellir eu defnyddio fel patrwm.

Mae dros 90 o sefydliadau yn aelodau o'r fenter erbyn hyn ac fe'i cefnogir gan sefydliadau rhynglywodraethol megis Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig, Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, a Gweinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol Adran Wladol yr UD a 13 o lywodraethau cenedlaethol. Yn fwyaf diweddar, mae Nestle a Tesco wedi ymuno â'r fenter.

Ymhlith yr uchafbwyntiau yn 2018 roedd y canlynol:

- Treial marcio offer yn Indonesia: treialu gwahanol ddulliau o farcio offer mewn dwy bysgodfa fach sy'n defnyddio rhwydi cragen er mwyn llywio Canllawiau Marcio Offer Byd-eang Sefydliad Bwyd ac Amaethyddiaeth y Cenhedloedd Unedig a fabwysiadwyd ym mis Gorffennaf.
- Casglu hen offer yn Maine, UDA: casglu ac ailgylchu 5,000 o bwysi o offer gadawedig ar y môr gyda physgotwyr lleol.
- Treialu Dyfais Cyfuno Pysgod yn Ne'r Môr Tawel: olrhain a marcio dyfeisiau sy'n drifftio a phrofi technoleg olrhain ar gyfer dyfeisiau wedi'u hangori er mwyn llywio'r Canllawiau Marcio Offer a phenderfyniadau rheoli dyfeisiau, gan gynnwys adalw dyfeisiau.

Yn 2019, daw Ocean Conservancy yn bartner arweiniol y fenter.
**Gwefan:** https://www.ghostgear.org/

## Diwrnod Glanhau'r Byd (Sefydliad Dewch i'w Gwneud Hi)

Rhwng mis Hydref 2007 a mis Ebrill 2008, trefnodd ymgyrchwyr gwrthsbwriel yn Estonia *Dewch i'w Gwneud Hi 2008*, sef ymgyrch ymgysylltu dinesig a lwyddodd i ddenu tua 50,000 o bobl neu 4% o'r boblogaeth i ddod i gasglu sbwriel yng nghefn gwlad a choedwigoedd Estonia gyda'r nod o 'lanhau'r wlad' mewn un diwrnod. Rhwng 2008 a 2011, cafodd y model ei efelychu ar lefel genedlaethol yn Latfia, Lithwania a Slofenia a chynhaliwyd ymgyrchoedd i gefnogi digwyddiadau glanhau ym Mhortiwgal, Romania, Latfia, Lithwania, Estonia, Moldofa, yr Eidal, Ffrainc, India ac Ukrain.

Yn 2011, sefydlwyd y Sefydliad Dewch i'w Gwneud Hi!, fel elusen yn Estonia, i hwyluso mudiad dinesig byd-eang ar lawr gwlad, *Dewch i'w Gwneud Hi! y Byd,* yn seiliedig ar y nod o 'lanhau' un wlad mewn diwrnod bob blwyddyn. Ers hynny, mae'r elusen wedi helpu ymgyrchwyr i drefnu nifer o 'Ddiwrnodau Glanhau' ac, ar 15 Medi 2018, trefnodd yr ymgyrch gweithredu dinesig fwyaf erioed yn erbyn gwastraff, *Diwrnod Glanhau'r Byd*, a ddenodd, yn ôl y dyb, 17 miliwn o bobl mewn 157 o wledydd i gymryd rhan. Mae'r mudiad *Dewch i'w Gwneud Hi!* wedi cyhoeddi ei fod yn bwriadu trefnu Diwrnod Glanhau'r Byd 2019 ar 21 Medi.

Nid yw'r mudiad yn seiliedig ar y cysyniad o gynnal digwyddiadau glanhau/casglu sbwriel yn unig. Mae wedi'i drefnu ar sail damcaniaeth newid sy'n ceisio byd diwastraff drwy annog ymddygiad unigol isel ei effaith a lleihau nifer yr achosion o ollwng adnoddau o economi gylchol i'r amgylchedd i'r eithaf drwy wella systemau rheoli gwastraff.

Ymhlith y partneriaid strategol sy'n cefnogi Sefydliad *Dewch i'w Gwneud Hi!* mae'r canlynol:

- ZAVOD BBDO;
- Rhaglen Amgylchedd y CU
- Junior Chamber International;
- Gweinyddiaeth Materion Tramor Estonia;
- Estonia 100;
- y Gymdeithas Gwastraff Solet Genedlaethol;
- Gweinyddiaeth yr Amgylchedd Estonia

Mae cysylltiadau amlwg rhwng dod yn rhan o fenter o'r fath a'i chefnogi a nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 i sicrhau Cymru sy'n fwy cyfrifol yn fyd-eang, o ystyried mai nod mudiad Glanhau'r Byd yw lliniaru effaith colli sbwriel yn yr amgylchedd, gan gynnwys yr amgylchedd morol lle y gall fynd yn llygredd


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

trawsffiniol. At hynny, roedd Diwrnod Glanhau'r Byd yn rhannu uchelgais Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2015 i leihau gwastraff a chyflwyno economi gylchol.

**Gwefan: [https://www.worldcleanupday.org/](https://www.worldcleanupday.org/) and**

## Project AWARE

Sefydlwyd Project AWARE gan PADI yn yr UD yn 1992 gyda'r nod o ddenu plymwyr ac ymgyrchwyr yn fyd-eang. Daeth yn elusen sefydledig yn y DU yn 1999. Heddiw, mae Project AWARE yn sefydliad nid er elw ar wahân ac yn fudiad byd-eang sy'n codi ei arian ei hun ac sy'n hyrwyddo ei chenhadaeth a'i nodau ei hun. Mae PADI yn cefnogi Project AWARE drwy gysylltu'r sefydliad â rhwydwaith o blymwyr a gweithwyr proffesiynol dros y byd. Mae PADI yn rhoi cyfraniad i Project AWARE ar ran pob myfyriwr y mae'n ei ardystio. Mae'r cyfraniadau hyn yn darparu cyllid hollbwysig sy'n cefnogi gwaith Project AWARE yn ein dau faes craidd â ffocws: atal gweddillion morol a gwarchod siarcod a chathod môr. Mae Sefydliad McBeth a Sefydliad K2 Wind hefyd yn ariannu gwaith Project AWARE.

Drwy bartneriaethau â'r Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr (GPML), Trash Free Seas Alliance, Seas at Risk a Menter Offer Gadawedig y Byd (GGGI), mae Project AWARE yn cydweithio ag unigolion, llywodraethau, sefydliadau anllywodraethol a busnesau i ddylanwadu ar bolisïau ar lefel leol, genedlaethol a rhyngwladol. Arolwg o weddillion morol yw Dive Against Debris, a ddatblygwyd yn 2011. Mae'n nodi'r mathau o sbwriel a faint o sbwriel a welir ar wely'r cefnfor, gan gau bwlch hollbwysig mewn gwybodaeth ym maes ymchwil i sbwriel môr. Drwy Adopt a Dive Site gall pobl leol gynnal arolygon mynych o sbwriel môr er mwyn llywio newidiadau i bolisïau lleol.

Yn 2017, cynhaliodd 11,462 o bobl 1,773 o arolygon Dive Against Debris mewn 81 o wledydd, ac o'r arolygon hyn dim ond 205 a gofnododd dim sbwriel. Casglwyd 218,799 o eitemau i gyd, a oedd yn pwyso 65,495 kg, yr oedd 66% o'r gweddillion hyn yn eitemau plastig. Cofnodwyd 1,673 o anifeiliaid morol a oedd wedi cael eu dal yn sownd.

**Gwefan: [https://www.projectaware.org/](https://www.projectaware.org/)**


© Hawlfraint y Goron WG 39232 ISBN ddigol 978-1-80082-177-4

# Addysg ac Allgymorth

Cydnabyddir yn gyffredinol erbyn hyn mai dod o hyd i ateb i achosion ac effeithiau sbwriel môr yw un o heriau amgylcheddol mawr ein hoes. Un o'r prif elfennau sydd ei hangen i fynd i'r afael â'r mater yw annog pobl o bob oedran i roi'r gorau i'r diwylliant taflu presennol.

## Partneriaeth Cadwraeth yr Acwaria (ACP)

Yn 2016, sefydlodd Acwariwm Bae Monterey, Acwariwm Shedd yn Chicago a'r Acwariwm Cenedlaethol yn Baltimore Bartneriaeth Cadwraeth yr Acwaria. Ei nod yw defnyddio adnoddau, arbenigedd gwyddonol, cyrhaeddiad a chydberthnasau busnes 22 o acwaria mewn 17 o daleithiau i leihau'r ffynhonnell o lygredd plastig cefnforol a dŵr croyw. Ariennir y bartneriaeth gan y tri aelod sylfaenu yn bennaf, sy'n cyfrannu $40,000 yr un; ynghyd â $20,000 gan bob un o'r acwaria sydd wedi ymuno â'r bartneriaeth. Mae rhestr o'r aelodau presennol ar gael yn Atodiad 8.

Ers ei lansio, mae'r bartneriaeth wedi sefydlu'r ymgyrch 'In Our Hands', sydd â'r nod o annog gwesteion acwaria a chymunedau lleol i leihau eu defnydd o blastig, a chynyddu'r galw am gynnyrch amgen yn lle plastig untro. At hynny, mae pob acwariwm wedi cael gwared ar wellt yfed plastig ym mhob lleoliad fel cam hawdd cyntaf tuag at frwydo yn erbyn llygredd plastig. Drwy'r fenter, a elwir yn First Step, cafwyd gwared ar bum miliwn o wellt yfed mewn blwyddyn. Fel rhan o'r fenter, mae'r bartneriaeth yn lobïo dinasoedd a llywodraethau rhanbarthol i basio gorchmynion sy'n annog busnesau i ddefnyddio llai o wellt yfed. Mae'r bartneriaeth hefyd wedi gweithio gyda busnesau mawr fel United Airlines, White Sox Chicago ac ysytai Dignity Health.
Er mwyn dal sylw'r cyhoedd o bell ac agos, llogodd y grŵp Blue State Digital i ddatblygu menter i ddefnyddwyr sydd â'r nod o symud pobl o ymwybyddiaeth i weithredu. Bydd y fenter yn cynnwys negeseuon y gellir eu hymgorffori mewn unrhyw beth, o arwyddion i'r cyfryngau cymdeithasol ac i nwyddau. Gyda thros 180 miliwn o ymwelwyr â sŵau ac acwaria bob blwyddyn yn yr Unol Daleithiau, bydd ar gael i bob acwariwm sydd wedi'i achredu gan AZA.

Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd, ynghyd â Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, a gyda chymorth Amgueddfa Cefnforeg Monaco, Undeb Ewropeaidd Ceidwaid Acwaria, Cymdeithas Sŵau ac Acwaria'r Byd, Partneriaeth Cadwraeth Acwaria'r UD a Chomisiwn Cefnforeg Rhynglywodraethol UNESCO, gynghrair byd-eang o 200 o acwaria erbyn 2019 i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o lygredd plastig.

Bydd aelodau'r bartneriaeth yn mesur eu heffaith drwy fonitro:

(1) nifer y cynnyrch amgen newydd a gyflwynwyd ar y farchnad

(2) nifer y defnyddwyr sy'n addo dewis cynnyrch amgen

(3) nifer yr acwaria sy'n cael gwared ar blastig untro'n raddol, yn rhannol neu'n gyfan gwbl

(4) nifer y cyfleusterau sy'n ymuno ag acwaria i gael gwared ar blastig untro yn raddol

(5) nifer y polisïau sy'n cael eu rhoi ar waith i leihau plastig untro a rhoi cymhelliant i ddefnyddio cynnyrch amgen

(6) nifer yr adroddiadau gwyddonol newydd ar achosion ac effeithiau

**Gwefan:** **https://pledge.ourhands.org/**

## Don’t Mess with Texas

Sefydlwyd ‘Don’t Mess with Texas’ yn 1985 gan Adran Drafnidiaeth Texas. Mae'r ymgyrch, sy'n cwmpasu talaith Texas, yn defnyddio balchder lleol i gysylltu â phobl ledled y dalaith, sy'n cael eu gwobrwyo am eu hysbysebion gwrthsbwriel. Mae'r ymgyrch wedi defnyddio negeseuon gan enwogion ar fyrddau hysbysebu, ar y teledu ac ar y cyfryngau cymdeithasol (yn fwy diweddar). Mae'r partneriaid presennol yn cynnwys Gŵyl

Dinas Austin, H-E-B/Marchnad Ganolog, Sefydliad Moody, iHeart Media a PunchDrunk Digital, Whataburger, Austin Wayne Self (prif yrrwr dros AM Racing), YETI, Keep Texas Beautiful (KTB), Cymdeithas Cynghorau Ysgol Texas (TASC) a McDonald's.

Yn 2009, lansiodd yr ymgyrch gyfres realiti ar-lein a oedd yn dilyn taith yr ymgyrch, yn ogystal â gwahanol gystadlaethau, gan gynnwys 'Car2Can' a oedd yn annog y cyhoedd i gyflwyno fideos cartref yn dangos ffyrdd unigryw, hwyliog a chreadigol o roi sbwriel o'r car i mewn i finiau ymyl ffordd, gyda'r fideo buddugol yn cael ei ddarlledu ar y teledu yn ystod oriau brig fel rhan o hysbyseb gwrthsbwriel. Yn 2006, enillodd Don't mess with Texas gystadleuaeth hysbysebion 'Walk of Fame' am hoff slogan America, gan guro ymgyrchoedd adnabyddus fel "Just Do It".

Yn ogystal â rhoi negeseuon llwyddiannus, mae'r ymgyrch yn cynnal sioeau teithiol a rhaglenni addysg ledled y dalaith. Mae sioe deithiol, Don't Mess with Texas, yn teithio 5,000 o filltiroedd o amgylch y dalaith er mwyn addysgu pobl Texas am atal sbwriel, yn ogystal ag ysgolion teithiol y Llu Sbwriel i addysgu plant am y mater.

Yn fwyaf diweddar, mae'r ymgyrch wedi defnyddio technoleg rithwir a hapchwarae i ddod â neges gwrthsbwriel yn fyw i'r genhedlaeth iau. Mae'r rhai sy'n cymryd rhan yn defnyddio rhwyfau llaw i gasglu gwahanol ddarnau o sbwriel a rhoi neu daflu'r eitemau i mewn i un o dair casgen sbwriel Don't Mess with Texas. Maent yn cael pwyntiau am bob darn o sbwriel sy'n mynd i mewn i'r gasgen sbwriel. Gyda mwy a mwy o negeseuon yn cystadlu am sylw'r cyhoedd, mae ymgyrch Don't Mess with Texas yn cydnabod bod angen creu profiadau diddorol i gael y gynulleidfa i ymgysylltu â'r negeseuon gwrthsbwriel pwysig.

Mae Adran Drafnidiaeth Texas hefyd yn defnyddio cronfa ddata gofrestru yr Adran Cerbydau Modur a'i gwybodaeth am roi gwybod am daflwyr sbwriel er mwyn cymharu â rhifau cofrestru taflwyr sbwriel a chysylltu â nhw. Pan gaiff y manylion eu paru, anfonir sach sbwriel Don't Mess with Texas at y taflwr sbwriel a llythyr yn ei atgoffa i beidio â thaflu sbwriel ar y ffordd.

Canfu arolwg o 1,075 o oedolion yn 2017 mai dim ond 7% nad oeddent yn gyfarwydd â slogan Don't Mess with Texas, a bod 73% o bobl Texas wedi gweld, wedi darllen neu wedi clywed y slogan ar arwyddion stryd a phriffyrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a bod 65% wedi gweld sticeri ceir, 63% wedi gweld byrddau hysbysebu a 57% wedi gweld hysbysebion ar y teledu.

Fel rhan o frandio'r ymgyrch, mae'r biniau sbwriel coch, gwyn a glas eiconig yn symbol cofiadwy ac adnabyddadwy o'r ymgyrch.

Y prif negeseuon sy'n cyfateb i waredu sbwriel yn briodol ymhlith pobl sy'n dweud eu bod wedi taflu sbwriel yw: Cadwch sach sbwriel yn eich car, mae'n anghyfreithlon taflu sbwriel yn Texas ac mae taflu sbwriel yn niweidiol i'r amgylchedd.

**Gwefan: [http://www.dontmesswithtexas.org/](http://www.dontmesswithtexas.org/)**

**"International cooperation is vital to keeping our globe safe, commerce flowing, and our planet habitable."** – Angus Deaton




*Delwedd: Biniau yn dangos ymgyrch 'Don't Mess with Texas'*

## Arloesi

Er bod gwaith monitro, glanhau ac addysgu pobl am faterion sbwriel môr yn gamau pwysig i helpu ein cefnforoedd, yr ateb gwirioneddol yw datrys y broblem yn ei tharddle. Pwyslais ar atal gwastraff, ailgylchu ac ailddefnyddio effeithlon drwy economi gylchol a rhoi terfyn ar ein dibyniaeth ar blastigion untro yw'r ateb allweddol i gael gwared ar sbwriel môr.

### Yr Economi Blastigion Newydd

Mae'r Economi Blastigion Newydd yn fenter tair blynedd, uchelgeisiol i greu momentwm tuag at system blastigion sy'n gweithio. Mae'n cymhwyso egwyddorion yr economi gylchol ac yn dwyn rhanddeiliaid allweddol ynghyd i ailystyried ac ailddylunio dyfodol plastigion, gan ddechrau gyda deunydd pacio.

Lansiwyd Gwobr Arloesedd yr Economi Blastigion Newydd yn 2017, sy'n cael ei arwain gan Sefydliad Ellen MacArthur, yr Uned Cynaliadwyedd Rhyngwladol a'i ariannu gan Gronfa Eric a Wendy Schmidt ar gyfer Arloesedd Strategol. Mae'r Wobr Arloesedd yn galw ar ddylunwyr, entrepreneuriaid, academyddion a gwyddonwyr i ailystyried y system blastigion a chael gwared ar wastraff deunydd pacio plastig. Yn ogystal â chael £2 filiwn, bydd yr enillwyr yn ymuno â rhaglen gyflymu 12 mis, mewn cydweithrediad â Think Beyond Plastic, gan weithio gydag arbenigwyr i wneud eu datblygiadau arloesol yn farchnadwy ar raddfa fawr. Cyhoeddwyd enillwyr yr Her Dylunio Cylchol yng nghgynhadledd Our Ocean ym Malta ar 5 Hydref 2017. Cyhoeddwyd enillwyr yr Her Deunyddiau Cylchol yng nghyfarfod blynyddol Fforwm Economaidd y Byd ar 23 Ionawr 2018. Mae rhestr o enillwyr y naill wobr a'r llall ar gael yn Atodiad 9

Er bod y datblygiadau arloesol buddugol yn dangos y math o atebion sydd eu hangen i greu economi gylchol, ni allant sicrhau'r newid hwn ar eu pen eu hunain. Mae angen i fusnesau, llunwyr polisïau a buddsoddwyr hefyd wneud ymrwymiadau clir a chydweithio i gyflawni hyn.

Lansiwyd Ymrwymiad Byd-eang yr Economi Blastigion Newydd yn 2018 gan Sefydliad Ellen MacArthur ar y cyd â Rhaglen Amgylchedd y CU. Mae'r ymrwymiad yn cynnwys mwy na 250 o sefydliadau sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli 20% o'r deunydd pacio plastig a ddefnyddir dros y byd. Cefnogir yr ymrwymiad gan nifer o grwpiau dylanwadol, megis y Gronfa Natur Fyd-eang (WWF), Fforwm Economaidd y Byd, y Fforwm Nwyddau Traul (sy'n cynrychioli 400 o fanwerthwyr a gweithgynhyrchwyr o 70 o wledydd) a 40 o brifysgolion, sefydliadau ac academyddion. Mae dros 15 o sefydliadau ariannol sy'n rheoli asedau gwerth mwy na $2.5 triliwn hefyd wedi cymeradwyo'r Ymrwymiad Byd-eang ac mae $200 miliwn wedi cael ei addo gan bum cronfa cyfalaf menter er mwyn creu economi gylchol ar gyfer plastigion. Mae'r ymrwymiad yn anelu at gyflawni'r targedau canlynol:

1. Cael gwared ar ddeunydd pacio plastig problemus neu ddiangen a rhoi'r gorau i fodelau deunydd pacio untro.
2. Arloesi er mwyn sicrhau y gall 100% o ddeunydd pacio plastig gael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio'n hawdd ac yn ddiogel, erbyn 2025
3. Cylchdroi'r plastig a gynhyrchwyd drwy gynyddu'n sylweddol faint o blastig sy'n cael ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu a'i droi'n ddeunydd pacio neu'n gynhyrchion newydd.

Caiff y targedau hyn eu hadolygu bob 18 mis, gan ddod yn fwy uchelgeisiol dros amser. Bydd gofyn i bob busnes sydd wedi ymrwymo gyhoeddi data blynyddol ar ei gynnydd. Bydd hyn yn helpu i roi pwysau ar y rhai sydd wedi ymrwymo i weithredu, gan sicrhau ymrwymiad gwirioneddol.

### Next Wave

Laniwyd prosiect Next Wave yn 2017 gan Dell mewn partneriaeth â Lonely Whale. Nod y prosiect yw adeiladu ar raglen Dell ar blastigion ar hynt i'r cefnfor, a lansiwyd yn 2016, a dwyn consortiwm trawsddiwydiannol o gwmnïau ynghyd i gydweithio i greu'r rhwydwaith byd-eang cyntaf o gadwyni cyflenwi plastigion ar hynt i'r cefnfor a graddio'r defnydd o blastigion ar hynt i'r cefnfor. Mae Hewlett-Packard, y cwmni moduron GM, cwmnïau dodrefn Herman Miller, Human Scale, Interface, Van De Sant ac Ikea a

manwerthwyr Bureo a Trek Bicycles, Rhaglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig, Sefydliad y 5 Gyres, Cymdeithas Sŵolegol Llundain a'r Sefydliad Deunyddiau Newydd hefyd yn cymryd rhan yn y consortiwm. Er mai Dell a ddarparodd yr arian cychwynnol, mae'r cwmnïau sy'n rhan o'r consortiwm yn helpu i ariannu'r bartneriaeth drwy ffioedd aelodaeth a rhoddion eraill.

Yn ogystal â chydweithio rhwng gwahanol sectorau masnachol, mae Next Wave yn defnyddio cymunedau lleol fel adnodd i gasglu plastig cefnforol, gan gyflogi pobl sy'n byw yn y rhanbarthau arfordirol hyn i gasglu plastig o fewn 30 milltir i ddyfrffyrdd er mwyn ei atal rhag mynd i mewn i'r amgylchedd morol. Gan ddefnyddio'r ymchwil a'r arbenigedd gwyddonol diweddaraf, mae'r fenter yn canolbwyntio ar y defnydd o Neilon 6 a pholypropylen ac yn anfon y plastig a adferwyd i weithgynhyrchwyr i'w ddefnyddio yn lle deunyddiau newydd. Nod y fenter hon yw datblygu cadwyn gyflenwi weithredol gynaliadwy sy'n lleihau faint o blastig sydd ar hynt i'r cefnfor ar raddfa fawr ac sy'n creu buddiannau economaidd a chymdeithasol i randdeiliaid a hefyd sicrhau bod gan y gadwyn gyflenwi y seilwaith a'r cymorth sydd eu hangen i ateb y galw a chydymffurfio â safonau amgylcheddol. Ar hyn o bryd, mae cwmnïau sy'n aelodau o Next Wave yn cael cyflenwadau wedi'u dilysu o blastigion ar hynt i'r cefnfor o Gamerŵn, Denmarc, Haiti, Indonesia ac Ynysoedd Philippines. Bwriedir ychwanegu ffynonellau newydd o gyflenwadau o dair gwlad arall o leiaf, gan gynnwys India, Taiwan a Gwlad Thai erbyn 2025.

Mae'r consortiwm yn rhagweld y byddant, gyda'i gilydd, yn atal plastigion ac offer pysgota neilon gwerth mwy na £3 miliwn rhag mynd i mewn i'r cefnfor o fewn pum mlynedd, sy'n cyfateb i gadw 66 miliwn o boteli dŵr rhag mynd i mewn i'r môr. Mae'r cwmnïau sy'n aelodau o New Wave ar y trywydd cywir ar hyn o bryd, yn unol â 14.1 Nod Datblygu Cynaliadwy'r CU, i atal o leiaf 25,000 o dunelli o blastig, sy'n cyfateb i 1.2 biliwn o boteli dŵr plastig untro, rhag mynd i mewn i'r cefnfor erbyn diwedd 2025.
Yn 2018, enillodd Next Wave Wobr Economi Gylchol 2018 P4G, a noddir gan Lywodraeth Denmarc, am ei ymrwymiad i leihau'n sylweddol faint o blastigion sydd ar hynt i'r cefnfor.

**Gwefan:** **https://www.nextwaveplastics.org/**

---

**Litter lies in at the end of a process that involves production, consumption and disposal – a chain in which the consumer (and potential litter) is the weakest link, with the least power'** (MacGregor, 2017)

---

## Cydweithio Byd-eang

Mae sbwriel môr yn effeithio ar bob cefnfor dros y byd, ac amcangyfrifir bod 4.6-12.7 miliwn o dunelli o sbwriel yn mynd i mewn i'r môr bob blwyddyn dros y byd. Mae cymorth ar ffurf cymorth rhyngwladol a buddsoddiadau yn bwysig i frwydro yn erbyn sbwriel môr, drwy arloesi a rhannu gwybodaeth a thrwy ymdrechion glanhau rhyngwladol.

### G7

Mae'r G7 (Grŵp o Saith) yn cynnull saith o wledydd economaidd mwyaf datblygedig y byd, gan gynnwys y DU, Ffrainc, yr Almaen, yr Eidal, Japan, Canada ar Unol Daleithiau, gan ddwyn gweinidogion a llunwyr polisïau ynghyd i wneud penderfyniad ar sail consensws ar faterion byd-eang. Am y rheswm hwn, mae aelodau'r G7 mewn sefyllfa dda i rannu gwybodaeth ac arbenigedd er mwyn hyrwyddo datblygiadau arloesol y gellir eu defnyddio'n fyd-eang i fynd i'r afael â sbwriel môr. Yn 2015, lansiwyd cynllun gweithredu a oedd yn ystyried ffynonellau sbwriel môr ar y tir ac yn y môr. Mae'r cynllun yn cynnwys camau gweithredu â blaenoriaeth i gael gwared ar sbwriel, atebion rheoli gwastraff â blaenoriaeth, cynaliadwyedd yn y tarddle ac addysg, allgymorth ac ymchwil.

### Y Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr (GPML)

Sefydlwyd y Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr ym mis Mehefin 2012 gan Raglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig. Mae'r bartneriaeth yn dwyn ynghyd lywodraethau, busnesau, y byd academaidd, awdurdodau lleol, sefydliadau anllywodraethol a sefydliadau rhynglywodraethol.

Mae'n gweithredu fel cofrestr fyd-eang o ymrwymiadau gwirfoddol a phartneriaid sy'n cynnwys nifer o randdeiliaid. Nod y bartneriaeth yw sicrhau gwell cydweithredu a chydgysylltu ar fentrau sbwriel môr yn fyd-eang, gan ddefnyddio Strategaeth Honolulu. Bydd rhanddeiliaid gwahanol yn ffurfio is-grwpiau i ganolbwyntio ar faterion penodol sy'n ymwneud â sbwriel môr. Mae'n cyflawni hyn drwy ddiweddariadau rheolaidd gan bob sefydliad sy'n rhan o'r bartneriaeth drwy'r Ysgrifenyddiaeth, lle y gall partneriaid gyflwyno eu gwaith presennol. Cynhelir gweminarau ac maent ar gael ar-lein fel y gall pob partner dros y byd eu gweld. Mae gweminarau i'r aelodau hefyd wedi cael eu dechrau i'w gwneud hi'n haws rhoi diweddariadau a chyhoeddi cyfleoedd i bartneriaid ymgysylltu. Mae gallu'r bartneriaeth i annog aelodau i rannu gwybodaeth yn y ffordd hon yn golygu, nid yn unig bod modd i arferion gorau gael eu mabwysiadu rhwng sefydliadau, ond eu bod hefyd yn osgoi dyblygu gwaith. At hynny, mae'r bartneriaeth yn anelu at annog aelodau i rannu gwybodaeth am gyflawni'r strategaeth a monitro cynnydd yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o blastigion a microblastigion a hyrwyddo defnyddio adnoddau'n effeithlon a datblygu economaidd i atal gwastraff. Mae'r bartneriaeth hefyd yn cefnogi'r Bartneriaeth Fyd-eang ar Reoli Gwastraff.

Defnyddir Ceinciau Rhanbarthol i hyrwyddo'r gwaith o ddatblygu a gweithredu'r bartneriaeth yn rhanbarthol. Mae pob un wedi cael ei theilwra gan ei llywodraeth a/neu sefydliad ei hun i fod yn addas ar gyfer ei heriau amgylcheddol penodol. Hyd yma, mae'r ceinciau rhanbarthol yn cynnwys: Cynllun Gweithredu Gogledd-orllewin y Môr Tawel (NOWPAP), Ysgrifenyddiaeth Rhaglen Amgylchedd Rhanbarthol y Môr Tawel (SPREP), Rhaglen Amgylchedd y Caribî (CEP) (cyd-drefnydd), Sefydliad Pysgodfeydd y Gwlff a'r Caribî (GCFI) (cyd-drefnydd), Cynllun Gweithredu Môr y Canoldir (MAP) a Rhaglen Amgylchedd Gydweithredol De Asia (SACEP).

Gwahoddir partneriaid i gyfrannu at astudiaethau achos, gan ddefnyddio'r holl arbenigedd sydd ar gael yn y bartneriaeth fel adnodd pwysig. Rhoddir arweiniad gan bwyllgor llywio rhyngwladol. Cynhaliodd y bartneriaeth y Cwrs Ar-lein Enfawr Agored cyntaf ar Sbwriel Môr (cofrestrodd 6,500 o bobl). Cyfrannodd partneriaid eu harbenigedd hefyd i ddatblygu'r astudiaeth “Marine plastic debris and microplastics – Global lessons and research to inspire action and guide policy change” a lansiwyd ym mis Mai 2016.

Darperir cyllid ar gyfer y bartneriaeth gan roddwyr, a all gael ei ddefnyddio i ariannu gweithgareddau â blaenoriaeth mewn perthynas â chyfarfodydd y Pwyllgor Llywio, allgymorth y bartneriaeth (e.e. costau llwyfan ar-lein y bartneriaeth, cyfarfodydd aelodau) a gweithgareddau penodol a nodwyd yn unol â chynllun gwaith y bartneriaeth. Nid oes gan y bartneriaeth ei hun gyllideb. Disgwylir i aelodau'r bartneriaeth gadw'r

cyfrifoldeb am ariannu a gweithredu eu gweithgareddau eu hunain i gefnogi amcanion y bartneriaeth. Mae'r bartneriaeth yn anelu at gynnig llwyfan paru yn yr ystyr y bydd yn ceisio dod o hyd i ffynonellau ariannu priodol a dylanwadu ar fentrau eraill sy'n mynd rhagddynt lle y bo'n briodol ac yn darparu gwybodaeth am gyfleoedd ariannu neu grantiau i aelodau pan fo cyllid ar gael i sefydlu cynlluniau o'r fath.
**Gwefan:** https://sustainabledevelopment.un.org/partnership/?p=7471

## Moroedd Glân

Sefydlwyd Moroedd Glân gan Raglen Amgylchedd y CU yn 2017 ac, yn ystod ei blwyddyn gyntaf, ymunodd 43 o wledydd â'r ymgyrch. Nod yr ymgyrch yw ymgysylltu â llywodraethau, y sector preifat a'r cyhoedd yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig yn ein moroedd. Dros y pum mlynedd nesaf, bydd Moroedd Glân yn targedu cynhyrchu a defnyddio plastigion untro ac anadferadwy ac yn newid arferion a pholisïau drwy gysylltu unigolion, grwpiau cymdeithas sifil, diwydiant a llywodraethau ledled y byd. Mae'r ymgyrch yn cyfrannu at nodau'r Bartneriaeth Fyd-eang ar Sbwriel Môr.
Nodir isod rai o gyflawniadau'r ymgyrch:

- Mae Indonesia yn addo lleihau ei hôl troed plastig 70 y cant erbyn 2025.
- Mae Kenya yn cyhoeddi gwaharddiad ar fagiau plastig.
- Mae ymgyrch Moroedd Glân yn creu partneriaeth â Ras Cefnfor Volvo. Fel rhan o'r bartneriaeth, mae'r Ras yn ymrwymo i leihau ôl troed plastig y ras yn sylweddol. Mae tîm Turn the Tide Plastic wedi cystadlu yn y ras mewn ymdrech i gyfleu'r neges am leihau plastig yn ein cefnforoedd ledled y byd.
- Mae Sweden yn addo rhoi tua miliwn o ddoleri i ariannu gwaith Rhaglen Amgylchedd y CU ar blastig morol.
- Mae Seland Newydd yn cyhoeddi ei bod yn gwahardd microbelenni mewn cynhyrchion gofal personol a cholur.
- Vanuatu yw'r wlad gyntaf yn y byd i wahardd gwellt yfed plastig.
- Mae Volvo Cars yn addo cael gwared ar blastigion untro yn ei swyddfeydd, ei ffreuturiau ac yn ystod ei ddigwyddiadau ledled y byd erbyn diwedd 2019 ac y daw 25 y cant o'r plastigion a ddefnyddir yn ei gerbydau newydd o ffynonellau eildro o 2025 ymlaen.
- Mae Chile yn cyhoeddi ei gwaharddiad ar fagiau plastig.
- Mae India yn addo cael gwared ar bob math o blastigion untro erbyn 2022.

**Gwefan:** https://www.cleanseas.org/

## Strategaeth Honolulu

Mae Strategaeth Honolulu yn rhoi fframwaith ar gyfer dull byd-eang, cynhwysfawr o ymdrin â sbwriel môr. Nod y fframwaith yw sicrhau gwell cydweithredu a chydgysylltu rhwng rhanddeiliaid allweddol, llywodraethau a grwpiau amgylcheddol dros y byd, drwy lunio cyfres o nodau a strategaethau y gellir eu cymhwyso ledled y byd, ni waeth beth fo'r amodau na'r heriau penodol. Ar hyn o bryd, mae Gweinyddiaeth Gefnforol ac Atmosfferig Genedlaethol (NOAA) yr UD yn defnyddio Strategaeth Honolulu i gysoni ei rhaglenni a mesur canlyniadau drwy gamau gweithredu lleol ac ar lefel y dalaith, megis Cynllun Gweithredu Gweddillion Morol Hawaii. Cyflwynwyd Strategaeth Honolulu o dan Raglen Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig fel y fframwaith y gall aelod-wledydd a sefydliadau eu mabwysiadu a'u defnyddio. Pwysleisiodd cynrychiolwyr 65 o lywodraethau a'r Comisiwn Ewropeaidd berthnasedd Strategaeth Honolulu.[2] Gellir gweld y Fframwaith yn Atodiad 10.

**"Marine litter is a planetary crisis"** – Prif Swyddog Cefnforoedd y CU, 2017




*Delwedd: Gosodiad yn Amgueddfa Gelf Singapôr gan yr artist @messymsxi a wnaed o fwy nag 20,000 o ddarnau o blastig a gasglwyd*

# Atodiadau

## Atodiad 1: Partneriaeth Moroedd Glân Cymru (Aelodau Craidd) 2018

PD Partnership (Cadeirydd)
Awdurdod Harbwr Caerdydd
Pen Llŷn a'r Sarnau (Cyngor Gwynedd)
Cadwch Gymru'n Daclus
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau
NARC
Cyfoeth Naturiol Cymru
Fforwm Arfordir Penfro
Cymdeithas Hwylio Frenhinol
Surfers Against Sewage
Ystad y Goron
Ffederasiwn Genweirwyr Môr Cymru
Cymdeithas Pysgotwyr Cymru
Llywodraeth Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Dŵr Cymru
Ymddiriedolaethau Natur Cymru

## Atodiad 2: Aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru 2018

Afonydd Cymru
Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid
Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod
Cyngor Mynydda Prydain
Buglife – Ymddiriedolaeth Gwarchod Infertebratau
Ymddiriedolaeth Gwarchod Cacwn
Gwarchod Gloÿnnod Byw Cymru
Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
Coed Cadw
Cyngor Archaeoleg Brydeinig Cymru
Ymddiriedolaeth Cynefinoedd Dŵr Croyw
Cadwch Gymru'n Daclus
Y Gymdeithas Cadwraeth Forol
Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Cymdeithas Mannau Agored
Plantlife
PONT Pori Natur a Threftadaeth
RSPB Cymru
Cymdeithas Genweirwyr Eogiaid a Brithyll
Ymddiriedolaeth Natur Vincent
Cymdeithas Cyfraith Amgylcheddol y DU
Sefydliad Gwarchod Morfilod a Dolffiniaid
Ymddiriedolaethau Natur Cymru
WWF Cymru
Ymddiriedolaeth Cwm Elan (Aelod Cyswllt)
Llais y Goedwig (Aelod Cyswllt)
Oxfam Cymru (Aelod Cyswllt)
Cymdeithas Eryri (Aelod Cyswllt)
Cymdeithas Hosteli Ieuenctid (Aelod Cyswllt)

## Atodiad 3: Cymunedau Diblastig SAS – 5 Nod

1. **Mae eich cyngor lleol yn gwneud penderfyniad i gefnogi'r daith tuag at statws Cymunedau Diblastig**
   - Mae'n rhaid i'r cyngor arwain drwy esiampl a chael gwared ar eitemau plastig untro ar ei safleoedd.
   - Dylai'r cyngor annog mentrau diblastig, gan hyrwyddo'r ymgyrch a chefnogi digwyddiadau.
   - Mae'n rhaid i gynrychiolydd o'r cyngor gael ei enwi ar grŵp llywio Cymunedau Diblastig.

2. **Gweithio gyda busnesau yn eich cymuned i'w helpu i leihau plastigion untro.**
   - Mae busnesau annibynnol yn eich cymuned yn cael gwared ar o leiaf dair eitem untro

3. **Ysbrydoli'r gymuned ehangach i ledaenu'r neges am fod yn ddiblastig**
   - Gweithio gydag ysgolion i gael gwared ar blastigion untro a chodi ymwybyddiaeth
   - Gweithio gyda chanolfannau cymunedol, neuaddau pentref, mannau addoli, llyfrgelloedd a mwy i'w hannog i gymryd camau a lledu'r gair.
   - Ymgysylltu â phrifysgolion a cholegau yn eich cymuned
   - Cysylltu â sefydliadau cymunedol (megis y Sgowtiaid, y Geids, Merched y Wawr, Clybiau Achub Bywyd Syrffio ac ati)
   - Ar gyfer poblogaethau o fwy na 100,000, mae angen cynnwys cyflogwr blaenllaw ar gyfer yr ardal (megis

prifysgol, ysbyty neu fusnes mawr sydd â thros 100 o staff)

4. **Cael eich cymuned i weithredu. Cynnal digwyddiad glanhau, digwyddiad dadlapio mawr neu ddigwyddiadau eraill i godi ymwybyddiaeth.**
   - Dau ddigwyddiad glanhau traeth neu ddau ddigwyddiad glanhau cymunedol. Gallwch wneud hyn drwy gymryd rhan yng Nghyfres Digwyddiadau Glanhau Traeth SAS bob gwanwyn a phob hydref.
   - Un digwyddiad codi arian i SAS er mwyn cefnogi Cymunedau Diblastig
   - Un 'Digwyddiad Dadlapio Mawr' mewn archfarchnad o'ch dewis.

5. **Ffurfio grŵp o randdeiliaid lleol a chyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn i symud ymlaen â'ch ymgyrch gymunedol.**
   - Mae Grŵp 'Llywio' Gwrthsefyll Lleol wedi'i sefydlu ac mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.
   - Mae'r grŵp yn cynnwys un aelod cyngor lleol.
   - Ar gyfer poblogaethau o fwy na 100,000, mae'n rhaid enwi un cyflogai o fusnes blaenllaw i fod yn rhan o'r grŵp.
   - Cynllun ar waith i gasglu a chyflwyno tystiolaeth i Surfers Against Sewage.

## Atodiad 4: Ysgolion Diblastig SAS – 5 Nod

1. **Creu cynllun gweithredu**
   - ffurfio grŵp gweithredu
   - cynnal cyfarfod ysgol ddiblastig
   - cyhoeddi'ch cynllun diblastig yn y gwasanaeth

2. **Criw Sbwriel**
   - gweithgaredd casglu sbwriel sydyn, egnïol yn eich ysgol

3. **Herio'r llywodraeth**
   - ysgrifennu llythyr at eich AS lleol i geisio ei gymorth

4. **Herio diwydiant**
   - gofyn i frandiau a welwch ar iardiau, strydoedd, coedwigoedd a thraethau gymryd cyfrifoldeb

5. **Herio'ch hun**
   - creu gwaddol diblastig yn eich ysgol drwy wneud tri ymrwymiad i fod yn ddiblastig

## Atodiad 5: Grwpiau Cymunedol Beach Clean – y DU

**Criw Sbwriel Troon**

Sefydlwyd y grŵp hwn yn Troon, Swydd Aeron yn 2018. Mae'n gweithio'n agos gyda Chyfeillion Traethau Troon. Mae'r grŵp yn paratoi adroddiadau wythnosol ar ddigwyddiadau glanhau traeth gyda'r gwirfoddolwyr sy'n dod ac unrhyw recriwtiaid newydd. Mae unigolion o'r naill grŵp a'r llall yn mynd ati i lanhau bob diwrnod o'r wythnos. Mae Cyngor De Swydd Aeron yn darparu cyfarpar ac yn gwaredu bagiau wedi'u llenwi. Mae'r grŵp yn cyflwyno ei ganfyddiadau ar Facebook a Twitter. **Rhagor o wybodaeth:** **https://twitter.com/TroonBeaches**

**Criw Cymunedol Bennett**

Mae'r grŵp hwn, sydd wedi'i leoli yn Dorset, Hampshire, Wiltshire a Jersey, yn cynnwys tîm o bobl o Bennett Restaurants Ltd. (un o fasnachfreintiau McDonald's) sydd am wneud gwahaniaeth i'w hardal leol. Mae'r grŵp, a sefydlwyd yn 2010, yn cynnal patrolau sbwriel dyddiol mewn ardaloedd lleol. Mae gan bob bwyty Hyrwyddwr y Blaned sy'n hyrwyddo ei gymuned leol. Mae'r grŵp hefyd yn cymryd rhan mewn digwyddiadau

lleol yn rheolaidd, gan weithio gyda chynghorau lleol a grwpiau sbwriel lleol.
**Rhagor o wybodaeth:** https://litteraction.org.uk/bennetts-community-crew

**Grŵp Cadwraeth Ferring**
Un o sefydliadau mwyaf Ferring, gyda thros 900 o aelodau. Enillodd y grŵp, sydd wedi'i leoli yn Ferring, Gorllewin Sussex ers 1988, Wobr y Frenhines am Wasanaeth Gwirfoddol. Mae aelodaeth yn costio £1 y flwyddyn y pen. Mae'r grŵp yn ymgymryd â gwaith ymarferol, gan gynnwys digwyddiadau glanhau rheolaidd yn ardal Ferring Rife, y traeth a mannau agored eraill.
Mae'r grŵp yn gweithio gyda chwmni sbwriel lleol i gasglu sbwriel, ond nid yw'r plastig a gesglir yn cael ei ailgylchu ar hyn o bryd. **Rhagor o wybodaeth:** https://www.ferringconservationgroup.co.uk/

**Bag the Bruck**
Mae hwn yn ddigwyddiad glanhau traeth blynyddol ar Ynysoedd Orkney a gydlynir gan Gyngor Ynysoedd Orkney. Mae gwahanol sefydliadau ac unigolion yn dewis traethau penodol, ac yna mae Cyngor Ynysoedd Orkney yn casglu'r sbwriel. Gall sefydliadau/grwpiau lleol wneud cais am grant cyngor cymuned i helpu eu hymdrechion i gael gwared ar weddillion traeth. **Rhagor o wybodaeth:**
http://www.orkneycommunities.co.uk/OZ/

**Cyfeillion Traeth Shoreham**
Mae grŵp Cyfeillion Traeth Shoreham, sydd wedi'i leoli ar Draeth Shoreham ac aber Adur, Gorllewin Sussex, yn monitro ac yn glanhau Traeth Shoreham a'r Warchodfa Natur Leol yn rheolaidd. Yn ogystal â chynnal digwyddiadau glanhau traeth rheolaidd, mae'r grŵp hefyd yn annog ac yn cefnogi mentrau gan ysgolion lleol, grwpiau cymunedol a chwmnïau, a hefyd yn cyflawni rhaglenni sy'n ymwneud â nodi ac ailgylchu sbwriel a gesglir. Hyd yma, mae'r grŵp wedi gweithio gydag ysgolion, Grwpiau Sgowtiaid a Chybiau, grwpiau egwysig a chymunedol cysylltiedig lleol meigs Concordia a'r Prince Trust, manwerthwyr lleol a diwydiannau megis Southern Water a Marks and Spencers. Caiff y grŵp ei ariannu drwy amrywiol ddigwyddiadau codi arian ac mae'n cael arian gan Grant Bags of Help Tesco a grantiau Fferm Wynt Rampion.
Mae'r ymwneud gan deuluoedd ar lefel leol wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf, a gwelwyd gostyngiad amlwg mewn bagiau plastig ar y traeth ar ôl cyflwyno'r tâl o 5c. Nododd y grŵp fod angen cael cefnogaeth y diwydiant pysgota er mwyn lleihau faint o rwydi, llinynnau pysgota a darnau amrywiol o gortyn sy'n cyrraedd y lan. Mae'r grŵp yn anfon ei ddata i raglen Beachwatch y Gymdeithas Cadwraeth Forol.
**Rhagor o wybodaeth:** http://www.fosbeach.com/

**Grŵp Casglu Sbwriel Stokesley**
Mae'r grŵp, a sefydlwyd yn 2017, yn darparu cyfarpar ar gyfer gweithgareddau glanhau drwy apeliadau ar y cyfryngau cymdeithasol i'r gymuned leol. Mae'r grŵp yn dibynnu ar y cyfryngau cymdeithasol i roi cyhoeddusrwydd i'w weithgareddau a hyrwyddo newidiadau ffordd o fyw, megis lleihau faint o gynhyrchion wedi'u lapio mewn plastig a brynir. **Rhagor o wybodaeth:**
https://www.facebook.com/groups/101967073601880/

**Cyfeillion Poldhu**
Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn cydnabod pwysigrwydd grwpiau gwirfoddol fel adnodd i gynnal a chadw'r amgylchedd a gofalu amdano ac yn 2011 sefydlodd Gyfeillion Poldhu. Mae'r grŵp gwirfoddol yn cydweithio'n rheolaidd â Chyfeillion Pollurian, Cyfeillion At Keverne a Natural England, yn ogystal â gweithio gydag ysgolion lleol a'r Llynges Frenhinol. Darperir yr holl gyfarpar a chyllid ar gyfer y grŵp gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. **Rhagor o wybodaeth:** https://www.nationaltrust.org.uk/features/friends-of-poldhu

**Fight the Plastic – Bishop's Castle**
Lansiodd Bishop's Castle yr ymgyrch 'Fight the Plastic' ym mis Chwefror 2018. Fel tref wledig gyda phoblogaeth o 1,800 yn unig, mae'r gymuned yn cynnwys yn bennaf ffermwyr, gweithwyr coedwigaeth, ynghyd â cherddorion, artistiaid, awduron a beirdd sy'n chwilio am ffordd o fyw fwy cynaliadwy. Mae 17 o bobl leol yn gweithredu o dan fantell Partneriaeth Gymunedol Bishop's Castle, sef elusen gofrestredig, ac

arweinir y prosiect gan yr amgylcheddwr David Luckhurst. Hyd yma, mae'r ymgyrch wedi annog llawer o fasnachwyr lleol i ddechrau defnyddio deunyddiau pacio nad ydynt yn rhai plastig. Mae siop Co-op y dref yn cefnogi'r fenter ac yn gweithio i leihau ei defnydd o blastig. Mae 16 o fasnachwyr yn Bishop's Castle a'r cyffiniau yn rhan o'r ap symudol Refill: ail-lenwi poteli dŵr am ddim i dwristiaid. Mae myfyrwyr o'n Coleg Cymunedol wedi bod yn cymryd rhan mewn digwyddiadau glanhau traeth, arolygon a'u fersiwn eu hunain o 'Fight the Plastic' ar eu campws. Mae'r ymgyrch bellach yn cynnwys grŵp casglu sbwriel misol yn y dref. Mae'r grŵp yn anelu at gyflogi cydgysylltydd prosiect a fydd yn arwain ac yn ehangu'r ymgyrch, gan rannu syniadau a phrofiadau â chymunedau eraill a'u helpu i frwydro yn erbyn plastigion hefyd. Ar hyn o bryd, mae'n cael arian gan y Cyd-bwyllgor Lleol, Lightfoot Enterprises, Cronfa Gymunedol Bishop's Castle a chais Crowdfunder (hydref 2018), yn ogystal ag arian a godwyd mewn gwahanol ddigwyddiadau. **Rhagor o wybodaeth: https://www.crowdfunder.co.uk/www-fighttheplastic-org-uk**

**#CleanUpBristolHarbour**

Mae hwn yn ddigwyddiad misol, a sefydlwyd yn 2016, sy'n gwahodd pobl i gasglu'r sbwriel ar wyneb y dŵr sy'n cronni yn yr harbwr. Mae'r grŵp yn gweithio'n agos gyda Swyddfa'r Harbwr, gyda'r nod o gofnodi faint o sbwriel a gesglir ym mhob digwyddiad glanhau a dangos sut mae'r sbwriel hwn yn effeithio ar yr harbwr. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn dibynnu'n fawr ar wirfoddolwyr yn dod â'u cyfarpar eu hunain. Yn ddiweddar, cafodd rodd gan STARLAB UK i gyflenwi menig i'w defnyddio ac mae wrthi'n chwilo am ragor o gymorth a chyllid.

**Rhagor o wybodaeth: http://cleanupbristolharbour.weebly.com/**

**Coast Care**

Mae hon yn fenter newydd a grëwyd i hyfforddi, cefnogi a rhoi adnoddau i wirfoddolwyr er mwyn cyfrannu at y gwaith o reoli a gwarchod arfordir Northumberland o Berwick i Amble. Caiff y prosiect ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth Natur Northumberland, Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Northumberland ac Ymddiriedolaeth Datblygu Seahouses a'i gefnogi gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Yn ogystal â hyfforddi gwirfoddolwyr ar bob agwedd ar waith monitro a gwella amgylcheddol, mae'r grŵp yn cefnogi digwyddiadau glanhau traeth corfforaethol, gan ennyn diddordeb busnesau yn yr amgylchedd lleol. **Rhagor o wybodaeth: http://www.coast-care.co.uk/**

**Cymdeithas Helwyr Adar Chichester**

Gyda chymaint o weithgarwch hela adar mewn sawl ardal wahanol o'r harbwr, mae'r grŵp hwn mewn sefyllfa dda i wybod ble mae'r mannau gwaethaf lle mae sbwriel wedi cronni. Ar sail y wybodaeth hon, mae'r gymdeithas yn casglu sbwriel mewn ardaloedd dethol ar y cyd â Sefydliad Cadwraeth yr Harbwr sy'n cael gwared ar y gwastraff ac yn darparu cyfarpar. Mae'n trefnu criwiau rheolaidd i gasglu sbwriel bob wythnos.

**Rhagor o wybodaeth: http://chichesterwildfowlers.org/**

**WyeUp – Ymgyrch Wye Unnecessary Plastic, a ddchreuodd ym mis Mawrth 2018.**

Lluniodd WyeUp restr o fusnesau yn Rhosan ar Wy, gan gategoreiddio pob un, h.y. caffi, bwyty, gwesty, tafarndy ac ati. Caiff yr eitemau plastig untro canlynol eu gwerthuso ym mhob busnes. Y rhain yw'r eitemau untro mwyaf cyffredin y mae lleoliadau yn eu cyflenwi i gwsmeriaid a dyma'r camau cyflawnadwy i fusnes eu cymryd er mwyn lleihau ei ddefnydd o blastig. Mae'n bwysig bod yn realistig ynglŷn â'r newidiadau y gellir eu gwneud a pha effaith y gallwn ei chael.

Cwpanau a blychau cludfwyd (plastig/polystyren)
Gwellt yfed plastig
Cytleri a throwyr plastig
Platiau plastig
Pacedi unigol o halen a phupur ac ati
Poteli plastig
Bagiau plastig (ar gyfer cwsmeriaid yn hytrach na gwastraff personol – dim dewis amgen ar gael)

I ddechrau, gofynnir i bob busnes lenwi holiadur er mwyn cadarnhau pwy sy'n defnyddio beth fel llinell sylfaen. Mae'r holiadur yn gofyn am y wybodaeth ganlynol: Mae WyeUp yn rhedeg cynllun gwobrwyo i

fusnesau yn seiliedig ar y defnydd o blastig ym mhob busnes. Pan gaiff holiadur ei ddychwelyd gyda neu heb adduned, yna caiff y wybodaeth ei hasesu i benderfynu pa lefel o'r cynllun gwobrwyo y maent wedi'i chyrraedd. Ni chânt eu gwobrwyo nes eu bod yn gwneud adduned. Mae tua 15 o wobrau wedi cael eu rhoi hyd yma, fel a ganlyn:
Aur = wedi cyflawni 7 allan o 7 categori
Arian = wedi cyflawni 5 allan o 7 categori
EFydd = wedi cyflawni 3 allan o 7 categori

**Rhagor o wybodaeth:** https://www.facebook.com/Plasticfreeross/

## Atodiad 6: Litter Free Coast & Somerset – Enillwyr Gwobrau Busnesau Sbwriel

**Organix, Bournemouth**
- arwynebau cownteri yng nghegin ac ystafelloedd ymolchi'r staff wedi'u gwneud o boteli eildro
- wedi lleihau trwch rhai o'i ddeunyddiau lapio mewn ymgais i leihau gwastraff plastig, nid yn unig yn ei swyddfeydd, ond hefyd drwy ei gwsmeriaid hefyd.

**Oceanarium, Bournemouth**
- yn darparu bagiau yn ei siop roddion
- yn cael gwared ar bacedi unigol o halen a phupur ac ati yn ei gaffi
- ail-lenwi am ddim

**SurfSteps, Boscombe**
- yn addysgu cleientiaid ar lygredd plastig
- yn casglu sbwriel yn ystod sesiynau syrffio

**Canolfan Arfordir Treftadaeth Charmouth**
- yn defnyddio adnoddau ailddefnyddiadwy i ymwelwyr
- yn dewis paent ar gyfer gweithgareddau yn ofalus (er mwyn osgoi blocio draeniau)
- yn rhan o gynllun Refill Dorset
- yn hyrwyddo ymgyrch 'What Not to Flush' yn ei thoiledau

**Academi Hwylio Genedlaethol Weymouth a Portland**
- yn hyrwyddo ymgyrch 'What Not to Flush' yn ei thoiledau
- yn defnyddio cwpanau amldro yn ei chaffi
- man ail-lenwi
- yn casglu dŵr glaw i olchi cychod
- yn ailgylchu dŵr er mwyn atal ymlediad plâu morol

## Atodiad 7: Aelodau Cynghrair Llygredd Plastig Cernyw

Ymddiriedolaeth Natur Cernyw
Y r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghernyw
Eglwys Gadeiriol Truro
Yr Athro Brendan J. Godley, Athro Gwyddorau Cadwraeth, Cyfarwyddwr y Ganolfan Ecoleg a Chadwraeth, Prifysol Caerwysg (Campws Penryn)
Ymddiriedolaeth Grŵp Ymchwil Morloi Cernyw
BeachCare
Gofal Traeth Penrhyn Rame
Cyfeillion Traeth Portheras
Sefydliad Achub Bywyd Morol Plymwyr Prydain
Pysgota am Sbwriel De-orllewin Lloegr
Lloches Morloi Cernyw
Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
Ymddiriedolaeth Natur Ynysoedd Sili
#2 Minute Beach Clean
Capturing our Coast
Surfers Against Sewage
Undeb Myfyrwyr Prifysgol Caerwysg a Falmouth
Grŵp Cadwraeth Forol Looe
Grŵp Morol Newquay
Tasglu Widemouth
Ardal Cadwraeth Forol Wirfoddol Helford
Grŵp Cadwraeth Forol Polzeath
Atlantic Diver
Cyfeillion Aber Fowey
Transition Falmouth
VMCA St Agnes

Transition Truro
Newquay Crab
Cadwraeth Forol Falmouth
Newquay Sea Safaris and Fishing
Yr Athro Richard Thompson (Adran Gwyddorau Morol Prifysgol Plymouth)
Fathoms Free
Crackington Crew
Grŵp Lost at Sea
Fishy Filaments
Gwirfoddolwyr Stryd Gwyrdd Truro
Cyfeillion Poldhu
Cyfeillion Traeth Polurrian
Cyfeillion y Ddaear, Gorllewin Cernyw
Y Mudiad Plastig
Transition St Agnes

## Atodiad 8: Aelodau Partneriaeth Cadwraeth yr Acwaria (2018)

Canolfan Bywyd Môr Alaska (Seward, AK)
Acwariwm y Bae (San Francisco, CA)
Acwariwm Audubon yr Americas (New Orleans, LA)
Acwariwm y Môr Tawel (Long Beach, CA)
Acwariwm Morol Cabrillo (San Pedro, CA)
Academi Gwyddorau Califfornia (San Francisco, CA)
Acwariwm Bae Monterey (Monterey, CA)
Acwariwm Mystic (Mystic, CT)
Acwariwm Cenedlaethol (Baltimore, MD)
Acwariwm New England (Boston, MA)
Acwariwm Newport (Newport, KY)
Acwariwm Gogledd Carolina yn Fort Fisher (Kure Beach, NC)
Acwariwm Gogledd Carolina yn Jennette's Pier (Jennette's Pier, NC)
Acwariwm Gogledd Carolina yn Pine Knoll Shores (Pine Knoll Shores, NC)
Acwariwm Gogledd Carolina ar Ynys Roanoke (Manteo, NC)
Sŵ ac Acwariwm Henry Doorly, Omaha (Omaha, NE)
Sŵ ac Acwariwm Point Defiance (Tacoma, WA)
Acwariwm Seattle (Seattle, WA)
Acwariwm Shedd (Chicago, IL)
Acwariwm De Carolina (Charleston, SC)
Acwariwm Talaith Texas (Corpus Christi, TX)
Acwariwm Fflorida (Tampa, Fflorida)
Acwariwm Tennessee (Chattanooga, TN)
Acwariwm Virginia (Virginia Beach, VA)
Acwariwm Efrog Newydd y Gymdeithas Gwarchod Bywyd Gwyllt (Brooklyn, NY)

## Atodiad 9: Enillwyr yr Her Dylunio Cylchol

**Enillwyr Dylunio Cylchol (2017)**

1. **MIWA** (y Weriniaeth Tsiec) - yn cyflwyno ap sy'n ei gwneud yn bosibl i siopwyr archebu union feintiau'r nwyddau sydd eu hangen arnynt, sydd wedyn yn cael eu dosbarthu mewn pecynnau eildro gan y cynhyrchydd i'w siop agosaf neu i'w cartref. Mae'n dosbarthu nwyddau groser heb ddeunydd pacio untro ac mae'n cwtogi ar blastig cartref.

2. **Algramo** (Chile) - yn cynnig cynhyrchion mewn meintiau bach mewn cynwysyddion eildro dros rwydwaith o 1,200 o siopau cyfleustra lleol yn Chile. Mae'n bosibl cael y swm cywir o gynnyrch heb fod angen pecynnau untro na ellir eu hailgylchu.

3. **Evoware** (Indonesia) - yn dylunio deunydd lapio a phacedi bwyd (sy'n cynnwys, er enghraifft, coffi parod neu gyflasynnau ar gyfer nwdls) a wnaed o ddeunydd gwymon y gellir ei doddi a'i fwyta.

4. **Delta** (y DU) - technoleg gryno sy'n ei gwneud yn bosibl i fwytai baratoi a gweini sawsiau mewn pacedi y gellir eu compostio.

5. **CupClub** (y DU) - yn cyflwyno gwasanaeth tanysgrifo cwpanau amldro, lle y gellir dychwelyd cwpanau amldro i unrhyw siop sy'n cymryd rhan.

6. **TrioCup** (yr UD) - cwpan papur tafladwy sy'n cael ei wneud drwy ddefnyddio techneg origami sy'n golygu nad oes angen caead plastig.  Mae'r tîm wedi dewis deunydd y gellir compostio 100% ohono ac mae'n gweithio ar ddeunydd amgen y gellir hefyd ailgylchu 100% ohono.

**Enillwyr Deunyddiau Cylchol (2018)**

1. Prifysgol Pittsburgh (yr UD)– sy'n defnyddio nanobeirianneg i greu deunydd eildro y gellir ei ddefnyddio yn lle deunydd pacio aml-haenog, cymhleth na ellir ei ailgylchu.

2. Aronax Technologies (Sbaen) - Haen fagnetig eildro a ddefnyddir yn lle deunydd pacio amlhaenog.

3. Full Cycle Bioplastics (yr UD) - Deunydd pacio a wnaed o bren a gwastraff planhigion, y gellir ei fwydo i facteria a'i droi'n blastig newydd eto.

4. Canolfan Ymchwil Dechnegol VTT y Ffindir - Gwaith pacio sydd â golwg a gwead plastig ond sydd wedi'i wneud o bren.

5. Sefydliad Ymchwil Silicad Fraunhofer (yr Almaen) - Caen organig ar gyfer plastig sy'n golygu bod modd compostio deunydd pacio bwyd ffres.

## Atodiad 10: Fframwaith Byd-eang ar gyfer Atal a Rheoli Gweddillion Morol

| Table ES-1. Global Framework for Prevention and Management of Marine Debris |
|---|
| **Goal A: Reduced amount and impact of land-based sources of marine debris introduced into the sea** |
| Strategy A1. Conduct education and outreach on marine debris impacts and the need for improved solid waste management |
| Strategy A2. Employ market-based instruments to support solid waste management, in particular waste minimization |
| Strategy A3. Employ infrastructure and implement best practices for improving stormwater management and reducing discharge of solid waste into waterways |
| Strategy A4. Develop, strengthen, and enact legislation and policies to support solid waste minimization and management |
| Strategy A5. Improve the regulatory framework regarding stormwater, sewage systems, and debris in tributary waterways |
| Strategy A6. Build capacity to monitor and enforce compliance with regulations and permit conditions regarding litter, dumping, solid waste management, stormwater, and surface runoff |
| Strategy A7. Conduct regular cleanup efforts on coastal lands, in watersheds, and in waterways— especially at hot spots of marine debris accumulation |
| **Goal B: Reduced amount and impact of sea-based sources of marine debris, including solid waste; lost cargo; abandoned, lost, or otherwise discarded fishing gear (ALDFG); and abandoned vessels, introduced into the sea** |
| Strategy B1. Conduct ocean-user education and outreach on marine debris impacts, prevention, and management |
| Strategy B2. Develop and strengthen implementation of waste minimization and proper waste storage at sea, and of disposal at port reception facilities, in order to minimize incidents of ocean dumping |
| Strategy B3. Develop and strengthen implementation of industry best management practices (BMP) designed to minimize abandonment of vessels and accidental loss of cargo, solid waste, and gear at sea. |
| Strategy B4. Develop and promote use of fishing gear modifications or alternative technologies to reduce the loss of fishing gear and/or its impacts as ALDFG |
| Strategy B5. Develop and strengthen implementation of legislation and policies to prevent and manage marine debris from at-sea sources, and implement requirements of MARPOL Annex V and other relevant international instruments and agreements |
| Strategy B6. Build capacity to monitor and enforce (1) national and local legislation, and (2) compliance with requirements of MARPOL Annex V and other relevant international instruments and agreements |
| **Goal C: Reduced amount and impact of accumulated marine debris on shorelines, in benthic habitats, and in pelagic waters** |
| Strategy C1. Conduct education and outreach on marine debris impacts and removal |
| Strategy C2. Develop and promote use of technologies and methods to effectively locate and remove marine debris accumulations |
| Strategy C3. Build capacity to co-manage marine debris removal response |
| Strategy C4. Develop or strengthen implementation of incentives for removal of ALDFG and other large accumulations of marine debris encountered at sea |
| Strategy C5. Establish appropriate regional, national, and local mechanisms to facilitate removal of marine debris |
| Strategy C6. Remove marine debris from shorelines, benthic habitats, and pelagic water |

## Atodiad 11: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Adroddiad ar y prosiect Llai o Sbwriel – Ysgol Gyfun Cynffig

| ADRODDIAD TERFYNOL AR Y PROSIECT LLAI O SBWRIEL |
| --- |
| **Enw'r Ysgol: YSGOL GYFUN CYNFFIG** |

**Disgrifiwch yn fras y gweithgareddau a wnaed gennych ar gyfer y prosiect Llai o Sbwriel. Dylech adrodd ar y canlynol:**

**1. Y gweithgareddau yn/o amgylch eich ysgol**

**2. Y gweithgaredd casglu sbwriel ar eich Diwrnod Gweithredu Cymunedol**

## GWEITHGARWCH YR YSGOL

**Beth oedd eich prif weithredoedd a sut y gwnaethoch benderfynu arnynt?**

**Ysgol**

1. Ers mis Medi rydym wedi mynd allan BOB dydd Mawrth a dydd Iau i dir yr ysgol. Mae ein tîm o gasglwyr sbwriel wedi tyfu fesul tipyn! Rydym yn gwisgo ein gwasgodau llachar ac yn siarad â'r disgyblion am roi eu sbwriel yn y biniau a ddarperir.
2. Rydym wedi cael trafodaethau â'r staff gofalu am le i roi'r biniau sbwriel.
3. Rydym wedi treialu biniau ailgylchu 'plastigion' mewn 10 ystafell ddosbarth allweddol.

**Cymuned**


1. Gan weithio gydag MB o Cadwch Gymru'n Daclus – rydym wedi cytuno ar ardal sydd â phroblem sbwriel yn agos iawn at ein hysgol ac wedi mynd ati fel lladd nadroedd i gasglu sbwriel yno bedair gwaith.

**Sut y gwnaethoch ymgysylltu â disgyblion eraill yn yr ysgol? A wnaethoch greu ymgyrch?**

1. Gwnaethom greu posteri yn rhoi gwybodaeth am y gweithgareddau casglu sbwriel amser cinio.
2. Daeth MB i'r ysgol a chynnal gwasanaeth ergydiol ar y cyd â'n Eco-Bwyllgor – gan arllwys bag llawn o sbwriel ar y llwyfan!
3. Gwnaethom sefydlu cyfrif Twitter, sef @CynffigEcoClub – caiff wybodaeth newydd ei chyhoeddi arno yn rheolaidd. Mae nifer o bobl sy'n byw yn ein cymuned leol wedi gwneud sylwadau ar ein cyhoeddiadau.

**A wnaethoch benderfynu ar arwyddair/cod i'w ddefnyddio ar y cyd â'r gweithgareddau/ymgyrch? Beth oedd hynny?**

1. Gwnaethom rywfaint o waith ar ein Eco-God yn ogystal â chynllunio ymgyrch posteri i annog pobl i ofalu am y goedwig. Gweler y poster buddugol isod.




**Disgrifiwch yn fras eich llwyddiannau yn ystod y prosiect:**

**Pa weithgareddau/camau gweithredu a weithiodd yn dda? Pa bethau y gwnaeth y disgyblion eu mwynhau fwyaf? A yw'r ymgyrch/prosiect wedi cael effaith?**

Mae ein disgyblion wedi bod WRTH EU BODDAU yn mynd allan i gasglu sbwriel yn y gymuned. Mae ein tîm wedi tyfu'n sylweddol! Roedd y disgyblion yn falch o weld y gwahaniaeth yr oeddent yn ei wneud ac mae barn gref gan nifer ohonynt ynghylch gofalu am ein hamgylchedd. Roedd hyn i'r fath raddau, er i ni gymryd seibiant yn ystod gwersi'r wythnos hon – roedd LLAWER o'r disgyblion yn gofyn a allent fynd allan o hyd!

Mae'r gwaith rydym wedi dechrau ei wneud wedi cael effaith HEB OS!!! Rydym yn bwriadu ehangu ac adeiladu ar y seiliau rydym wedi eu sefydlu! Bydd camau bach yn cael effaith fawr.

**Sut ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth?**

**Disgrifiwch yr effaith y mae gweithgareddau'r prosiect Llai o Sbwriel wedi ei chael ar yr ysgol a'r disgyblion a gymerodd ran**

Mae wedi cael effaith gynyddol, gyda mwy a mwy o ddisgyblion yn dangos diddordeb! Rydym wedi bod yn lledaenu'r neges yn yr ysgol ynghylch taflu sbwriel, ac yn gobeithio y bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y mae pobl yn ymddwyn yn y gymuned.

**Disgrifiwch unrhyw welliannau y mae'r prosiect cyffredinol wedi eu gwneud a nodwch unrhyw ddata sy'n dangos hyn.**

**Hoffem weld a ydych chi wedi gwella eich ffigurau sbwriel/ gwastraff. Dylech fod mor gywir â phosibl (nifer o fagiau/darnau o sbwriel)**



*Ffigurau/data ar ddechrau'r Ymgyrch:* ***Sbwriel a gasglwyd bob wythnos – 1.2kg***
*Ffigurau/data ar ddiwedd yr Ymgyrch:* ***Sbwriel a gasglwyd bob wythnos – 0.4kg***
*Cynhaliwyd gweithgareddau casglu sbwriel gan yr Eco-Griw bob wythnos. O ganlyniad i'r gweithgareddau casglu sbwriel cyson a'r ymgyrch codi ymwybyddiaeth uchel ei phroffil, roedd lleihad sylweddol o ran faint o sbwriel a daflwyd, fel y mae'r ffigurau yn ei ddangos.*

## DIWRNOD GWEITHREDU CYMUNEDOL

**Disgrifiwch eich Diwrnod Gweithredu Cymunedol. Beth a wnaethoch chi? Pwy wnaeth gymryd rhan?**

Cynhaliwyd cyfres o ddiwrnodau gweithredu cymunedol yng Nghoedwig Frog Lane. Cynhaliodd yr Eco-Bwyllgor arolwg o'r ardal gan dynnu lluniau o'r ardal a ddewiswyd. Roedd y rhain yn dangos pa mor hirdymor yw'r broblem gyda sbwriel, gan fod sawl gwahanol fath o ganiau diod i'w gweld, rhai yn mynd yn ôl sawl blwyddyn. Roeddent hefyd yn dangos y gwahanol fathau o sbwriel a oedd yno – gweler y ddogfen a atodir.
Ceir enghreifftiau o luniau cyn ac ar ôl isod, ac mae mwy i'w gweld yn y ddogfen a atodir, sy'n dangos y gwelliant aruthrol a wnaed gan Eco-grŵp Ysgol Cynffig.
Roedd y grŵp yn trydar yn rheolaidd am eu hymdrechion, ac maent wedi cael nifer o ymatebion cadarnhaol mewn perthynas â'u gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol a chan pobl a oedd yn gweld eu gwaith drostynt eu hunain. O ganlyniad i hyn, maent wedi cael cynnig stondin mewn diwrnod agored cymunedol ym mis Mehefin er mwyn hybu materion taflu sbwriel, lle y bydd y disgyblion yn rhedeg y stondin.

**A yw wedi cael effaith yn y gymuned? Dylech gynnwys dyfyniadau a lluniau.**

Gweler yr adran uchod.




Mae'r lluniau yn dangos ffotograffau o'r ardal cyn i'r sbwriel gael ei gasglu ac ar ôl hynny. Gweler y ddogfen a atodir am fwy o luniau.

**Faint o fagiau o sbwriel y gwnaethoch eu casglu?**

Casglwyd cyfanswm o 32 o fagiau o sbwriel, yn ogystal â darnau mawr o sbwriel a roddwyd mewn sgip yn uniongyrchol. Roedd y rhain yn cynnwys côn traffig, basged siopa, lloriau a chadair.
Ymwelwyd â'r goedwig bythefnos ar ôl y gweithgaredd casglu sbwriel olaf ac nid oes unrhyw sbwriel yno o hyd.

**Sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth o'ch canfyddiadau? A oes gennych unrhyw gynlluniau at y dyfodol?**

Defnyddiwyd Twitter yn helaeth er mwyn rhannu gwybodaeth am y profiadau casglu sbwriel. Dyma enghraifft:




Am fod gweithgareddau'r Eco-Grŵp wedi cael cymaint o sylw, mae'r grŵp wedi cael gwahoddiad i redeg stondin fel rhan o'r diwrnod cymunedol lleol, ac i gynnal digwyddiad casglu sbwriel ehangach yn y goedwig.

## Atodiad 12: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Adroddiad ar y prosiect Llai o Sbwriel - Ysgol Gynradd Waunfawr

**ADRODDIAD TERFYNOL AR Y PROSIECT LLAI O SBWRIEL**

**Enw'r Ysgol: Ysgol Gynradd Waunfawr**

**Disgrifiwch yn fras y gweithgareddau a wnaed gennych ar gyfer y prosiect Llai o Sbwriel. Dylech adrodd ar y canlynol:**

**1. Y gweithgareddau yn/o amgylch eich ysgol**

**2. Y gweithgaredd casglu sbwriel ar eich Diwrnod Gweithredu Cymunedol**

**GWEITHGARWCH YR YSGOL**

**Beth oedd eich prif weithrediadau a sut y gwnaethoch benderfynu arnynt?**

Y prif nod oedd lleihau'r swm o wastraff plastig (a'r sbwriel plastig). Gwnaethom ymchwilio i dri phrif weithred:

1. Atal staff y ffreutur rhag cynnig poteli dŵr untro amser cinio a sicrhau eu bod yn defnyddio jygiau dŵr y gellir eu hail-lenwi yn lle hynny
2. Atal staff y ffreutur rhag defnyddio cling ffilm i lapio'r rholiau a weinir, gan ddefnyddio tongiau i weini'r rholiau yn lle hynny.
3. Ymchwilio i ffordd o leihau faint o boteli llaeth plastig a ddefnyddir gan yr ysgol.

**Sut y gwnaethoch ymgysylltu â disgyblion eraill yn yr ysgol? A wnaethoch greu ymgyrch?**




Gwnaethom gynnal gwasanaethau ar gyfer yr ysgol gyfan a sefydlu cyfrif Twitter 'Eco' newydd ar gyfer yr ysgol. Gwnaethom hefyd geisio ymgysylltu â'r gymuned ysgol ehangach drwy gyflwyno ein gwaith i'r rhieni a'r llywodraethwyr. Er mwyn ennill cefnogaeth i'n gwaith i leihau faint o blastig a ddefnyddir (yn benodol y 12,960 o boteli llaeth plastic traean peint y mae'r ysgol yn eu cael bob blwyddyn), gwnaethom hefyd ysgrifennu at y Cyngor, ASau, a David Attenborough, a meithrin perthynas ag ysgol yn Sir Benfro a oedd yn treialu defnyddio poteli llaeth gwydr amldro.


**A wnaethoch benderfynu ar arwyddair/cod i'w ddefnyddio ar y cyd â'r gweithgareddau/ymgyrch? Beth oedd hynny?**

Gwnaethom ddefnyddio'r ymadrodd 'Back to the Future with Glass Milk bottles' fel enw ymgyrch, yn ogystal â'r hashnod #DoYouHaveTheBottle? Gwnaethom ddefnyddio'r hashnod #plasticfreeschool hefyd ar gyfer ein gwaith ehangach i leihau gwastraff plastig.




**Disgrifiwch yn fras eich llwyddiannau yn ystod y prosiect:**
**Pa weithgareddau/camau gweithredu a weithiodd yn dda? Pa bethau y gwnaeth y disgyblion eu mwynhau fwyaf? A yw'r ymgyrch/prosiect wedi cael effaith?**
Mae ein hymgyrch i leihau faint o blastig a ddefnyddir yn yr ysgol wedi mynd o nerth i nerth – yn ogystal â chael llythyr gan Syr David Attenborough yn ein llongyfarch, rydym hefyd wedi gweithio gyda nifer o adrannau ac aelodau cyngor o Gyngor Caerffili, ac wedi cyfarfod â'n AS lleol i drafod sut y gellir dibynnu'n llai ar blastig. Mae'r prosiect wedi cael effaith anferth prosiect – rydym yn lleihau faint o wastraff plastig rydym yn ei gynhyrchu yn aruthrol, ac mae'r disgyblion yn sylweddoli eu bod yn gallu gwneud rhywbeth, a bod eu llais yn bwysig, sydd wir yn wych.

**Sut ydych chi wedi gwneud gwahaniaeth?**
**Disgrifiwch yr effaith y mae gweithgareddau'r prosiect Llai o Sbwriel wedi ei chael ar yr ysgol a'r disgyblion a gymerodd ran**
Mae'r ysgol gyfan yn fwy ymwybodol bod sbwriel a gwastraff (plastig yn benodol) nid yn unig yn broblem i'r ysgol, ond yn cael effaith anferth yn fyd-eang. Rydym wedi cysylltu ein gwaith i leihau'r defnydd o blastig yn yr ysgol a chasglu sbwriel plastig o'r man gwyrdd cymunedol â'r broblem fyd-eang o blastig yn y cefnforoedd. Mae'r disgyblion yn sylweddoli y gall eu gweithredoedd yn Crosskeys (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) gael effeithiau ehangach, gan effeithio ar y byd cyfan.
Mae'r disgyblion a gymerodd ran wedi magu hyder drwy fynd i'r afael â'r materion hyn - maent wedi gohebu â phobl bwysig a chael ymateb, gan wneud iddynt deimlo bod eu llais yn cael ei glywed a'u bod yn gallu gwneud newid.
Ar lefel ymarferol, drwy leihau gwastraff plastig yn yr ysgol, gwnaethom osod esiampl i'r disgyblion ddysgu ohoni ac un a fydd, gyda lwc, yn eu hysbrydoli.




*Llythyr a gafwyd gan Syr David Attenborough yn llongyfarch y disgyblion ar eu gwaith*

---

**Disgrifiwch unrhyw welliannau y mae'r prosiect cyffredinol wedi eu gwneud a nodwch unrhyw ddata sy'n dangos hyn.**

Nifer y poteli dŵr plastig untro a oedd yn cael eu defnyddio bob wythnos gan yr ysgol cyn y prosiect: 144
Ar ôl y prosiect: 0
**Mae hyn yn gyfystyr ag arbed 5616 o boteli plastig y flwyddyn.**

Faint o gling ffilm a oedd yn cael ei ddefnyddio bob tymor gan yr ysgol cyn y prosiect: 1000m o gling ffilm.
Ar ôl y prosiect: 0
**Mae hyn yn gyfystyr ag arbed 3km o gling ffilm y flwyddyn!**

Nifer y poteli llaeth plastig 1/3 peint a oedd yn cael eu defnyddio bob dydd gan yr ysgol cyn y prosiect: 72
Ar ôl y prosiect: Mae'r prosiect yn mynd rhagddo!
**Mae hyn yn gyfystyr â 12,910 o boteli y flwyddyn rydym yn gobeithio eu harbed.**

---

***Rowch 2 lun sy'n ymwneud â'ch gweithgareddau yma.***
***Dylech eu rhoi yma neu eu hanfon atom gyda'ch adroddiad terfynol.***



***Yr Eco-Bwyllgor yn codi ymwybyddiaeth yr ysgol gyfan drwy wasanaeth, a'r Eco-Bwyllgor yn dathlu gyda'r cogydd ar ôl newid o boteli dŵr plastig untro i jygiau amldro, a thrwy hynny yn arbed x o boteli bob dydd rhag cael eu defnyddio.***

## DIWRNOD GWEITHREDU CYMUNEDOL

**Disgrifiwch eich Diwrnod Gweithredu Cymunedol. Beth a wnaethoch chi? Pwy wnaeth gymryd rhan?**

Cynhaliodd y disgyblion weithgaredd casglu sbwriel o amgylch Parc Waunfawr (sef man cymunedol mawr ni nepell o'r ysgol), a oedd hefyd yn cynnwys gwaith clirio ar hyd glannau afon Ebwy. Roedd yn gyfle i ni ddatblygu ein gwaith i fynd i'r afael â'r broblem o blastig yn y cefnforoedd drwy gasglu sbwriel a fyddai, fwy na thebyg, yn cael ei chwythu o'r parc i mewn i'r afon, a hefyd helpu i dacluso man gwyrdd lleol a ddefnyddir gan y gymuned.

Ar ôl edrych ar y sbwriel a gasglwyd, gwelsom fod 80% ohono yn blastig. Er nad oedd y disgyblion yn gallu mynd yn agos i'r afon eu hunain, casglodd Andy ychydig o eitemau mawr ar lan yr afon, gan gynnwys deunyddiau adeiladu a hen glustogau soffa. Roedd hyn yn agoriad llygad llwyr i'r disgyblion.





**A yw wedi cael effaith yn y gymuned? Dylech gynnwys dyfyniadau a lluniau.**

*"Mae'r bobl ifanc hyn yn gwneud rhywbeth i helpu'r ardal ac mae'n hyfryd gweld hynny. Mae'n wych eu gweld nhw allan yn yr awyr iach ac yn helpu'r amgylchedd. Heddiw mae pobl yn tueddu i gwyno am bobl ifanc, ond mae'r rhain yn gwneud rhywbeth sydd wir yn gadarnhaol - gwych!"*
Aelod o'r cyhoedd a oedd yn cerdded ym Mharc Waunfawr

*"Roedd yr Eco Bwyllgor yn llawn brwdfrydedd, ac roedd yn benderfynol o wneud gwaith da. Mae'r disgyblion yn deall, drwy gwneud rhywbeth cadarnhaol yn eu hardal leol, y gallan nhw gael effaith gadarnhaol yn fyd-eang,"* Andy King, Cadwch Gymru'n Daclus

**Faint o fagiau o sbwriel y gwnaethoch eu casglu?**

4 bag o sbwriel, yn ogystal â nifer o eitemau mawr.



**Sut y byddwch yn codi ymwybyddiaeth o'ch canfyddiadau? A oes gennych unrhyw gynlluniau at y dyfodol?**

Rydym wedi dechrau ein cyfrif Twitter ein hunain ar gyfer materion amgylcheddol yn yr ysgol. Roedd Eco-Sgolion hefyd wedi trydar am ein gweithgaredd casglu sbwriel. Bydd yr Eco Bwyllgor yn adrodd yn ôl i'r ysgol gyfan drwy gynnal gwasanaeth hefyd.



## Atodiad 13: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Gweithdy Addysg Sbwriel Môr – Ysgol Bae Baglan

### Ysgol Bae Baglan – Diwrnod Gweithredu – Gwastraff a Sbwriel

'Eco-Sgolion' yw'r rhaglen ysgolion cynaliadwy fwyaf yn y byd, a chaiff ei rhedeg gan y Sefydliad dros Addysg Amgylcheddol. Caiff ei ariannu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol i helpu ysgolion i gynnal Eco Ddiwrnod Gweithredu mewn perthynas â sbwriel, lleihau gwastraff, bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion neu ynni cyn diwedd mis Mawrth 2019. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru ac yn hwyluso hynt ysgolion drwy lefelau dyfarnu Eco-Sgolion.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 15 Chwefror 2019 |
| **Enw'r ysgol** | Ysgol Bae Baglan |
| **Lleoliad** | Seaway Parade, Port Talbot, SA12 7BL |
| **Ardal Awdurdod Lleol** | Castell-nedd Port Talbot |
| **Lefel ddyfarniad yr Ysgol** | Arian |
| **A wnaethoch chi gynnwys unrhyw un arall yn eich prosiect neu ddefnyddio unrhyw adnoddau allanol?** | Dd/G |
| **Manylion y Prosiect** | |
| **Pa bwnc yr oeddech yn mynd i'r afael ag ef?** | Sbwriel/Gwastraff gan ganolbwyntio ar sbwriel môr |
| **Prif amcan y diwrnod gweithredu** | Cyflwyno materion yn ymwneud â llygredd sbwriel ar dir ac yn y cefnfor i bobl ifanc drwy eu hannog i feddwl eu bod yn gallu cael effaith gadarnhaol yn y maes hwn. |
| **Sut y nodwyd yr amcan hwn?** | Gwnaethom benderfynu canolbwyntio ar y cynefin morol oherwydd y diddordeb mawr yn y maes hwn sydd wedi'i greu gan ar raglenni teledu, yn arbennig rhaglen Blue Planet. |
| **Pwy oedd yn cymryd rhan?** | Yr ysgol gyfan mewn gwasanaeth. Wedyn, cymerodd disgyblion Cyfnod Allweddol 2 ran mewn gweithdai drwy'r dydd. |
| **Beth a wnaethoch chi?** | Dechreuodd y diwrnod gweithredu gyda gwasanaeth ysgol gyfan. Nod y gwasanaeth hwn oedd creu ymwybyddiaeth o broblem ehangach sbwriel a'i effaith ar yr amgylchedd. Defnyddiwyd gemau i ennyn brwdfrydedd. Un o'r uchafbwyntiau oedd y gêm 'mynd yn gylymau'. Ar ôl edrych ar luniau o fywyd gwyllt â phlastig wedi'i lapio o'u hamgylch, rhoddwyd dolen lastig i bob disgybl i'w lapio o amgylch ei law i roi iddo deimlad o sut mae cael eich 'tagu' gan blastig. Roedd yn rhaid iddo |

dynnu'r ddolen heb ddefnyddio ei ddwylo. Roedd pob un ohonynt yn cael trafferth yn gwneud hyn! Cafwyd trafodaeth am sut roedd yn teimlo.

Gwnaeth y gweithdy dynnu sylw at y daith a wneir o'r tir i'r môr gan ddarnau o sbwriel cyffredin sy'n cael eu taflu yn eu cymuned leol. Defnyddiwyd gweithgareddau i edrych ar y mathau cyffredin o sbwriel sy'n cyrraedd ein cefnforoedd. Yr uchafbwynt oedd y gweithgaredd clirio traeth 2 funud. Roedd yn rhaid i'r disgyblion ddod o hyd i 20 darn o sbwriel o'r traeth dros dro. Roedd yn rhaid iddynt wisgo siacedi llachar a menig cyn dechrau arni. Roedd y sbwriel yn amrywio o ran maint a deunydd, o boteli plastig i rwyd bysgota. Roedd y rhan fwyaf yn blastig.

Daeth y sesiwn i ben gyda'r disgyblion yn addo i helpu gyda'r broblem o ran sbwriel:

"Ar ôl gweld yr hyn sy'n cyrraedd y traeth o'r tŷ bach, rydym am ymchwilio i ba mor gyflym y mae pethau'n torri i lawr ar ôl iddynt fynd i lawr y ddraen" (disgybl Bl6).
"Rwy'n mynd i anfon llythyrau i roi gwybod i bobl am yr hyn sy'n digwydd. Archfarchnadoedd a David Attenborough rwy'n meddwl" (disgybl Bl5).
"Dylwn ni drin anifeiliaid fel yr ydym ni am gael ein trin – codwch eich sbwriel" (disgybl Bl4).

**Sut y cafodd hyn ei rannu â chymuned yr ysgol gyfan?**

Gwnaeth yr ysgol gyfan gymryd rhan mewn gwasanaeth yn cyflwyno'r broblem sbwriel a'r goblygiadau i'r amgylchedd. Cyhoeddwyd negeseuon ar Twitter drwy'r dydd gan y staff addysgu, gan ledaenu'r neges i gymuned ehangach yr ysgol.

**Pa mor llwyddiannus oedd eich diwrnod gweithredu?**

Roedd y diwrnod yn llwyddiant, ac roedd y disgyblion yn cymryd diddordeb mawr yn y gweithgareddau drwy'r dydd. Ysgrifennwyd y dyfyniad canlynol gan Bennaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol:

"Roeddwn i am ddweud pa mor wych roedd ein diwrnod Gweithdy Sbwriel Môr. Roedd y disgyblion o'r farn bod y sesiynau yn llawn gwybodaeth, a gwnaethant fwynhau'r gwasanaeth a'r gweithdy rhyngweithiol. Mae'n bwnc mor bwysig, ac mae wir yn ein helpu i gyrraedd ein targedau fel Eco-Ysgol (un o'r rhain yw codi ymwybyddiaeth a cheisio lleihau sbwriel plastig yn yr ysgol eleni). Mae hefyd yn helpu i gysylltu gweithgareddau allgyrsiol, megis casglu sbwriel, â chanlyniadau gweithrediadau dynol yn fyd-eang. Cafodd y diwrnod ei drefnu'n dda, gydag adnoddau da, ac roedd yn wych i gael pecynnau casglu sbwriel i ymgorffori'r negeseuon yn y cwricwlwm. Gwnaeth y wybodaeth ddiweddaraf a'r ymweliad gennych chi hefyd helpu i godi ymwybyddiaeth o blastig yn y cefnforoedd a'r afonydd, yn ogystal â chodi proffil ein Eco Bwyllgor." (Miss Stead, Pennaeth Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Ysgol Bae Baglan).

**Gwersi a ddysgwyd**

Mae angen sicrhau llif dynamig o weithgareddau drwy'r gwasanaeth a'r gweithdy i gynnal diddordeb y disgyblion yn llwyr.

**Cynlluniau at y dyfodol, h.y. a gymerir camau dilynol ar sail y Diwrnod**

Sbardunodd y diwrnod broses Eco-Sgolion tuag at gael statws Baner Werdd. Cafwyd trafodaeth â chydlynydd Eco-Sgolion fel rhan o'r Diwrnod Gweithredu, gan nodi sut y gellid datblygu gweithredoedd ar sail y pwnc Lleihau Sbwriel a Gwastraff.

| | |
|---|---|
| **Gweithredu, neu a gaiff ei gynnal eto?** | |
| **Sut y gwnaethoch gysylltu'r Diwrnod Gweithredu â'r cwricwlwm?** | Cafwyd y prif gysylltiad â'r diben 'dod yn ddinasyddion egwyddorol gwybodus yng Nghymru a'r Byd', gyda chysylltiad penodol â'r canlynol:<br>• Deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth wneud dewisiadau ac wrth weithredu.<br>• Dangos eu hymrwymiad i gynaliadwyedd y blaned. |
| **A wnaeth eich Diwrnod Gweithredu arwain at unrhyw newid mewn ymddygiad Y TU ALLAN i'r ysgol, h.y. yn y cartref neu'r gymuned ehangach?** | Gwnaeth y disgyblion addo i wneud sawl peth gan gynnwys y canlynol:<br>• Torri lawr ar eu defnydd o blastigion untro.<br>• Cymryd rhan mewn gweithgareddau casglu sbwriel yn eu cymuned.<br>• Bod yn gyfrifol am eu sbwriel eu hunain yn ogystal â chasglu sbwriel pobl eraill.<br>• Creu posteri i dynnu sylw at y problemau a achosir gan daflu sbwriel. |
| **A wnaeth eich Aelod Cynulliad gymryd rhan ar y diwrnod? Beth a wnaeth eich AC?** | Dd/G |
| **Sut yr oeddech yn creu cyhoeddusrwydd e.e. twitter, y wasg, gwefan yr ysgol.** | Defnyddiwyd Twitter gan yr athrawon drwy gydol y dydd i ledaenu'r neges i gymuned ehangach yr ysgol. |

## Atodiad 14: Eco-Sgolion Cadwch Gymru'n Daclus: Gweithdy Addysg Sbwriel Môr

**'Mae Sbwriel Môr yn ein Digio!'**

**Ysgol Hafan Y Môr, Dinbych-y-pysgod, Sir Benfro.**

'Eco-Sgolion' yw'r rhaglen ysgolion cynaliadwy fwyaf yn y byd, a chaiff ei rhedeg gan y Sefydliad dros Addysg Amgylcheddol. Caiff ei hariannu yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a chaiff ei rhedeg gan Cadwch Gymru'n Daclus.

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian ychwanegol i helpu ysgolion i gynnal Eco Ddiwrnod Gweithredu mewn perthynas â sbwriel, lleihau gwastraff, bioamrywiaeth ar diroedd ysgolion neu ddŵr cyn diwedd mis Mawrth 2018. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau Llywodraeth Cymru ac yn hwyluso hynt ysgolion drwy lefelau dyfarnu Eco-Sgolion.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 16/02/18. |
| **Enw'r ysgol** | Ysgol Hafan Y Môr. |
| **Lleoliad** | Dinbych-y-pysgod. |
| **Ardal** | Sir Benfro. |
| **Awdurdod Lleo** | |
| **Lefel ddyfarniad yr Ysgol** | Arian (yn bwriadu ceisio am faner werdd yn ystod tymor yr haf 2018). |
| **A wnaethoch chi gynnwys unrhyw un aral yn eich prosiec neu ddefnyddi unrhyw adnoddau allanol?** | Do, Anna Strzelecki, sef cynrychiolydd lleol y grŵp Surfers against Sewage.<br>Caffi Pura, Dinbych-y-pysgod (a roddodd eitemau amgen i blastig fel gwobrau i'r disgyblion ar y diwrnod). |

**Manylion y Prosiect**

**Pa bwnc yr oeddech yn mynd i'r afael ag ef?**

Sbwriel (*a* gwastraff).

**Prif amcan y diwrnod gweithredu**

Codi ymwybyddiaeth o broblem sbwriel môr yn yr amgylchedd morol lleol yn Sir Benfro.

**Bwletin i rieni 16.02.18:**
Dydd Gwener yw'r Eco Ddiwrnod! Rydym yn gofyn i blant wisgo dillad gwyrdd i'r ysgol am y diwrnod. Bydd Kiri Howell o Eco-Sgolion yn ymweld, a bydd y disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion o sbwriel a gwastraff, a phwysigrwydd gofalu am ein byd at y dyfodol.

**Sut y nodwyd yr amcan hwn?**

Am fod y plant yn gwylio rhaglen Blue Planet, a'n bod ni yn ysgol glan môr, roeddwn o'r farn bod hyn yn briodol iawn.

**Pwy oedd yn cymryd rhan?**

Gwnaeth yr holl blant a staff addysgu gymryd rhan mewn sesiynau a gyflwynwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus a Surfers Against Sewage.

**Beth a wnaethoch?**

Rhoddwyd gwybod i'r plant a'r rhieni am y diwrnod a'i ddiben.

Gwnaeth yr holl blant wisgo gwyrdd yn lle gwisg ysgol.

Cynhaliwyd gwasanaeth rhagarweiniol i'r ysgol gyfan ar bwnc sbwriel a gwastraff gan Kiri Howell o Cadwch Gymru'n Daclus.

Gwnaeth yr holl ddisgyblion gymryd rhan mewn gweithdy sbwriel môr gyda Kiri a sesiwn celf sbwriel môr gydag Anna Strzelecki o Surfers Against Sewage.

Gwnaeth Kiri drafod gwaith sbwriel sy'n gysylltiedig â gwyddoniaeth a daearyddiaeth, gan ganolbwyntio ar fywyd gwyllt lleol ac effeithiau plastigion morol yn fyd-eang, a gwnaeth Anna adael i'r plant fod yn greadigol annibynnol gyda'i sbwriel traeth, gan dynnu sylw at yr amrywiaeth syfrdanol o wastraff plastig y deuir o hyd iddo yn lleol. Roedd y ddwy sesiwn yn canolbwyntio ar gyfleoedd y gallai'r disgyblion eu cymryd i wella'r broblem o blastig, yn lleol ac yn fyd-eang.

Cynhaliodd y disgyblion weithgaredd rhithwir glanhau traeth:



Gwnaethant ddidoli, enwi a hyd yn oed dyddio eitemau o sbwriel plastig o draethau lleol:





Defnyddiodd disgyblion Blwyddyn 5/6/7 adnoddau i greu amrywiaeth o eitemau gan gynnwys breichledi a chlychau gwynt:







Gwnaeth y disgyblion greu eu harwydd eu hunain ar gyfer y gweithgaredd glanhau traeth:



Esboniodd Kiri Howell effeithiau plastig morol ar fioamrywiaeth leol a gweoedd bwyd byd-eang:



Gwnaeth yr holl ddisgyblion ddidoli eitemau naturiol ac annaturiol y deuwyd o hyd iddyn nhw ar draethau lleol:



Edrychodd y disgyblion hŷn ar gyfnodau dadelfennu:



Gwnaeth y disgyblion ieuengaf (3 oed) ddysgu am anifeiliaid lleol a chreu gwaith celf â thema forol gan ddefnyddio plastigion traeth:





**Sut y cafodd hyn ei rannu â chymuned yr ysgol gyfan?**

Fel y nodwyd uchod, ond gwnaeth yr athrawon hefyd addasu gwersi i gyd-fynd â'r pwnc ar y diwrnod e.e. monitro biniau ailgylchu a gwylio fideos ategol ar YouTube.

Roedd hefyd yn ddiwrnod rhyngwladol yn yr ysgol, felly roedd y gwersi yn canolbwyntio ar y byd amrywiol.

Gwnaethom rannu negeseuon ar Twitter a Facebook cyn, yn ystod ac ar ôl y diwrnod.

Fel ysgol, rydym yn gweithio tuag at ddyfarniad Baner Werdd Eco-Sgolion, ac felly mae nifer o wahanol fentrau gennym ar waith ar hyn o bryd sy'n gysylltiedig ag amrywiaeth o bynciau (sbwriel, gwastraff, tir yr ysgol, bioamrywiaeth). Mae'r rhieni yn deall bod y mentrau hyn yn gysylltiedig ag ymgais yr ysgol i ddod yn Eco-Ysgol, h.y. rheilen gwisg ysgol ail-law, ailgylchu gyda Michael, gweithgareddau cyfnewid llyfrau a gwisg ffansi, Dydd Mercher welintons a datblygu coetir cymunedol. Mae rhieni'r Gymdeithas Rhieni, Athrawon a Chyfeillion yn ymwneud yn helaeth â hyn.

Gwnaeth y disgyblion greu arwydd 3D ar gyfer y gweithgreddau glanhau traith cymunedol yn y dyfodol:



Arwydd ar gyfer y gweithgaredd glanhau traeth cymunedol:




Kiri yn dangos amrywiaeth o bethau i'w defnyddio yn lle plastig i'r plant:



| | |
|---|---|
| **Pa mor llwyddiannus oedd eich** | Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, gan gyda'r holl ddisgyblion yn cael eu cynnwys mewn rhywbeth ymarferol, llawn gwybodaeth, hwyl, creadigol a bach yn wahanol.<br><br>Dywedodd Mrs Walters, sy'n addysgu blwyddyn 1 ac yn gweithredu fel eco gydlynydd: "Roedd y plant wedi cael cymaint o hwyl ar y diwrnod, rydym yn bwriadu |

**diwrnod gweithredu?**

cynnal eco ddiwrnod bob hanner tymor ein hunain. Roedd y plant wedi mwynhau'r sesiynau amrywiol a chyffrous, ac wedi dysgu llawer, a gwnes i ddysgu llawer hefyd!".

Dywedodd Eden Phillips, sy'n ddisgybl Blwyddyn 1:

"Nid oeddem ni'n gwybod bod cymaint o fywyd gwyllt o'n hamgylch, megis crwbanod y môr a dolffiniaid.  Mae mor drist eu bod yn bwyta plastig ac yn mynd yn sownd ynddo".

Mae'r eco bwyllgor wedi cael dyfarniad efydd ac arian Eco-Sgolion, ac rydym bellach ar ein ffordd i gael statws baner werdd erbyn tymor yr haf!




**Gwersi a ddysgwyd**

Roedd y diwrnod yn llwyddiant mawr, ac yn cynnwys y disgyblion a'r staff i gyd.
Y tro nesaf, byddwn yn sicrhau bod yr holl staff yn cael diwrnod cyfan o sesiynau mewn ystafell ddosbarth eco/yn yr awyr agored (efallai y byddai'n well cynnal y diwrnodau hyn yn fwy rheolaidd yn ystod tymor yr haf fel y gellir gwneud mwy o ddefnydd o'r ardaloedd awyr agored), ond byddwn yn eu cynnal yn rheolaidd yn ystod pob tymor.
Roedd yn ddiwrnod prysur iawn gan ein bod wedi cyfuno'r eco ddiwrnod â llawer o agweddau ar ddinasyddiaeth fyd-eang. Roedd yn Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac yn ddiwrnod rhyngwladol, felly roedd y disgyblion wedi dysgu llawer am ofalu am eu planed amrywiol.

**Cynlluniau at y dyfodol, h.y., a gymerir camau dilynol ar sail y Diwrnod Gweithredu, neu a gaiff ei gynnal eto?**

Fel yr uchod.

**Sut y gwnaethoch gysylltu'r Diwrnod**

Yn bennaf drwy wyddoniaeth, daearyddiaeth, Saesneg, Cymraeg a Dylunio a Thechnoleg ar gyfer CA2 a Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd drwy'r Cyfnod Sylfaen.

**Gweithredu â'r cwricwlwm? A wnaeth eich diwrnod gweithredu arwain at unrhyw newid mewn ymddygiad Y TU ALLAN i'r ysgol, h.y. yn y cartref neu'r gymuned ehangach?**

Rydym yn gobeithio y gwnaeth!

Mae preswylwyr a busnesau Dinbych-y-pysgod newydd sefydlu rhwydwaith a grŵp gweithredu 'Dinbych-y-pysgod Di-blastig', ac rydym yn gobeithio, fel ysgol, helpu i wneud cyfraniad at y gwaith cymunedol hwn.
Rydym eisoes wedi dechrau nifer o weithgareddau cymunedol yn ymwneud â gwastraff a sbwriel (fel y rhestrir uchod), ac erbyn hyn rydym wedi gwahardd defnyddio gwellt yfed gyda'n llaeth ysgol.
Rydym yn gobeithio y bydd y newidiadau a wneir gennym yn yr ysgol yn cael effaith ar y rhieni hefyd.
Aeth nifer o'n disgyblion a'u teuluoedd gyda Kiri Howell i lanhau traeth – digwyddiad a gynhaliwyd gan gangen leol y siop White Stuff ac a gefnogwyd gan Cadwch Gymru'n Daclus.
Rydym yn gobeithio y bydd Kiri yn arwain gweithgaredd glanhau traeth ar gyfer yr holl ddisgyblion a'u teuluoedd yn ystod tymor yr haf.

Gweithgaredd glanhau traeth cymunedol, Traeth y De, Dinbych-y-pysgod 18/02/18:








| | |
|---|---|
| **A wnaeth eich Aelod Cynulliac gymryd rhan ar y diwrnod? Beth a wnaeth eich AC?** | Naddo.<br>Gwnaethom ofyn i'r BBC ac S4C ddod, ond roeddent yn brysur. Byddem yn awyddus i godi proffil ein gwaith ar yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| **Sut yr oeddech yn creu cyhoeddusrwy d e.e. twitter, y wasg, gwefan yr ysgol.** | Llythyrau at y rhieni, Facebook a Twitter:<br>http://www.ysgolhafanymor.cymru/home/correspondence/letters/ (12/02/18)<br>https://www.facebook.com/Ysgol-Hafan-y-Mor-Dinbych-y-Pysgod-172511693164340/<br>https://twitter.com/hafanymortenby |

## Cyfeiriadau

---

[1] UNEP (2019) https://www.unenvironment.org/explore-topics/oceans-seas/what-we-do/working-regional-seas/marine-litter
[2] UNEP (2017) http://www.unep.org/newscentre/un-declares-war-ocean-plastic
[3] Piper, T, [.PPX] '*The social and economic effects of marine litter*'
https://www.dorsetforyou.gov.uk/media/pdf/q/i/The_Social___Economic_Effect_of_Marine_Litter_-_Kimo_UK_-_Tom_Piper.pdf (24.1.19)
[4] UNEP | Greenpeace. (2005). *Plastic Debris in the World's Oceans.* (6.8.15)
http://www.unep.org/regionalseas/marinelitter/publications/docs/plastic_ocean_report.pdf (14.7.15)
[5] BBC, 30.4.18 '*Why pristine lakes are filled with toxins*', http://www.bbc.com/future/story/20180426-why-plastics-are-not-just-an-ocean-problem (24.1.19)
[6] Elliot.L, The Guardian, 21.12.14, '*Putting a value on volunteering in the age of austerity*'
https://www.theguardian.com/business/economics-blog/2014/dec/21/volunteering-economic-value-wellbeing-austerity (24.1.19)
[7] DWP, 2013, '*Wellbeing and civil society Estimating the value of volunteering using subjective wellbeing data*'
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/221227/WP112.pdf (24.1.19)
[8] Clubb, S (CGGC), 2018, '*Gwirfoddoli a Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru*' https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/02/public_services_and_volunteeringfinal_cym.pdf (24.1.19)
[9]Llywodraeth y DU, 2012. Marine Strategy Part One: UK Initial Assessment and Good Environmental Status.
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/69632/pb13860-marine-strategy-part1-20121220.pdf (24.1.19)
[10] Y Comisiwn Ewropeaidd (2016), *Legislation> Waste Prevention'*
http://ec.europa.eu/environment/waste/prevention/legislation.htm (24.1.19)
[11] Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, 2016 'Third *Sector Statistical Resource'*
https://www.wcva.org.uk/media/3594846/wcva_almanac_2016_6_.pdf (24.1.19)
[12] *Ibid.*
[13] *Ibid.*
[14] *Ibid.*
[15] Cadwch Gymru'n Daclus, 2018, '*Adroddiad Effaith Cadwch Gymru'n Daclus*' https://www.keepwalestidy.cymru/heffaith (24.1.19)
[16] EcoSchools Global, 2018: http://www.ecoschools.global/ (24.1.19)
[17] Meini Prawf Traethau'r Faner Las, (2008), http://medalp.eu/fr/wp-content/uploads/2009/05/beachcriteriaexplanatorynotes2008.pdf (24.1.19)
[18] ACR+ & IBGE (2011) Ban on disposal drink containers and tableware in Munich, Germany (Münchner Einwegverbot)
[19] *RECUP: The Coffee Cup Share System Set to Take Over Berlin | Green Living*, cyrchwyd 22 Chwefror 2019, https://en.reset.org/blog/recup-coffee-cup-share-system-set-take-over-berlin-08102017
[20] *Recup, Germany*, cyrchyd 22 Chwefror 2019, https://make-the-planet-great-again.com/recup
[21] (2018) *Recup fights packaging waste with a cup deposit scheme*, cyrchwyd 22 Chwefror 2019, https://www.smart-magazine.com/recup-coffee-cups/
[22] *PRODUKTE*, cyrchwyd 22 Chwefror 2019, https://recup.de/der-recup
[23] *OpenIDEO - NextGen Cup Challenge // Public Submission - RECUP - Deposit system for reusable cups*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, https://challenges.openideo.com/challenge/next-gen-cup-challenge/ideas/recup-deposit-system-for-coffee-to-go
[24] *PRODUKTE*, cyrchwyd 22 Chwefror 2019, https://recup.de/der-recup
[25] *CASE STUDY 1 - The Story of Recircle*
[26] *CASE STUDY 1 - The Story of Recircle*
[27] *CASE STUDY 1 - The Story of Recircle*
[28] *No need to carry a water bottle when running in Copenhagen*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, https://www.hofor.dk/english/knowledge-downloads/water-supply/no-need-to-carry-a-water-bottle-when-running-in-copenhagen/
[29] *Environmental Technology Centre | Water Facts*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, https://www.nottingham.ac.uk/etc/guide-water.php
[30] Knapton, S. (2017) Bring back drinking fountains to cut plastic bottle waste and improve health, *The Telegraph*
[31] *Jamie Oliver sugar tax to fund water fountains in parks | LACA*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, http://laca.co.uk/jamie-oliver-sugar-tax-fund-water-fountains-parks-1
[32] Montgomery, S. (2008) *Gefion fountain, Copenhagen*
[33] Wilson, A. (2019) Venice's Bibione beach is the first in Italy to ban smoking, *The Guardian*
[34] Limited, B.P.P.C. *Smoking ban at 24 beaches in force from Thursday*, cyrchwyd 22 Chwefror 2019, https://www.bangkokpost.com/news/general/1405110/smoking-ban-at-24-beaches-in-force-from-thursday
[35] Ariza, E., and Leatherman, S.P. (2012) No-Smoking Policies and Their Outcomes on U.S. Beaches, *Journal of Coastal Research*, Cyf.278, tt.143–147
[36] Cyngor Sir Penfro (2017) Hysbyseb Cyfarfod ac Agenda - Cyfarfod Aelodau'r Cabinet - Cyngor Sir Penfro

[37] admin (2017) *Break Free From Plastic Movement | #breakfreefromplastic*
[38] admin (2017) *Break Free From Plastic Movement | #breakfreefromplastic*
[39]Crëwyd Cynghorau Cynghorol Pysgodfeydd ar ôl i'r Polisi Cyffredin ar Bysgodfeydd gael ei ddiwygio yn 2002.
[40] http://cnogear.org/the-network/article-english
[41] https://www.fiskeridir.no/English/Fisheries/Retrieval-surveys-for-lost-gill-nets
[42] Cyfarwyddiaeth Pysgodfeydd, Norwy a Langedal, G. (2012) Ghostfishing: The Annual Fishing Gear Cleanup Actions - an Endless Job?, Papur a draddodwyd yn Seminar Keep Norway Beautiful, 2012
[43] Gohebiaeth â'r Gyfarwyddiaeth Gyffredinol MARE
[44] UNEP, a FAO (2009) *Abandoned, Lost or Otherwise Discarded Fishing Gear*, 2009
[45] MARELITT (2013) *Pilot project: removal of marine litter from Europe's four regional seas - Assessment Report*, Rhagfyr 2013
[46] Surfrider Foundation Europe *Riverine Input*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, https://www.surfrider.eu/missions-environnement-education/proteger-oceans-mers-pollution/dechets-aquatiques/riverine-input/
[47] Antoine Bruge, Cristina Barreau, Jérémy Carlot, Hélène Collin, Clément Moreno, and Philippe Maison (2018) Monitoring Litter Inputs from the Adour River (Southwest France) to the Marine Environment, *Journal of Marine Science and Engineering*, Cyf.6, Rhif 1, t.24
[48] Surfrider Foundation Europe *Riverine Input*, cyrchwyd 25 Chwefror 2019, https://www.surfrider.eu/missions-environnement-education/proteger-oceans-mers-pollution/dechets-aquatiques/riverine-input/
[49] Antoine Bruge, Cristina Barreau, Jérémy Carlot, Hélène Collin, Clément Moreno, a Philippe Maison (2018) Monitoring Litter Inputs from the Adour River (Southwest France) to the Marine Environment, *Journal of Marine Science and Engineering*, Cyf.6, Rhif 1, t.24
[50] KIMO (2011) *Final Report. Fishing for Litter Scotland 2008-2011*, 2011, http://www.kimointernational.org/WebData/Files/FFL%20Scotland/FFL%20Scotland%20Report%20FINAL.pdf
[51] http://www.fishingforlitter.org.uk/assets/file/Report%20FFL%202011%20-%2014.pdf
[52] http://fishingforlitter.org/#Cleaningtheoceansince2004
[53] Comisiwn OSPAR (2007) *Guidelines on how to develop a fishing for litter project*
[54] Jambeck, J.R., Geyer, R., Wilcox, C., et al. (2015) Plastic waste inputs from land into the ocean, *Science*, Cyf.347, Rhif 6223, tt.768–771
[55] Nofir *Nofir AS - Bodø - Se Regnskap, Roller og mer*, cyrchwyd 27 Gorffennaf 2015, http://www.proff.no/selskap/nofir-as/bod%C3%B8/avfallsbehandling-og-gjenvinning/Z0IAV7GS/
[56]Gohebiaeth bersonol ag Øistein Aleksandersen, Prif Swyddog Gweithredol Nofir
[57] https://ec.europa.eu/environment/eco-innovation/projects/en/projects/eufir
[58] Gohebiaeth bersonol â Gudlaugur Sverrisson, Rheolwr Gweithredol, Cronfa Ailgylchu Gwlad yr Iâ
[59] Gohebiaeth bersonol â Gudlaugur Sverrisson, Rheolwr Gweithredol, Cronfa Ailgylchu Gwlad yr Iâ